arian
YR IFANC
Rhan o Fenter yr Ifanc

menter
YR IFANC
Aelod o Cyflawniad Ieuenctid Byd-eang

# MAE'CH ARIAN O BWYS

## CANLLAW I ATHRAWON



CYMRU

# MAE'CH ARIAN O BWYS

## CANLLAW I ATHRAWON

arian YR IFANC

Rhan o Fenter yr Ifanc

**Cyhoeddwyd gan Young Money (rhan o Young Enterprise)**

Young Enterprise
Campws Coram
41 Sgwâr Brunswick
Llundain
WC1N 1AZ

Mae Young Enterprise yn elusen gofrestredig.
Rhif cofrestredig 313697

© 2021 Young Money.

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu na defnyddio'r llyfr hwn, nac unrhyw ran ohono, mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Cyhoeddwr.

**Cydnabyddiaeth**

Hoffai Young Money achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Martin Lewis OBE, sylfaenydd MoneySavingExpert.com, am ei rodd hael, ei gyfarwyddyd a'i frwdfrydedd a wnaeth y gwerslyfr Mae'ch Arian o Bwys gwreiddiol yn bosibl, ac am ei gyfraniad at y fersiwn hon ar gyfer Cymru. Hoffai Young Money hefyd ddiolch i'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau am ddarparu cyllid ochr yn ochr â Martin Lewis i gynhyrchu a darparu'r gwerslyfr i ysgolion yng Nghymru. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyngor a'r cymorth amhrisiadwy a gynigiwyd gan athrawon ac arbenigwyr yn y diwydiant yng Nghymru i sicrhau bod y gwerslyfr yn cael ei osod yng nghyd-destun Cymru.

Diolchir yn arbennig i'r canlynol hefyd:

**Awduron a gyfrannodd**

Stewart Jones
Emma Waller
Russell Winnard, Young Money
Liz Booth, Young Money

**Cyfranwyr eraill**

Chloe Shuttlewood, Young Money
Emma-Jayne Turner, Young Money
Robyn Vernon-Harcourt, Young Money
Eileen Gannon, Young Money
Feyi Onamusi, Young Money
Charlotte Churchill, Young Money
Braden Clamp, Young Money
Rhian Carruthers, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
Luned Davies, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Dyluniad gan **Something Big Ltd.**
Marc Ansawdd gan **Young Money**

# BYDDWCH YN UN O'R GWYBODUSION, **NID YR ANWYBODUSION.**

Rydyn ni'n byw yn un o'r economïau defnyddwyr mwyaf cystadleuol yn y byd. Mae cwmnïau'n gwario biliynau ar hysbysebu, marchnata ac addysgu eu staff i werthu, ac eto nid yw defnyddwyr yn cael hyfforddiant fel prynwyr. Mae hyn yn creu anghydbwysedd sy'n cael effaith andwyol ar les miliynau o bobl; ac mae sgamiau, camwerthu, penderfyniadau gwael a gorddyledusrwydd i'w gweld yn helaeth.

Rwy'n credu'n gryf fod addysg ariannol yn gallu unioni'r anghydbwysedd hwnnw. Dyna pam yr ymgyrchais yn frwd am gyfnod hir i'w chynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol, gan gyflawni hynny yn 2014 (wedi'i rhannu ar draws mathemateg a dinasyddiaeth) yn Lloegr.

Ond buddugoliaeth byrrhig ydoedd, yn anffodus. Ymarfer ticio blwch, nad yw wedi arwain at fawr o newid oherwydd bod ysgolion yn ddifrifol brin o adnoddau. Ychydig iawn o hyfforddiant y mae athrawon newydd a sefydledig wedi'i gael, ac mae hyn i gyd wedi rhoi pwysau arnoch chi a'ch ysgol i gyflawni gofyniad arall ar eich adnoddau a'ch amser.

Nid yw hyn yn ddigon da i'n plant na'n hysgolion. Felly, ar ôl penderfynu digon yw digon, rydw i wedi rhoi fy arian ar fy ngair a thalu'r elusen addysg ariannol Young Money (sy'n rhan o Young Enterprise) i greu'r gwerslyfr addysg ariannol cyntaf erioed ar gyfer ysgolion uwchradd.

Mae'r gwerslyfr Mae'ch Arian o Bwys yn cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol a bydd y canllaw hwn i athrawon yn helpu eich tîm i adnabod ble y gellir integreiddio addysg ariannol i feysydd dysgu eraill, fel na fydd angen neilltuo amser ychwanegol iddi yn y cwricwlwm, o reidrwydd, ac y gall gefnogi'r ddarpariaeth bresennol.

Gobeithiaf y bydd y gwerslyfr a'r canllaw i athrawon yn eich grymuso i ddarparu addysg arloesol, o ansawdd da, ar y materion y bydd myfyrwyr yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol.






**Martin Lewis OBE**
Sylfaenydd MoneySavingExpert.com

*Mae Young Money yn ddiolchgar iawn i Martin Lewis OBE am gyd-ariannu'r gwaith o ddatblygu a darparu Mae'ch Arian o Bwys a'r canllaw hwn i athrawon i holl ysgolion uwchradd a chanol y wladwriaeth yng Nghymru.*

# MAE'CH ARIAN **O BWYS**

Mae datblygu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau mewn perthynas ag arian a chyllid personol yn gynnar yn galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n dod iddynt ac osgoi rhai o'r maglau y byddant yn sicr o ddod ar eu traws. Rydym yn falch iawn o ychwanegu'r gwerslyfr hwn at yr offer a'r adnoddau amrywiol ar draws y sector sy'n ceisio cefnogi'r gwaith hollbwysig o ddatblygu gallu ariannol pobl ifanc. Diolch yn fawr i Martin Lewis OBE a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, a alluogodd hyn i ddigwydd, ac i athrawon ac addysgwyr ledled y wlad am eich ymdrechion i wella gallu ariannol cenhedlaeth o bobl ifanc.





**Sharon Davies,**
Prif Swyddog Gweithredol Young Enterprise (mae Young Money yn rhan o Young Enterprise)

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn gweithio i sicrhau bod pawb yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig yn gallu cael gafael yn rhwydd ar y wybodaeth y mae arnynt ei hangen, o arian poced i bensiynau, i wneud y mwyaf o'u harian drwy gydol eu hoes. Ochr yn ochr â rhieni a gofalwyr, mae ysgolion ac athrawon mewn sefyllfa unigryw i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau ariannol y mae arnynt eu hangen.

Bydd Cwricwlwm Newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno o 2022 ymlaen, gydag addysg ariannol yn berthnasol i nifer o'r meysydd dysgu a phrofiad newydd, gan gynnwys mathemateg a rhifedd ac iechyd a lles. Mae addysg ariannol yn gwella lles ariannol ac yn paratoi dysgwyr i ddeall a rheoli eu hincwm yn awr ac yn y dyfodol. Gall eu helpu i ddewis y cynhyrchion a'r gwasanaethau ariannol gorau a'u diogelu eu hunain rhag twyll a chamfanteisio.

Rydym yn falch iawn o ffurfio partneriaeth â Martin Lewis OBE a Young Money i gynorthwyo athrawon i helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i ddatblygu arferion ariannol cadarnhaol a fydd yn aros gyda nhw am weddill eu hoes.





**Lee Phillips,**
Rheolwr Cymru, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

**Cysylltu**


Young Enterprise
Campws Coram
41 Sgwâr Brunswick
Llundain
WC1N 1AZ

**Ff.** 0207 549 1980
**E.** info@y-m.org.uk
Dilynwch ni ar twitter
**@YoungMoneyEdu**



Mae Young Enterprise yn elusen gofrestredig. Rhif cofrestredig 313697 Corfforwyd yn Lloegr fel Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif 712260

# MAE'CH ARIAN O BWYS
# CANLLAW I ATHRAWON



Mae'r Canllaw i Athrawon hwn yn cyd-fynd â'r gwerslyfr **Mae'ch Arian o Bwys** a gynhyrchwyd gan Young Money.

Gwerslyfr ar gyfer myfyrwyr yw Mae'ch Arian o Bwys a fwriadwyd i gynorthwyo myfyrwyr 14 i 16 oed. Mae'n cyd-fynd â'r cwricwlwm, wedi cael ei dreialu gydag athrawon a myfyrwyr, ac yn adnodd Marc Ansawdd.

Fe'i datblygwyd i helpu ysgolion i gyflwyno rhaglen gydlynol o addysg ariannol, er mwyn sicrhau bod gan yr holl fyfyrwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau hanfodol tuag at arian wrth iddynt fynd yn fwy annibynnol.

## Beth yw addysg ariannol?

Addysg ariannol yw'r addysgu a'r dysgu sy'n galluogi unigolion i wella eu **gwybodaeth**, eu **sgilia**u a'u **hagweddau** mewn perthynas ag arian a materion ariannol. Trwy dderbyn addysg ariannol o ansawdd uchel, gellid disgwyl i unigolyn ddatblygu a gwella ei **allu ariannol**.

Mae addysg ariannol yn cael ei haddysgu mewn amryw ffyrdd mewn ysgolion, fel cymwysterau annibynnol, wedi'i hymgorffori mewn meysydd pwnc penodol ac fel rhan o weithgareddau ar wahân nad ydynt ar yr amserlen. Sut bynnag mae ysgolion unigol yn penderfynu cyflwyno addysg ariannol, dylai fod yn rhan o raglen astudio wedi'i chynllunio, sy'n ychwanegu at wybodaeth flaenorol ac yn atgyfnerthu dysgu drwy gydol yr ysgol uwchradd.

## Pam mae angen addysg ariannol

Mae plant a phobl ifanc heddiw yn gorfod gwneud amrywiaeth gynyddol o benderfyniadau ariannol, o weithgareddau dydd i ddydd, fel p'un ai lawrlwytho apiau a cherddoriaeth ar-lein ai peidio, i benderfyniadau tymor hwy, fel sut i dalu am gar, a ph'un ai mynd i'r brifysgol neu chwilio am waith.

Mae'r cyd-destun ariannol a defnyddwyr y mae pobl ifanc yn tyfu ynddo wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae newid technolegol wedi eu helpu i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ariannol yn gynnar ac wedi newid eu cysyniad o arian yn llwyr o gymharu â chenedlaethau blaenorol.

Gall addysg ariannol chwarae rôl bwysig wrth helpu pobl ifanc i lywio'r cyd-destun ariannol a defnyddwyr newydd ac mae'n helpu i'w paratoi ar gyfer realiti ariannol bywyd y tu hwnt i giatiau'r ysgol.

## Addysg ariannol yn y cwricwlwm ysgol

Mae addysg ariannol wedi bod yn rhan o'r cwricwla cynradd ac uwchradd statudol ers 2008 ym meysydd Datblygiad Mathemategol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 wedi pwysleisio pwysigrwydd addysg ariannol ymhellach ac mae'n rhan statudol o ddau Faes Dysgu a Phrofiad: Mathemateg a Rhifedd, ac Iechyd a Lles.

## Ble mae addysg ariannol yn y Cwricwlwm i Gymru 2022?

**1. Mathemateg a Rhifedd**

Mae pobl yn defnyddio eu sgiliau mathemateg a rhifedd i wneud penderfyniadau ariannol, ac mae addysg ariannol yn rhoi cyd-destunau ysgogol ac ystyrlon i ddatblygu agweddau ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mathemategol.

Yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn, gall dysgwyr ddod ar draws cyd-destunau sy'n ymwneud ag iechyd a chyllid personol, lle y gallent ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i reoli eu cyllid eu hunain, gwneud penderfyniadau gwybodus a dod yn ddefnyddwyr beirniadol.

Bydd disgyblion yn datblygu eu gallu ariannol ar Gamau Cynnydd 3, 4 a 5.

**Cam Cynnydd 3:** Gall dysgwyr ddangos dealltwriaeth o incwm a gwariant, a chymhwyso cyfrifiadau i archwilio elw a cholled.

**Cam Cynnydd 4:** Gall dysgwyr gymhwyso canrannau a chymhareb i ddatrys problemau gan gynnwys llog syml ac adlog, arbrisiant a dibrisiant, cyfrifo cyllidebau, arian tramor, a threthiant sylfaenol ar nwyddau a gwasanaethau. Byddant yn datblygu dealltwriaeth o gyllid mewn cyd-destunau personol, lleol a byd-eang.

**Cam Cynnydd 5:** Bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o gyllid ymhellach i gynnwys cyfradd gyfwerth flynyddol (AER) a chyfradd ganrannol flynyddol (APR) fel y gallant werthuso a chymharu cynhyrchion ariannol.

Gall dysgwyr gyfrifo treth incwm a deall goblygiadau trethiant, gan gynnwys defnyddio cyfraddau treth incwm Cymru a threthi eraill sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Gall dysgwyr ddadansoddi ystadegau'n feirniadol, gan ystyried sut mae data'n cael ei gynrychioli, ei ddibynadwyedd, a ph'un a yw'r data wedi cael ei drin i adrodd stori benodol, a sut y gwnaed hynny. Gallant wneud penderfyniadau gwybodus wedi'u seilio ar dystiolaeth ystadegol, gan nodi tuedd ac anghysondebau.

**Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn y Maes hwn**

Dylai ymarferwyr archwilio ffynonellau ac adnoddau lleol, gan ddefnyddio amgylchedd unigryw'r ysgol i wella dysgu mewn mathemateg a rhifedd.

Bydd defnyddio enghreifftiau o Gymru wrth addysgu materion ariannol, fel cyfraddau Treth Incwm Cymru a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gytunwyd gan y Senedd, yn dangos y cysylltiad rhwng mathemateg a rhifedd a'r byd go iawn.

**2. Iechyd a Lles**

Gall y Maes hwn helpu dysgwyr i ddeall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn effeithio arnyn nhw, pobl eraill a'r gymdeithas ehangach, yn awr ac yn y dyfodol. Fe all hefyd helpu dysgwyr i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar wneud penderfyniadau, gan felly eu rhoi mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ac ystyriol.

Gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau meddwl yn feirniadol sy'n angenrheidiol i ystyried y penderfyniadau a wnânt o ran goblygiadau posibl, gan gynnwys risgiau, iddyn nhw a phobl eraill. Gall hyn gynnig cyfleoedd i ddysgwyr wneud penderfyniadau ar y cyd a deall pwysigrwydd eu cyfraniadau at y broses hon.

Yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, gallai dysgwyr archwilio llythrennedd ariannol trwy risg a dyled bersonol, a'u canlyniadau. Dylai'r ddwy elfen hyn gael eu haddysgu gyda'i gilydd oherwydd y cysylltiadau agos rhyngddynt.

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles hefyd yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr o'r broses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys goblygiadau penderfyniadau ac ystyried risg.

Mae rhifedd yn darparu cyd-destun pwysig i archwilio a chefnogi gwneud penderfyniadau'n gadarnhaol, yn enwedig o ran penderfyniadau ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth am addysg ariannol yn y Cwricwlwm i Gymru, ewch i **https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/mathemateg-a-rhifedd**.

## Y Fframwaith Cynllunio Addysg Ariannol

Mae Young Money wedi datblygu dau fframwaith sy'n ceisio cefnogi'r broses o gynllunio, addysgu a datblygu addysg ariannol trwy amlinellu'r meysydd gwybodaeth, sgiliau ac agweddau ariannol allweddol ar draws pedair thema graidd:

- Sut i reoli arian.
- Dod yn ddefnyddiwr beirniadol.
- Rheoli risgiau ac emosiynau sy'n gysylltiedig ag arian.
- Deall y rôl bwysig y mae arian yn ei chwarae yn ein bywydau.

Mae'r fframwaith cyntaf wedi'i fwriadu ar gyfer plant 3-11 oed ac mae'r ail wedi'i fwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc 11-19 oed.

Gall athrawon uwchradd sy'n datblygu rhaglen astudio addysg ariannol ddefnyddio'r Fframwaith Cynllunio Uwchradd i amlygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau ar addysg ariannol sy'n briodol i'w myfyrwyr, ac yna defnyddio'r gwerslyfr i helpu i gyflawni deilliannau o'r fframwaith cynllunio.

Bydd athrawon yn gweld bod y gwerslyfr a'r Fframwaith Cynllunio Uwchradd yn ategu ei gilydd yn rheolaidd. Er enghraifft, bydd athrawon sy'n dymuno addysgu 'rheoli risgiau ac emosiynau sy'n gysylltiedig ag arian – delio â thwyll' (o'r fframwaith cynllunio 14-16 oed) yn gweld bod y bennod ar ddiogelwch a thwyll yn rhoi gwybodaeth a gweithgareddau a fydd yn galluogi cyflawni'r holl ddeilliannau cysylltiedig.

## Sut i ddefnyddio Mae'ch Arian o Bwys

Nod Mae'ch Arian o Bwys yw datblygu sgiliau, gwybodaeth ac agweddau pobl ifanc er mwyn iddynt wneud dewisiadau gwybodus am reoli eu harian, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae chwe phennod ar bynciau sy'n berthnasol i fyfyrwyr 14-16 oed. Bydd pob pennod yn dechrau gyda chwestiwn, y bydd y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y bennod yn helpu'r myfyrwyr i'w ateb.

Fe welwch y canlynol ym mhob pennod hefyd:

### GWYBODAETH

Mae'r eicon gwybodaeth yn amlygu gwybodaeth allweddol a defnyddiol am bwnc y bennod.

### A WYDDOCH CHI?

Rydym wedi cynnwys ffeithiau diddorol sy'n procio'r meddwl ynglŷn â'r pynciau dan sylw.

### GWEITHGAREDD

Bwriedir i'r myfyrwyr gwblhau'r gweithgareddau i'w helpu i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion ariannol.

### TRAFODAETH

Mae'r trafodaethau'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr drafod y meysydd pwnc a mynegi eu barn a'u meddyliau er mwyn helpu i ddatblygu ac ystyried eu hagweddau at arian a materion ariannol.

### ASTUDIAETH ACHOS

Mae'r astudiaethau achos yn rhoi enghreifftiau go iawn a pherthnasol, y gellir eu defnyddio i archwilio'r pynciau'n fanylach, gan gynnig cyfle i'r myfyrwyr weithio trwy'r senario a phenderfynu ar y ffordd orau o weithredu.

### CWESTIYNAU

Rhoddir cwestiynau dealltwriaeth ar ddiwedd pob adran sy'n cynnig cyfle i'r myfyrwyr wneud yn siŵr eu bod yn deall.

### BETH YDYCH CHI WEDI'I DDYSGU?

Mae pob pennod yn cael ei chrynhoi trwy adran 'Beth ydych chi wedi'i ddysgu?', sy'n cynnwys gweithgareddau crynhoi ac astudiaethau achos i'r myfyrwyr eu cwblhau, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsant o'r bennod.

### DATBLYGU'CH GWYBODAETH

Ar ddiwedd pob pennod, mae adran ychwanegol sy'n cynnwys gwybodaeth bellach a manylach am y maes pwnc, a gweithgareddau estynedig i herio myfyrwyr mwy abl.

## Nodau'r Canllaw i Athrawon

Sut bynnag mae addysg ariannol yn cael ei chyflwyno mewn ysgol, mae'r gwerslyfr Mae'ch Arian o Bwys yn cynnwys syniadau, ymarferion a heriau a fydd yn galluogi athrawon i ychwanegu at arferion presennol, neu ddatblygu rhaglen addysg ariannol wedi'i chynllunio a fydd yn helpu pobl ifanc i lywio'r cyd-destunau ariannol a defnyddwyr maen nhw'n eu hwynebu sy'n newid drwy'r amser.

Dyma nodau'r Canllaw i Athrawon:

- Rhoi arweiniad ar sut i ddefnyddio Mae'ch Arian o Bwys i gynllunio a chyflwyno addysg ariannol.
- Cefnogi'r broses o addysgu ac ymgorffori addysg ariannol yn y cwricwlwm trwy amlygu cyfleoedd dysgu a gweithgareddau trawsgwricwlaidd ac allgyrsiol posibl.
- Cyfeirio at gymorth pellach ar y pynciau y rhoddir sylw iddynt yn y gwerslyfr.

Mae'r Canllaw i Athrawon yn cynnwys chwe phennod, sy'n adlewyrchu'r chwe phwnc addysg ariannol y rhoddir sylw iddynt yn Mae'ch Arian o Bwys:

**1. CYNILO**

**2. GWNEUD Y MWYAF O'CH ARIAN**

**3. BENTHYCA**

**4. SYMUD YMLAEN O'R YSGOL – BYD GWAITH**

**5. RISG A GWOBR**

**6. DIOGELWCH A THWYLL**

Mae pob pennod yn cynnwys amlinelliad o'r testun a pham mae'n bwysig, yn ogystal â map cwricwlwm manwl sy'n dangos ble y gellir cyflwyno'r testunau hyn o fewn gwahanol bynciau.

Datblygwyd Mae'ch Arian o Bwys i'w ddefnyddio gyda myfyrwyr 14-16 oed, ond gallai llawer o ysgolion benderfynu defnyddio'r gwerslyfr gyda grwpiau blwyddyn eraill, oherwydd bod ysgolion yn tueddu i fod ar wahanol gamau wrth gyflwyno addysg ariannol i'w myfyrwyr.

## Defnyddio'r Lluniwr Cynllun Gwers

Mae'r Canllaw i Athrawon yn darparu **Lluniwr Cynllun Gwers** ar gyfer pob pennod o Mae'ch Arian o Bwys. Mae'r Lluniwr Gwers yn cynnwys cyfres o weithgareddau dechreuol, craidd ac ymestyn sy'n ychwanegu at y wybodaeth a'r gweithgareddau yn y gwerslyfr. Cynlluniwyd y rhain i alluogi athrawon i greu gwers 45-60 munud sy'n defnyddio elfennau o'r bennod i gefnogi dysgu:

1. Dewiswch weithgaredd dechreuol i gyflwyno'r wers
2. Dewiswch weithgaredd craidd i ddatblygu dysgu
3. Os oes digon o amser, dewiswch weithgaredd ymestyn i ehangu dysgu

Gall y gweithgareddau yn y camau dechreuol, craidd ac ymestyn gael eu paru â'i gilydd mewn ystod eang o gyfuniadau i ddatblygu gwersi sy'n briodol i anghenion gwahanol grwpiau o fyfyrwyr, o ran gallu a gweithgareddau.

Sylwch fod y wybodaeth ariannol yn y llyfr hwn yn gywir ar yr adeg ysgrifennu ond gallai newid, er enghraifft pan fydd y llywodraeth yn diweddaru ffigurau lwfans blynyddol, neu os cyflwynir deddfwriaeth newydd.

## Atebion i gwestiynau

Ar ddiwedd pob pennod o'r Canllaw i Athrawon, fe welwch yr atebion i'r gweithgareddau yn y bennod o'r gwerslyfr, gan gynnwys y cwestiynau 'Datblygu'ch gwybodaeth'. Gallwch hefyd weld arweiniad a meysydd i'w hystyried wrth fynd i'r afael â'r astudiaethau achos a thrafodaethau gyda'ch myfyrwyr ar gyfer y bennod honno.



# MAE'CH ARIAN O BWYS CANLLAW I ATHRAWON
# CYNNWYS


11 CYNILO
11 Cysylltiadau â'r cwricwlwm
12 Lluniwr Cynllun Gwers
16 Atebion
22 Atebion 'Datblygu'ch gwybodaeth'

23 GWNEUD Y MWYAF O'CH ARIAN
23 Cysylltiadau â'r cwricwlwm
24 Lluniwr Cynllun Gwers
27 Atebion
33 Atebion 'Datblygu'ch gwybodaeth'

35 BENTHYCA
35 Cysylltiadau â'r cwricwlwm
36 Lluniwr Cynllun Gwers
39 Atebion
46 Atebion 'Datblygu'ch gwybodaeth'

49 SYMUD YMLAEN O'R YSGOL
49 Cysylltiadau â'r cwricwlwm
50 Lluniwr Cynllun Gwers
55 Atebion
60 Atebion 'Datblygu'ch gwybodaeth'

63 RISG A GWOBR
63 Cysylltiadau â'r cwricwlwm
64 Lluniwr Cynllun Gwers
68 Atebion
74 Atebion 'Datblygu'ch gwybodaeth'

76 DIOGELWCH A THWYLL
76 Cysylltiadau â'r cwricwlwm
77 Lluniwr Cynllun Gwers
81 Atebion
85 Atebion 'Datblygu'ch gwybodaeth'

86 RHAGOR O GYMORTH A CHEFNOGAETH
87 Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau
88 Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain
89 Yr Elusen Arian
90 MyBnk
91 Young Money




# CYNILO

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn ystyried y rhesymau pam mae pobl yn cynilo arian, sut i gymharu'r opsiynau cynilo sydd ar gael a pham mae cynilo'n ffordd bwysig o gyrraedd nodau ariannol yn y dyfodol.

Archwilir y pynciau canlynol naill ai trwy ddarparu gwybodaeth ac astudiaethau achos, neu drwy weithgareddau ar gyfer myfyrwyr. Rhoddir cysylltiad posibl â'r cwricwlwm wrth ymyl pob pwnc:

| PWNC | CYSYLLTIAD Â'R CWRICWLWM | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | IECHYD A LLES | | | | MATHEMATEG A RHIFEDD |
| | RHEOLI RISG | CYNLLUNIO AR GYFER GWARIANT | DEALL DYLED | BOD YN DDEFNYDDIWR BEIRNIADOL | |
| Beth yw ystyr cynilo | ■ | ■ | ■ | | |
| Rhesymau dros gynilo | ■ | ■ | ■ | | |
| Ffyrdd o gynilo | ■ | ■ | ■ | ■ | |
| Cyfraddau llog ac AER | ■ | ■ | | ■ | ■ |
| Mathau o gyfrifon cynilo | ■ | ■ | | ■ | ■ |
| Arian ac iechyd meddwl | ■ | ■ | | ■ | |

## PAM MAE'R PWNC HWN YN BWYSIG I BOBL IFANC?

Mae **55%** o bobl ifanc 20-29 oed yn **poeni am allu cynilo.**

*Ffynhonnell: www.nationwide.co.uk*

Mae **12.8m** o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig (46% o'r cyfanswm) naill ai heb gynilion neu â llai na £1,500 o gynilion.


*Ffynhonnell: Yr Elusen Arian, 2021*

Nid yw **81%** o bobl ifanc 18-24 oed yn deall y term **"cyfradd llog"**.

*Ffynhonnell: Ymchwil MoneySuperMarket 2017*

# LLUNIWR CYNLLUN GWERS

Mae rhai o'r gweithgareddau awgrymedig hyn yn cyfeirio at fenthyca gan fod cysylltiad agos rhwng y pynciau. Fe allech ddymuno cyfeirio at y bennod Benthyca o Mae'ch Arian o Bwys a'r Canllaw i Athrawon i gael cymorth ychwanegol â'r bennod hon.



## Cam 1 – Dewiswch weithgaredd dechreuol

(10 – 15 munud)

### Rhesymau dros gynilo  IECHYD A LLES

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu rhestr o eitemau maen nhw'n credu y bydd angen iddynt gynilo ar eu cyfer a) eleni b) yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Gellir defnyddio hyn i gychwyn trafodaeth ynglŷn â'r rhesymau pam mae pobl yn cynilo (gweler tudalen 12) ac yna'i gyfuno â'r gweithgaredd craidd ar **Sefyllfaoedd cynilo yng Ngham 2.**

Efallai bydd modd dilyn hyn gyda thrafodaeth fer ar faterion fel:

- A ydyn nhw'n pryderu am gynilo yn ystod y 10 mlynedd nesaf?
- A ydyn nhw'n disgwyl talu am eu car eu hunain, addysg uwch, eu cartref cyntaf?
- Ble maen nhw'n cadw eu cynilion?
- O ble mae'r arian wedi dod?

Fel arall, rhowch y rhesymau pam mae pobl yn cynilo i'r myfyrwyr ac yna defnyddiwch y cwestiwn trafod ar resymau dros gynilo (gweler tudalen 12) i gychwyn.

### Gohirio boddhad  IECHYD A LLES  MATHEMATEG A RHIFEDD

I gyflwyno'r syniad o ohirio boddhad, gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y cyfyng-gyngor canlynol. Rydych wedi ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth sillafu eich ysgol. Mae gennych ddau ddewis ar gyfer y wobr:

- **Opsiwn 1:** Mynd ag £20 adref heddiw
- **Opsiwn 2:** Mynd â £1.83 adref bob dydd am y 15 diwrnod nesaf

Mewn parau, gofynnwch i'r myfyrwyr gyfrifo pa opsiwn sy'n ennill mwy o arian a faint yn fwy. Yna, gofynnwch iddynt ystyried pa opsiwn y bydden nhw'n ei ddewis a pham. Dilynwch hyn gyda thrafodaeth dosbarth cyfan ynglŷn â buddion gohirio boddhad a chyflwynwch y wybodaeth at dudalen 12.

### Pam nad yw rhai pobl yn cynilo  IECHYD A LLES

Yn lle meddwl am y rhesymau pam mae pobl yn cynilo (gweler tudalen 12), fe allech ofyn i'r myfyrwyr pam **nad** yw llawer o bobl yn cynilo. Casglwch eu rhesymau a gofynnwch iddynt restru eu tri awgrym gorau ar gyfer rhywun sy'n cael trafferth cynilo. Gofynnwch am adborth a cheisiwch gytuno ar y tri awgrym gorau. Lluniwch boster i arddangos hyn yn nhu blaen y dosbarth neu gofynnwch i'r myfyrwyr ei gynhyrchu – efallai fel gwaith cartref.

### Termau a diffiniadau IECHYD A LLES

Wrth i'r myfyrwyr gwblhau'r gwaith yn y bennod Cynilo, fe allech brofi eu dealltwriaeth ar ddechrau gwers newydd trwy ofyn iddynt greu eu gweithgaredd dechreuol eu hunain. Dylent ysgrifennu pum term cynilo allweddol ar un set o gardiau ac yna creu set ar wahân o gardiau sydd â'r diffiniadau wedi'u nodi arnynt. Yna, gallant eu cyfnewid â thîm arall i asesu eu dealltwriaeth ei gilydd o'r termau allweddol a'u diffiniadau. Gofynnwch i'r myfyrwyr gyfateb y termau i'r diffiniadau. Dyma rai enghreifftiau o dermau o'r bennod: cynilo, cynilion, gohirio boddhad, undeb credyd, cyfrif cyfredol, llog, AER, ISA, rhybudd.

Dangoswch eu hatebion i'r dosbarth a gofynnwch a ydynt yn credu eu bod yn gywir. Gallai hyn fod yn weithgaredd dechreuol da i'w wneud unrhyw bryd, er enghraifft, cyn y gweithgareddau craidd ar **greu a dewis cyfrif cynilo yng Ngham 2.**

### Gêm tabŵ IECHYD A LLES

Rhannwch y grŵp yn dimau a rhowch 2 funud i bob tîm ddewis term cynilo allweddol a thrafod sut i'w esbonio heb ddweud enw'r term. Enwebwch un aelod o bob tîm i ddisgrifio'r term i weddill y dosbarth a gweld a allant ei ddyfalu.

## **Cam 2** – Dewiswch weithgaredd/gweithgareddau craidd

(25 – 30 munud)

### Sefyllfaoedd cynilo IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Gallai'r gweithgaredd ar Rhys a Jacob (gweler tudalen 13) ffurfio un o amrywiaeth o senarios posibl y gallai'r myfyrwyr weithio arnynt mewn parau neu grwpiau cyn bwydo eu hatebion yn ôl i'r dosbarth cyfan. Gallai senarios eraill gael eu llunio ynglŷn â sefyllfaoedd cynilo neu wario, er enghraifft:

- Mae person ifanc 18 oed eisiau consol gemau newydd – a ddylai gynilo, benthyca gan ei deulu neu ei brynu ar gredyd o siop gemau?
- Mae gan berson ifanc 15 oed swydd ran-amser sy'n talu £30 yr wythnos. Mae eisiau esgidiau ymarfer newydd sy'n costio £60, ond mae ganddo arian yn ddyledus i'w fam a'i dad ac i ffrind – a ddylai gynilo, talu ei ddyledion neu fenthyca mwy gan ei fam a thalu'r hyn sy'n ddyledus ganddo'n ddiweddarach?

Gallai senarios byr tebyg gael eu creu er mwyn i'r myfyrwyr ystyried tri senario gwahanol.

Fe allech ddymuno cyfeirio at y bennod Benthyca o Mae'ch Arian o Bwys a'r Canllaw i Athrawon i gael cymorth ychwanegol â'r gweithgaredd hwn.

## Cyfrifo llog IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Defnyddiwch yr enghraifft wedi'i gweithio (gweler tudalen 15) i ddangos i'r myfyrwyr sut i gyfrifo llog. Yn dibynnu ar eu gallu, fe allech ofyn iddynt naill ai gwblhau'r cwestiynau sy'n defnyddio'r fformiwla llog syml (gweler tudalen 15) neu'r cwestiynau sy'n defnyddio'r fformiwla adlog (gweler tudalen 17).

## Creu cyfrif cynilo IECHYD A LLES

Defnyddiwch y tabl ar nodweddion cyfrif cynilo (gweler tudalen 20) i esbonio'r derminoleg sy'n gysylltiedig â chyfrifon o'r fath – fel cyfnod rhybudd, mynediad rhwydd, bondiau cynilion ac ISA.

Yna, gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau neu grwpiau bach i greu cyfrif cynilo newydd a fyddai'n apelio at bobl ifanc. Fe allent ddefnyddio'r nodweddion yn y tabl ac ychwanegu pethau maen nhw'n credu a fyddai'n denu pobl i'r cyfrif e.e. rhoddion am ddim efallai?

Dylent roi enw i'w cyfrif ac yna bwydo'n ôl i'r dosbarth. Fe allech gasglu nodweddion allweddol pob cyfrif at ei gilydd mewn tabl yn nhu blaen y dosbarth ac yna gofyn i'r myfyrwyr bleidleisio dros yr un sy'n apelio atynt fwyaf. Ni chânt bleidleisio dros eu cyfrif eu hunain!

## Dewis cyfrif cynilo IECHYD A LLES

Defnyddiwch y gweithgaredd (gweler tudalen 22) ar dri pherson ifanc sydd eisiau sefydlu cyfrif cynilo. Dylai'r myfyrwyr gwblhau'r pedwar cwestiwn ar ddechrau'r gweithgaredd a chofnodi eu hatebion mewn tabl. Fe allech fynd trwy'r person ifanc cyntaf gyda nhw a phwysleisio pwysigrwydd rhoi rhesymau dros eu dewisiadau. Yna, gofynnwch i'r myfyrwyr gwblhau eu hatebion ar gyfer y ddau berson ifanc arall.

Wrth iddynt gwblhau eu tabl, gofynnwch iddynt ddefnyddio eu dychymyg i greu unigolyn arall a fyddai'n addas ar gyfer cyfrif nad ydynt eisoes wedi'i ddewis fel un priodol.

Fel arall, fe allent ysgrifennu paragraff i ddisgrifio'u hunain, fel yn y gweithgaredd, ac yna penderfynu pa un o'r cyfrifon sy'n fwyaf priodol iddynt.

## Arian ac iechyd meddwl IECHYD A LLES

Defnyddiwch y gweithgaredd am Abby a Paul (tudalen 28) i gyflwyno sut gall sefyllfa ariannol rhywun effeithio ar ei iechyd meddwl. Gofynnwch i'r myfyrwyr lunio rhestr o sefyllfaoedd ariannol eraill a allai arwain at broblem iechyd meddwl (e.e. mynd i ddyled oherwydd colli'ch swydd), ac yna awgrymu sut gellir goresgyn y problemau hyn.

Gellid dilyn hyn gyda thrafodaeth dosbarth cyfan am symptomau corfforol ac emosiynol materion iechyd meddwl sy'n cael eu hachosi gan broblem ariannol. Yn olaf, gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried (neu gwnewch waith ymchwil) ble y gallai unigolion fynd i geisio cymorth ariannol os yw ffrind neu aelod o'r teulu'n cael trafferth â phryderon ariannol.

## Cam 3 – Dewiswch weithgaredd ymestyn

(10 – 15 munud)

### Ymchwilio i gyfrifon cynilo

Os yw'r rhyngrwyd ar gael i'r myfyrwyr, gallant ymchwilio i nodweddion tri chyfrif cynilo gwahanol ar gyfer pobl ifanc (e.e. un gan fanc, un gan gymdeithas adeiladu) a'u gwerthuso.

Fe allent gymharu: cyfradd llog pob cyfrif; y lleiafswm sy'n ofynnol i agor y cyfrif; unrhyw gyfyngiadau ar godi arian o'r cyfrif; a chynigion cyflwyniadol arbennig ar gyfer pob cyfrif.

### Ymchwilio i gynilo

Gallai'r myfyrwyr lunio holiadur i wneud rhywfaint o waith ymchwil ar arferion cynilo eu ffrindiau a'u cydfyfyrwyr. Gallai hyn gael ei wneud yn unigol neu mewn parau ac fe allai gynnwys cwestiynau fel:

- Oes gen ti gyfrif cynilo?
- Pa mor aml wyt ti'n cynilo?
- Pam wyt ti'n cynilo?

Dylech gynghori'r myfyrwyr i beidio â gofyn cwestiynau personol uniongyrchol fel, "faint wyt ti wedi'i gynilo?".

### Cynilo mewn ffyrdd eraill

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am ffyrdd eraill o gynilo arian y gallent eu gwneud fel dosbarth.

Gallai hyn gynnwys sicrhau bod y goleuadau'n cael eu diffodd pan fyddant yn gadael yr ystafell i arbed trydan, casglu ac ailgylchu caniau a photeli, neu arbed papur trwy wneud tasgau'n ddigidol os oes modd.

Rhowch dasg iddynt geisio gwneud cynifer o'r rhain â phosibl dros wythnos neu fis.

## Cam 4 – Dolenni i wybodaeth bellach a chyfleoedd allgyrsiol

### Cyfleoedd allgyrsiol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a amlygwyd uchod, mae llawer o gyfleoedd i bobl ifanc weithio ar y pwnc hwn y tu allan i'r cwricwlwm.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Ymweld â sefydliadau ariannol lleol a chasglu gwybodaeth am eu cyfrifon cynilo ar gyfer pobl ifanc.
- Defnyddio gwefan gymharu i gymharu gwahanol gyfrifon cynilo ar sail swm penodol o gynilion (e.e. £100) i weld faint o log y byddent yn ei ennill. Gall y myfyrwyr hefyd archwilio sut mae'r cyfrifon yn wahanol i'w gilydd, heblaw am y llog.

### Dolenni

- www.moneysavingexpert.com
- www.fca.org.uk
- www.dewis.cymru/getting-financial-help
- https://llyw.cymru/cymorth-ariannol-i-unigolion
- https://gov.wales/financial-support-for-individuals

# ATEBION:

## TRAFODAETH: RHESYMAU DROS GYNILO TUDALEN 12

- At ddiben penodol iawn neu i helpu i gyflawni nod penodol – e.e. priodas, gwyliau.
- I gasglu cyfoeth i'w ddefnyddio yn y dyfodol – e.e. ar gyfer ymddeol, i brynu eiddo.
- I roi arian o'r neilltu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl – e.e. angen trwsio'r car, angen cael dyfais gegin newydd.
- I gadw'ch arian yn ddiogel – gall arian sy'n cael ei adael o gwmpas y lle gael ei gymryd yn rhwydd, mae'n ormod o demtasiwn ac yn rhwydd ei wario os nad yw'n cael ei gadw mewn man diogel.

## GWEITHGAREDD: GOHIRIO BODDHAD TUDALEN 13

**Cwestiwn 1:**

**a)** 16 wythnos.

**b)** Cost wythnosol 52 wythnos = £260 - £80 am daliad blynyddol = arbed £180.

**c)** Ydy – bydd Rhys yn arbed £180 ac yn cael y boddhad a ddaw trwy fod wedi cynilo ar ei gyfer.

**ch)** Bydd rhaid iddo aros 16 wythnos i'w gael ac ni fydd yn gallu ffrydio unrhyw beth am 16 wythnos tra'i fod yn cynilo. Fe allai'r pris godi yn ystod yr 16 wythnos.

**Cwestiwn 2:**

**a)**

| | OPSIWN 1 – PRYNU NAWR AM £45 | OPSIWN 2 – PRYNU MEWN 3 MIS AM £55 GYDA PHETHAU YCHWANEGOL |
|---|---|---|
| Budd | • Rhatach – arbed £10<br>• Cael chwarae'r gêm nawr | • Cael yr holl lefelau a gemau bonws<br>• Pan fydd ar gael, bydd yn rhwydd ei lawrlwytho (dim angen aros i'r disg gael ei ddanfon) |
| Goblygiadau | • Ddim yn cael y nodweddion a'r lefelau ychwanegol | • Angen cynilo £10 ychwanegol<br>• Gorfod aros 3 mis i chwarae'r gêm<br>• Drutach |

**b)** Ar sail yr atebion i gwestiwn a) bydd y myfyrwyr yn gallu penderfynu beth y dylai Jacob ei wneud, yn eu barn nhw.

## GWEITHGAREDD: LLOG SYML TUDALEN 15

**Cwestiwn 1:**

**a)** £1,000 x 0.02 x 3 = £60

**b)** £1,000 x 0.02 x 7 = £140

**c)** £1,000 x 0.02 x 15 = £300

**Cwestiwn 2:**

Ni fydd llog yn cronni os bydd mwy o arian yn cael ei gynilo yn y cyfrif. Mae'n cael ei ychwanegu at y prifswm yn unig, nid y swm sydd wedi'i gynilo ar ddiwedd pob blwyddyn.

## GWEITHGAREDD: ADLOG TUDALEN 17

| DULL ADLOG | DULL LLOG SYML |
|---|---|
| **1a)** £150,000 x $1.03^{5}$ = £173,891<br>£173,891 - £150,000 = £23,891 | **3a)** £150,000 x 0.03 x 5 = £22,500 |
| **1b)** £150,000 x $1.03^{12}$ = £213,864<br>£213,864 - £150,000 = £63,864 | **3b)** £150,000 x 0.03 x 12 = £54,000 |
| **1c)** £150,000 x $1.03^{20}$ = £270,917<br>£270,917 - £150,000 = £120,917 | **3c)** £150,000 x 0.03 x 20 = £90,000 |
| **2a)** £150,000 x $1.05^{5}$ = £191,442<br>£191,442 - £150,000 = £41,442 | **3a)** £150,000 x 0.05 x 5 = £37,500 |
| **2b)** £150,000 x $1.05^{12}$ = £269,378<br>£269,378 - £150,000 = £119,378 | **3b)** £150,000 x 0.05 x 12 = £90,000 |
| **2c)** £150,000 x $1.05^{20}$ = £397,995<br>£397,995 - £150,000 = £247,995 | **3c)** £150,000 x 0.05 x 20 = £150,000 |

Fel y byddech yn disgwyl, mae'r dull adlog yn cynhyrchu mwy o log gan ei fod yn cronni'n flynyddol yn hytrach nag ar ddiwedd y cyfnod cynilo. Felly, mae'r dull adlog yn fwy buddiol i'r cynilwr.

## GWEITHGAREDD: CYFRADDAU LLOG Y DEYRNAS UNEDIG TUDALEN 17

**1.** Mae'r llog ar gynilion wedi bod yn gostwng yn raddol o 1990 i 2019. Ym 1990, y gyfradd llog gyfartalog ar gyfer cynilion yn y Deyrnas Unedig oedd tua 13.8%, ac erbyn 2019 roedd wedi gostwng i 1.39%.

**2.** £1,000 x 0.138 x 1 = £138 o log

**3.** £1,000 x 0.0139 x 1 = £13.90 o log

**4.** Mae'r gostyngiad mewn cyfraddau llog ar gynilion yn golygu bod cynilwyr bellach yn cael cryn dipyn yn llai o log ar eu cynilion. Oherwydd hyn, mae rhoi arian mewn cyfrif cynilo yn llai deniadol o ran y llog y bydd yn ei gronni.

**5.** Ers 2009, mae cyfraddau llog cynilion wedi bod oddeutu 1%-2%, ac mae'r cyfraddau ar rai cyfrifon yn aml yn is o lawer. Mae'r cyfraddau hyn yn debygol o aros yn isel nes bydd newid sylweddol yn economi'r Deyrnas Unedig.

## TRAFODAETH: CYFRADDAU LLOG TUDALEN 18

- Mae balansau banc yn amrywio'n ddyddiol oherwydd bod arian yn cael ei roi i mewn a'i dynnu allan yn rheolaidd. Felly, mae'n gwneud synnwyr talu llog ar swm yr arian sydd yn y cyfrif yn ddyddiol. Fodd bynnag, efallai byddwch yn cael eich credydu unwaith y mis yn unig oherwydd byddai cost weinyddol talu pawb yn ddyddiol yn rhy uchel.
- I gynyddu elw i'r eithaf ac aros yn gystadleuol â sefydliadau eraill.

## **GWEITHGAREDD:** PAM MAE BANCIAU'N TALU LLOG? **TUDALEN 18**

**1.** 9.5% - 1.5% = 8% x £2,000 = £160

Neu ffordd arall o'i gyfrifo yw os yw'r cynilwr yn cael £30 o log (£2,000 x 0.015 x 1) ac mae'r benthyciwr yn talu £190 (£2,000 x 0.95 x 1), byddai'r banc yn cael £190 gan y benthyciwr ac yn talu £30 i'r cynilwr, felly bydd y banc wedi gwneud £160 o elw.

**2.** Byddai'r banc ar ei golled h.y. byddai'r banc yn talu mwy i gynilwyr na'r refeniw a gesglir gan y benthycwyr.

## **GWEITHGAREDD:** DEWIS YR HYN SY'N IAWN I CHI **TUDALEN 23**



Cyfrif Plwsh Iau – Adi; oherwydd ei fod yn 15 oed ac nid yw'n bodloni gofynion y cyfrifon eraill.



Cyfrif Plwsh Un – Nandita; gan nad oes arni angen yr arian tan 6 mis fe all roi 30 diwrnod o rybudd, mae hi dros 16 oed ac yn ennill lleiafswm o £75 y mis i agor y cyfrif.



Cyfrif Plwsh Uwch – Aled; oherwydd bod gan y cyfrif y gyfradd llog uchaf, mae ganddo £100 i agor y cyfrif ac mae'n ennill o leiaf £50 y mis.

## **GWEITHGAREDD:** SUT I GAEL YR ARIAN I'W GYNILO **TUDALEN 25**

**1.** Mynd i'r brifysgol, prynu tŷ, priodas, genedigaeth plentyn, mynd ar wyliau, prynu car.

**2.** Bydd y costau'n dibynnu ar ddisgwyliadau'r myfyrwyr a'u gwybodaeth flaenorol, ond dylent fod yn realistig.

**3.** Agor cyfrif cynilo neu ISA, llunio cynllun cynilo – sut gallwch wario llai, cynyddu enillion a chael bargeinion gwerth gorau.

**4.** Biliau annisgwyl, digwyddiadau ychwanegol na ellid eu rhagweld, pris eitemau'n cynyddu, blaenoriaethau personol yn newid dros amser, ffactorau allanol yn newid (e.e. cyfraddau llog yn codi neu'n gostwng gan effeithio ar gynilion).

**5.** Lledaenu'r risg ar draws gwahanol ddulliau cynilo, dechrau cynllunio/cynilo nawr.

**6.** Gallai'r myfyrwyr weld bod eu hamcangyfrifon o gostau'n uwch/is nag a ragwelwyd, gallent deimlo nad yw cynilo'n flaenoriaeth ar hyn o bryd ac fe allent feddwl bod y swm maen nhw eisiau ei gynilo y tu hwnt i'w cyrraedd yn y tymor byr neu ganolig.

## ASTUDIAETH ACHOS: SENARIOS CYNILO TUDALEN 26

**Wasim**

- Gwerthu'r esgidiau ymarfer nad yw'n eu gwisgo mwyach (e.e. safleoedd arwerthu/gwerthu ar-lein).
- Trefnu i wneud rhywfaint o waith am dâl o gwmpas y tŷ i'w fam, ei dad neu aelodau eraill o'r teulu.
- Rhoi unrhyw roddion ariannol y gallai eu cael o'r neilltu i dalu am ei esgidiau ymarfer newydd.
- Ystyried cael swydd ran-amser ar y penwythnos i dalu am y pethau drud mae'n eu hoffi.
- Agor cyfrif cynilo i gadw ei arian yn ddiogel neu roi'r arian parod mewn jar arian fel y gall weld ei arian yn cronni.
- Os bydd Wasim yn dewis peidio â chynilo, ni fydd yn gallu prynu'r esgidiau ymarfer.

**Lowri**

- Gosod cyllideb a chynilo rhan o'i hincwm bob wythnos.
- Agor cyfrif cynilo mynediad rhwydd fel bod yr arian yn cael ei storio'n ddiogel, a'i bod yn gallu cael ato'n gyflym os bydd angen.
- Cynilo unrhyw roddion ariannol mae hi'n eu cael ar hyd y flwyddyn.
- Os bydd yn dewis peidio â chynilo, efallai na fydd ganddi ddigon o arian ar gyfer unrhyw argyfyngau a allai ddigwydd. Gallai hyn olygu y bydd rhaid iddi fenthyca arian, a hynny am bris, efallai.

**Ayomide**

- Defnyddio ei gynilion i dalu am y gwyliau oherwydd bod cost benthyca ar gerdyn credyd yn fwy na'r llog a geir ar y cynilion.
- OND, os bydd yn dewis peidio â chynilo ar gyfer y gwyliau neu ddefnyddio ei gynilion presennol, ac yn defnyddio ei gerdyn credyd i dalu am y gwyliau yn lle hynny, bydd hyn yn rhoi mwy o amddiffyniad iddo fel defnyddiwr os bydd y cwmni gwyliau'n mynd i'r wal, felly bydd yn fwy tebygol o gael ei arian yn ôl. Pan ddaw ei fil, fe allai ddefnyddio ei gynilion i dalu am y gwyliau fel na fydd yn gorfod talu unrhyw daliadau/llog. Ni ddylai ddefnyddio ei gerdyn credyd i gyfnewid arian tramor oherwydd gallai cyfraddau llog uwch o lawer fod yn gysylltiedig (yn dibynnu ar y cerdyn credyd).
- Gwneud cais am gerdyn arian cyfred wedi'i ragdalu sy'n caniatáu iddo lwytho'r cerdyn ag arian cyn iddo fynd ar ei wyliau, fel na fydd yn cario symiau mawr o arian parod o gwmpas. Yn y modd hwn, gall wario'r hyn sydd ar y cerdyn yn unig. Gall ei ddefnyddio yn union fel cerdyn debyd i dalu am nwyddau tra'i fod oddi cartref.
- Gan ei fod yn ymddangos yn synhwyrol ynglŷn â chynilo, gallai Ayomide ddechrau cynilo drachefn pan fydd yn ôl adref a chronni ei gynilion unwaith eto.



## GWEITHGAREDD: CYNLLUN CYNILO TUDALEN 27

**1.**

- Rwy'n cynilo am wersi gyrru.
- Mae arnaf angen £140.
- Bydd yn cymryd 5 mis i mi.

| DYDDIAD | RWY'N BWRIADU CYNILO (£) | SUT BYDDAF YN EI GYNILO? | ANGEN EI GYNILO O HYD (£) |
|---|---|---|---|
| Ionawr | £10 | Arian poced rwy'n ei gael oddi wrth Mam-gu | £130 |
| Chwefror | £30 | Arian pen-blwydd | £100 |
| Chwefror | £10 | Arian poced rwy'n ei gael oddi wrth Mam-gu | £90 |
| Mawrth | £20 | Tasgau o gwmpas y tŷ – golchi'r car, glanhau fy ystafell a mynd â'r ci am dro | £70 |
| Mawrth | £10 | Arian poced oddi wrth Mam-gu | £60 |
| Ebrill | £15 | Arbed tocyn bws | £45 |
| Ebrill | £10 | Arian poced oddi wrth Mam-gu | £35 |
| Mai | £10 | Gwerthu esgidiau ymarfer | £25 |
| Mai | £15 | Arbed tocyn bws | £10 |
| Mai | £10 | Arian poced oddi wrth Mam-gu | £0 |

**2.**

- Mai.

**3.**

- Nid yw ei fam-gu yn gallu rhoi ei arian poced iddo.
- Mae'n penderfynu peidio â helpu o gwmpas y tŷ.
- Nid yw'n cael yr arian pen-blwydd mae'n ei ddisgwyl.
- Mae'n parhau i fynd ar y bws.
- Nid yw'n gwerthu ei esgidiau ymarfer.
- Mae'n penderfynu gwario'r hyn mae'n ei gynilo ar bethau eraill.

**4.**

- Cael swydd ran-amser a chynilo cyfran o'i gyflog bob wythnos neu bob mis.
- Sefydlu cyfrif cynilo neu ISA arian parod y gall ychwanegu ato'n rheolaidd.
- Sicrhau ei fod yn cael y gwerth gorau am arian trwy ymchwilio i brisiau.
- Gwerthu unrhyw eitemau eraill nad yw eu heisiau mwyach.





## ASTUDIAETH ACHOS: ARIAN AC IECHYD MEDDWL TUDALEN 28

**1.**
- Gorbryder a hwyliau isel.
- Poeni a methu cysgu, sy'n arwain at flinder.
- Iselder.
- Pen tost yn aml.
- Pyliau o banig.
- Teimlo cywilydd ac embaras.
- Fe allai arwain at iechyd gwael (e.e. pwysedd gwaed uchel, deiet gwael).

**2.**
- Teimlo nad ydynt yn gallu ymdopi â'r biliau, ac felly'n methu cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Effaith ar eu perthynas e.e. dadlau.
- Effaith ar waith e.e. diffyg canolbwyntio.
- Anallu i wneud penderfyniadau da.
- Fe allent fod yn fwy tebygol o guddio'u pen yn y tywod a pheidio â delio â'r broblem.

**3.**
- Cynilo ychydig ac yn aml, ac anelu am oddetu £300 rhag ofn bydd angen cael peiriant golchi newydd.
- Ei roi yn rhywle lle na allant ei wario yn awr ac yn y man (e.e. cyfrif banc neu gyfrif cynilo).
- Gofyn am help os oes angen (e.e. Cyngor ar Bopeth Cymru neu'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau).
- Rhoi gwybod i'r banc a'r bobl y mae arnyn nhw arian yn ddyledus iddynt am y sefyllfa.
- Canslo'r gwyliau, os oes modd, a mynd pan fyddant wedi cynilo ar ei gyfer.

# ATEBION:
# DATBLYGU'CH GWYBODAETH

## ADLOG **TUDALEN 30**

| | PRIFSWM A ADNEUWYD | CYFRADD LLOG | CYFNOD ADLOGI | NIFER Y BLYNYDDOEDD | LLOG |
|---|---|---|---|---|---|
| a | £3,000 | 2.5% | Chwarterol | 6 | £483.87 |
| b | £6,500 | 3.25% | Wythnosol | 4 | £909.81 |
| c | £8,325 | 2.76% | Dyddiol | 7 | £1,784.13 |

Cyfrifwch faint o log fydd wedi'i gronni yn y cyfrifon cynilo canlynol:

**a)** Ysgrifennwch y ffigurau: £3,000 $(1 + 0.025/4)^{4\ (6)}$
Cyfrifwch y ffigurau mewn cromfachau: £3,000 $(1.00625)^{24}$
£3,000 (1.16129)
Lluoswch y ddau ffigur olaf: £3,483.87 (£3,000 prifswm a £483.87 llog)

**b)** Ysgrifennwch y ffigurau: £6,500 $(1 + 0.0325/52)^{52\ (4)}$
Cyfrifwch y ffigurau mewn cromfachau: £6,500 $(1.00063)^{208}$
£6,500 (1.13997)
Lluoswch y ddau ffigur olaf: £7,409.81 (£6,500 prifswm a £909.81 llog)

**c)** Ysgrifennwch y ffigurau: £8,325 $(1 + 0.0276/365)^{365\ (7)}$
Cyfrifwch y ffigurau mewn cromfachau: £8,325 $(1.000076)^{2,555}$
£8,325 (1.21431)
Lluoswch y ddau ffigur olaf: £10,109.13 (£8,325 prifswm a £1,784.13 llog)

(Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu)

## LWFANS CYNILION PERSONOL **TUDALEN 31**

**1.** Bydd Gareth yn cynilo £600 yn ystod blwyddyn (£50 x 12 mis). Cyfanswm ei gynilion ar ddiwedd y flwyddyn fydd £2,600 (£2,000 + £600). Y llog ar y cynilion hyn fydd £40.30 (1.55% o £2,600). Mae hyn ymhell o fewn y Lwfans Cynilion Personol o £1,000 a ganiateir i drethdalwyr cyfradd sylfaenol, felly ni fydd rhaid iddo dalu unrhyw dreth ar y llog a enillir gan ei gynilion.

**2.** Y llog ar gynilion Cerys fydd £1,320 (2.2% o £60,000). Mae hyn £320 yn fwy na'r Lwfans Cynilion Personol o £1,000 a ganiateir i drethdalwyr cyfradd sylfaenol, felly bydd rhaid iddi dalu treth ar yr olaf, sy'n dod i £64 (20% o £320).

**3.** Y llog ar gynilion Ali fydd:
- Cyfrif A: £525
- Cyfrif B: £100
- Cyfrif C: £4

Mae cyfanswm y llog ar gynilion Ali yn dod i £629. Mae hyn £129 yn uwch na'r Lwfans Cynilion Personol o £500 a ganiateir i drethdalwyr cyfradd uwch. Ei fil treth ar ei gynilion fydd £51.60 (40% o £129).

**4.** Y llog ar gyfrif cynilo ar y cyd Efa a Wil fydd £646 ac ystyrir ei fod yn cael ei rannu'n gyfartal rhyngddynt (£323 yr un). Bydd cyfrif ar wahân Efa yn ennill £325 o log, gan wneud cyfanswm o £648. Gan ei bod yn drethdalwr cyfradd uwch, mae hyn £148 yn uwch na'r terfyn £500, felly bydd angen talu £59.20 (40% o £148). Bydd cyfrif ar wahân Wil yn cynhyrchu £272, gan wneud cyfanswm o £595, ond gan ei fod yn drethdalwr cyfradd sylfaenol, mae hyn yn is na'r trothwy £1,000, felly nid oes unrhyw beth i'w dalu. Mae llog yr ISA yn amherthnasol gan ei fod ar wahân i'r Lwfans Cynilion Personol.

# GWNEUD Y MWYAF O'CH ARIAN

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn ystyried pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewisiadau y gallai pobl ifanc eu gwneud wrth wario arian a sut i reoli'r dewisiadau a wneir.


Archwilir y pynciau canlynol naill ai trwy ddarparu gwybodaeth ac astudiaethau achos, neu drwy weithgareddau ar gyfer myfyrwyr. Rhoddir cysylltiad posibl â'r cwricwlwm wrth ymyl pob pwnc:

| PWNC | CYSYLLTIAD Â'R CWRICWLWM | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | IECHYD A LLES | | | | MATHEMATEG A RHIFEDD |
| | CYNLLUNIO AR GYFER GWARIANT | DEALL DYLED | BOD YN DDEFNYDDIWR BEIRNIADOL | HAWLIAU DEFNYDDWYR A GWNEUD IAWN | |
| Angen ac eisiau | ■ | | ■ | | |
| Pethau sy'n dylanwadu ar wario | ■ | | ■ | | |
| Ffyrdd o dalu | ■ | | | | |
| Cyllidebu | ■ | ■ | | | ■ |
| Gwerth am arian | ■ | | ■ | | ■ |
| Prisiau uned | ■ | ■ | ■ | | ■ |
| Hawliau defnyddwyr | ■ | ■ | | ■ | |

## PAM MAE'R PWNC HWN YN BWYSIG I BOBL IFANC?

Dim ond **29%** o bobl ifanc 14-17 oed sy'n cael arian gan eu rhieni sy'n aml neu bob amser yn cynllunio sut maen nhw'n mynd i brynu'r pethau y mae arnyn nhw eu hangen.

*Ffynhonnell: Arolwg Gallu Ariannol Plant a Phobl Ifanc y Deyrnas Unedig 2019, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau*




Gwnaeth **83%** o bobl 25-34 oed daliadau digyffwrdd yn ystod 2018.

*Ffynhonnell: Crynodeb o Farchnad Daliadau'r Deyrnas Unedig, Mehefin 2019*



# LLUNIWR CYNLLUN GWERS

Mae rhai o'r gweithgareddau awgrymedig hyn yn cyfeirio at fenthyca gan fod cysylltiad agos rhwng y pynciau. Fe allech ddymuno cyfeirio at y bennod Benthyca o Mae'ch Arian o Bwys a'r Canllaw i Athrawon i gael cymorth ychwanegol â'r bennod hon.

## **Cam 1** – Dewiswch weithgaredd dechreuol

(10 – 15 munud)

### Angen ac eisiau IECHYD A LLES

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth fyddent yn ei brynu petai £100 y mis ar gael iddynt. Casglwch yr atebion yn nhu blaen y dosbarth. Faint o'r eitemau ar y rhestr sy'n hanfodol? Beth a olygir gan angen ac eisiau? A allan nhw roi enghraifft o'r ddau?

### Pethau sy'n dylanwadu ar wario IECHYD A LLES

Arddangoswch y rhestr o ddylanwadau (gweler tudalen 35) yn nhu blaen y dosbarth. Gofynnwch i'r myfyrwyr bwy neu beth fydd yn cael y dylanwad mwyaf arnynt pan fyddant yn penderfynu prynu cynhyrchion penodol. Darllenwch 5-10 o gynhyrchion un ar y tro (e.e. pâr newydd o esgidiau ymarfer, ffôn clyfar newydd, tocynnau i weld band byw) a chymerwch arolwg barn o'r dylanwad mwyaf ar wario ar gyfer pob cynnyrch. Trafodwch pam y gallai'r dylanwad newid yn dibynnu ar y cynnyrch. Gallai'r myfyrwyr ddymuno awgrymu dylanwadau eraill hefyd nad ydynt ar y rhestr.

### Sut i dalu IECHYD A LLES

Cysylltwch hyn â'r gwaith ar ffyrdd o dalu (gweler tudalen 38). Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am ddwy fantais a dwy anfantais pob dull talu. Gofynnwch iddynt nodi sefyllfaoedd neu senarios y byddai pob dull talu'n fwyaf addas iddynt a rhoi rhesymau dros eu hatebion. Er enghraifft, efallai mai'r dull mwyaf addas i dalu am docynnau cyngerdd fyddai defnyddio PayPal gan ei fod yn ddiogel.

### Brandio IECHYD A LLES

Dylai chwilio am ddelweddau o logos ar-lein gynhyrchu digon o luniau i greu cwis byr er mwyn i'r myfyrwyr "ddyfalu'r logo adnabyddus". Bydd gan rai safleoedd cwis setiau o gwestiynau a baratowyd eisoes. Ar ôl gorffen y cwis, trafodwch bŵer brandiau gyda'r myfyrwyr a chysylltwch hyn â'r gwaith y byddwch yn ei wneud ar werth am arian. Fel arall, gofynnwch i'r myfyrwyr enwi eu hoff frandiau a beth maen nhw'n ei hoffi amdanynt. Gall y rhain fod yn unrhyw fath o gynnyrch: bwyd, dillad, offer chwaraeon, adloniant, ac ati. Yna, trafodwch pam mae'r brandiau hyn mor bwerus.

### Pris uned IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Defnyddiwch y gweithgaredd byr ar gyw iâr ac wyau (gweler tudalen 47) i ddechrau gwaith ar werth am arian. Mae'n bwysig trafod p'un ai pris uned yw'r unig ffactor a fyddai'n eich helpu i benderfynu ar y fargen orau.

## **Cam 2** – Dewiswch weithgaredd/gweithgareddau craidd

(25 – 30 munud)

### Marchnata digidol targedig IECHYD A LLES

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am (neu ymchwilio i) dair ffordd y mae busnesau'n defnyddio marchnata digidol i ddylanwadu ar ein harferion prynu (gallai enghreifftiau gynnwys blogiau/blogiau fideo, hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol, e-bost, optimeiddio peiriannau chwilio (SEO) gwefan, ffenestri naid a defnyddio apiau). Ar ôl gwneud hyn, gallent drafod sut mae'r dulliau hyn yn dylanwadu ar eu harferion prynu a'u graddio yn nhrefn y mwyaf i'r lleiaf dylanwadol, gan esbonio pam maen nhw'n credu hyn. Yn olaf, gallai pob grŵp gymharu eu hatebion â gweddill y dosbarth – pa rai oedd y dulliau mwyaf/lleiaf dylanwadol ar gyfer y dosbarth cyfan?

### Cyllidebu IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Ar ôl trafod y broses gyllidebu a chwblhau cyllidebau Megan ac Awurabena (gweler tudalennau 40 a 42), gofynnwch i'r myfyrwyr ddadansoddi buddion a goblygiadau cyllidebu personol. Dilynwch hyn â thrafodaeth dosbarth cyfan am fanteision ac anfanteision posibl cyllidebu personol.

Mewn parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ddatblygu eu hastudiaeth achos eu hunain ar gyllidebu. Mae'n rhaid i'w hastudiaethau achos gynnwys senario diddorol, gwybodaeth am incwm a gwariant yr unigolyn (fel y gellir llunio cyllideb) ac o leiaf dri chwestiwn (gan gynnwys cwestiwn mathemategol) i'w hateb. Os oes amser, gofynnwch i'r myfyrwyr deipio eu hastudiaeth achos a chynnwys delweddau i wneud iddi edrych yn ddeniadol. Cyfnewidiwch yr astudiaethau achos ymhlith y dosbarth i gael mwy o ymarfer ar gyllidebu.

Sylwch: Dylid rhoi gwybod i'r myfyrwyr na ddylent ddatgelu gwybodaeth am eu hamgylchiadau personol wrth ddatblygu eu hastudiaeth achos.

### Pethau sy'n dylanwadu ar wario IECHYD A LLES

Defnyddiwch y drafodaeth am bethau sy'n dylanwadu ar wariant gwahanol grwpiau oedran (gweler tudalen 35) ac yna cwblhewch y gweithgaredd proffiliau cyfryngau cymdeithasol (gweler tudalen 36). Pan fydd y cwestiynau ar dudalen 37 wedi cael eu hateb, rhowch y myfyrwyr mewn parau a gofynnwch iddynt ysgrifennu'r proffil cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cymeriad ffuglennol a grëwyd o'u dychymyg. Bydd angen iddynt feddwl am weithgareddau a diddordebau'r cymeriad, a'i hoff gerddoriaeth, llyfrau, ffilmiau a rhaglenni teledu. Pan fyddant wedi cwblhau'r proffil cyfryngau cymdeithasol ar gyfer eu cymeriad ffuglennol, gofynnwch iddynt, yn eu parau, ddefnyddio'r tri chwestiwn cyntaf o'r gweithgaredd ar dudalen 36 i gymharu eu cymeriadau ei gilydd.


## Cyfrifoldeb defnyddwyr IECHYD A LLES

Gan ddilyn ymlaen o'r gwaith ar ffactorau sy'n dylanwadu ar wario (gweler tudalen 35), esboniwch i'r myfyrwyr eu bod nhw, fel defnyddwyr, yn gallu gwneud rhai pethau sylfaenol i geisio sicrhau eu bod yn cael y fargen orau. Awgrymwch gynnyrch drud maen nhw'n debygol o'i brynu nawr, neu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, e.e. ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen newydd. Gofynnwch iddynt awgrymu pum peth y dylent eu gwneud/cael gwybod amdanynt cyn prynu. Mae enghreifftiau'n cynnwys: defnyddio gwefan cymharu prisiau i gael y pris gorau, darllen adolygiadau o'r cynnyrch, darllen y print mân am gynnyrch, canfod a yw'r cynnyrch yn gydnaws â chynhyrchion eraill, canfod a oes gan y cynnyrch gostau parhaus hanfodol. Dylent raddio'r rhain yn nhrefn pwysigrwydd a llunio cyfres o ganllawiau. Os oes modd, dylai'r myfyrwyr roi'r canllawiau hyn ar waith a gwneud gwaith ymchwil i gynnyrch penodol.

Trafodwch gyda'r myfyrwyr a yw cyfrifoldeb defnyddwyr yn rhywbeth y mae pobl yn ei ystyried o ddifrif. Pam nad yw rhai pobl yn dilyn y canllawiau a gynhyrchwyd ganddynt?

## Gwerth am arian IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Gofynnwch i'r myfyrwyr gwblhau'r gweithgaredd ar frandiau (gweler tudalen 45) a chyfrifo'r gwahaniaethau y gellir eu harbed. Trafodwch gyda'r myfyrwyr beth ellid ei brynu trwy newid o'r brand moethus i'r brand rhad. Yna, gofynnwch iddynt beth sy'n effeithio ar werth am arian wrth brynu cynhyrchion eraill, fel car. Yn ogystal â'r pris, dylent hefyd ystyried ffactorau fel: ansawdd y cynnyrch, gwerth ailwerthu, costau rhedeg, profiad y cyflenwr, ac argaeledd rhannau. Trafodwch gyda nhw p'un a fydd gwerth am arian rhai nwyddau yn ymwneud â'r pris neu ffactorau eraill yn bennaf.



## **Cam 3** – Dewiswch weithgaredd ymestyn

(10 – 15 munud)

### Ble i fynd am gymorth?

Dylai'r myfyrwyr ganfod pa sefydliad(au) y byddent yn mynd ato/atynt os oeddent eisiau cwyno am gynnyrch.

### Bargeinion gwerth am arian

Gofynnwch i'r myfyrwyr greu rhai enghreifftiau o fargeinion gwerth "da" a "gwael" am arian. Yna, gallent ofyn i ffrindiau/teulu geisio adnabod y bargeinion da a'r rhai gwael. Enghraifft bosibl o fargen dda fyddai prynu un can o gola sy'n costio 60c neu becyn o wyth am £4.00, a bargen wael fyddai pizza sy'n costio £1.50 neu brynu dau am £5.00 a chael un am ddim.

### Safleoedd cymharu prisiau

Ymwelwch â nifer o safleoedd cymharu prisiau a dewch o hyd i'r bargeinion gorau ar gyfer y cynhyrchion/gwasanaethau canlynol:

- Benthyciad 5 mlynedd o £10,000
- Car newydd sbon
- Taith hedfan i Hong Kong
- Consol gemau

Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried pa mor hawdd oedd dod o hyd i'r bargeinion gorau, beth yw'r problemau â defnyddio safleoedd cymharu prisiau, a pha gyngor y byddent yn ei roi i'w ffrindiau ar ddefnyddio safleoedd cymharu prisiau.

## **Cam 4** – Dolenni i wybodaeth bellach a chyfleoedd allgyrsiol

### Cyfleoedd allgyrsiol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a amlygwyd yn y lluniwr cynllun gwers, mae nifer o gyfleoedd i bobl ifanc weithio ar y pwnc hwn y tu allan i'r cwricwlwm.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae'r myfyrwyr yn defnyddio gwefan gymharu i ddod o hyd i'r pris gorau ar gyfer y dillad neu'r esgidiau dylunydd diweddaraf yr hoffent eu prynu.
- Mae'r myfyrwyr yn creu rhestr "awgrymiadau da" ar gyfer cynllunio cyllideb.
- Gwnewch yn siŵr fod y myfyrwyr yn defnyddio eu sgiliau cyllidebu a gwerth am arian newydd yn yr ysgol e.e. yng nghyngor yr ysgol, wrth gynllunio tripiau ysgol, paratoi cyllidebau ar gyfer technoleg bwyd a thechnoleg dylunio.

### Dolenni

- www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/
- www.gov.uk/find-local-trading-standards-office
- www.moneysavingexpert.com/banking/budget-planning

## ATEBION:

### **TRAFODAETH:** ANGEN AC EISIAU **TUDALEN 34**

**Dadl angen** – hollbwysig i gadw mewn cysylltiad â phobl, methu byw hebddo, mae'n dal fy holl wybodaeth a manylion pwysig.

**Dadl eisiau** – does dim rhaid defnyddio ffôn clyfar i gyfathrebu ag eraill, eitem foethus ydyw, nid un angenrheidiol.

Bydd barn y myfyrwyr yn dibynnu ar oedran yr unigolyn, ble mae'n byw a faint o arian sydd ganddo.

### **TRAFODAETH:** PETHAU SY'N DYLANWADU AR WARIO **TUDALEN 35**

**7 oed** – teulu, cyfoedion, tymhorol
**14 oed** – teulu, cyfoedion, hysbysebu
**25 oed** – incwm gwario, hysbysebu, cyfoedion, diwylliant

## GWEITHGAREDD: PETHAU SY'N DYLANWADU AR WARIO **TUDALEN 36**

1. **Jenaya** – cyfryngau cymdeithasol, cyfoedion, teulu
   **Owen** – incwm gwario, hysbysebu, tymhorol
   **Heulwen** – incwm gwario, teulu, diwylliant

2. **Owen** – mwyaf, **Jenaya** – lleiaf. Gallai mwy o incwm gwario olygu eich bod yn fwy tebygol o wario arian ar bethau nad oes arnoch eu hangen mewn gwirionedd neu fe allech benderfynu cynilo arian. Gallai llai o incwm gwario olygu eich bod yn blaenoriaethu gwario ar y pethau y mae gwir eu hangen arnoch ac yn mynd heb y pethau nad oes arnoch eu hangen.

3. **Jenaya** – gallai effeithio ar ble a sut mae hi'n gwario ei harian, gan achosi iddi wario arian ar bethau nad oes arni eu hangen na'u heisiau mewn gwirionedd, o bosibl.
4. Ydy, mae'n helpu hysbysebwyr i gynyddu eu gwerthiannau a'u helw i'r eithaf trwy hysbysebu i'r bobl sy'n fwyaf tebygol o brynu eu cynhyrchion.

## TRAFODAETH: FFYRDD O DALU **TUDALEN 38**

**Gallai trafodaethau ganolbwyntio ar y canlynol:**

Fe ddylai gael ei godi'n uwch fyth oherwydd ei fod yn fwy cyfleus, rydych yn cael eich gweini'n gyflymach mewn siopau ac mae'n cymryd llai o amser i giwio. Ond, mae cynyddu'r terfyn yn fwy buddiol i fusnesau na defnyddwyr.

Ni ddylai gael ei godi'n uwch oherwydd gallai pobl wario mwy nag sydd angen dim ond oherwydd ei fod yn haws ac yn gyflymach. Mae'n rhoi mwy o gymhelliad i droseddwyr, felly gallai defnydd twyllodrus gynyddu.



## TRAFODAETH: DATBLYGIADAU O RAN ARIAN TUDALEN 39

**Gallai trafodaethau ynglŷn â'r datblygiadau nesaf o ran arian ganolbwyntio ar y canlynol:**

- Datblygu waledi symudol
- Codau yn lle cardiau
- Dyfeisiau talu y gellir eu gwisgo
- Dyfeisiau'r cartref ar gyfer taliadau (e.e. Amazon Echo, Google Home)
- Deallusrwydd artiffisial (AI) i ganfod patrymau ymddygiad twyllodrus a gweithgareddau amheus
- Datblygu diogelwch biometrig

Gallai trafodaeth ynglŷn â ph'un a yw cymdeithas ddi-arian yn bosibl ai peidio gynnwys y canlynol:

| YDY | NAC YDY |
|---|---|
| Mae llai o bobl yn cario arian parod bellach ac maen nhw'n gwneud mwy o daliadau â cherdyn. | Cynnydd mewn twyll. |
| Arbed arian i'r economi gan na fydd angen cynhyrchu arian papur a cheiniogau. | Gallai'r gofynion gweinyddol sy'n gysylltiedig â thalu symiau bach â cherdyn gynyddu'r costau. |
| Nid yw siopau eisiau arian parod (ofn lladrad). | Fe allai eithrio rhai pobl yn y gymdeithas e.e. y genhedlaeth hŷn sy'n amharod i groesawu technoleg, ac unigolion agored i niwed nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg, o bosibl. |
| Llai o angen am beiriannau arian (ATMs)/banciau'r stryd fawr – arbed arian i'r banciau. | Po fwyaf rydym yn dibynnu ar dechnoleg, y mwyaf o drafferth a gawn os bydd yn methu. |
| Mae llawer o'r rhesymau dros gymdeithas ddi-arian yn fwy buddiol i fusnesau nag unigolion. | Elfen breifatrwydd – dim eisiau i fanciau wybod beth yn union rydym yn gwario arian arno. |

## TRAFODAETH: Y BROSES GYLLIDEBU TUDALEN 41

Gallai Megan dalu unrhyw ddyledion sy'n weddill, rhoi'r hyn sydd ar ôl mewn cyfrif cynilo/ISA, buddsoddi'r arian mewn cyfranddaliadau, rhoi rhywfaint i elusen.

Os oedd Megan yn gwario mwy na'i hincwm, dylai ystyried ffyrdd o wario llai ac ymchwilio i opsiynau benthyca rhatach. Os yw mewn trafferthion ariannol, dylai hefyd siarad â'r bobl y mae ganddi arian yn ddyledus iddynt oherwydd fe allent helpu gyda chynllun ad-dalu.

## **TRAFODAETH:** GWARIO YMRWYMEDIG O GYMHARU Â GWARIO DEWISOL **TUDALEN 41**

Gallai trafodaethau ganolbwyntio ar b'un a yw'r myfyrwyr yn credu bod eu ffôn clyfar yn rhywbeth maen nhw ei angen (gwario ymrwymedig) neu ei eisiau (gwario dewisol).

**Ymrwymedig** – hollbwysig i gadw mewn cysylltiad â phobl, methu byw hebddo, mae'n dal gwybodaeth a manylion pwysig.

**Dewisol** – does dim rhaid defnyddio ffôn clyfar i gyfathrebu ag eraill felly nid yw'n anghenraid, eitem foethus ydyw, nid un angenrheidiol.

## **ASTUDIAETH ACHOS:** CYLLIDEB FISOL **TUDALEN 42**

| INCWM | GWARIANT |
|---|---|
| £1,540 cyflog | £550 rhent<br>£65 nwy a thrydan<br>£27.50 dŵr<br>£220 siopa (gan dybio 4 wythnos fesul mis)<br>£19 tanysgrifiadau<br>£23.87 yswiriant<br>£240 hamdden/mynd allan (gan dybio 4 wythnos fesul mis)<br>£34 ffôn<br>£312 teithio (gan dybio 4 wythnos fesul mis)<br>£90 dillad<br>£50 coffi (gan dybio 4 wythnos fesul mis) |
| CYFANSWM £1,540 | CYFANSWM £1,631.37 |

Ar hyn o bryd, mae Awurabena yn gwario tua £92 yn fwy y mis nag y mae'n ei ennill. Mae hyn hefyd yn tybio nad oes unrhyw filiau eraill yn dod ac nad yw'n gorwario ar eitemau eraill (e.e. gwario mwy na £90 y mis ar ddillad).

Felly, ar sail ei sefyllfa ariannol bresennol, nid yw'n gallu cynilo ar gyfer ei char. Os yw o ddifrif ynglŷn â chynilo am flwyddyn, fe allai:

- Ganslo ei thanysgrifiadau (£19)
- Haneru ei chyllideb hamdden/mynd allan (£120)
- Rhoi'r gorau i brynu dillad a choffi (£140)

Byddai hyn yn arbed £279 y mis iddi ac yn caniatáu iddi brynu'r car mewn 12 mis, a bod â digon i dalu am yr yswiriant hefyd, o bosibl.

## **TRAFODAETH:** Y BROSES GYLLIDEBU **TUDALEN 42**

Gallai rhesymau dros orfod gwario mwy o arian gynnwys:

- Biliau ychwanegol – e.e. tripiau ysgol, anrhegion pen-blwydd.
- Digwyddiadau annisgwyl – e.e. car/dyfais yn methu.
- Tywydd – gallai gaeaf oer olygu ein bod yn gwario mwy ar nwy/trydan na'r disgwyl.

Mae'r newidiadau y gellid eu gwneud yn cynnwys:

- Gwario llai mewn meysydd eraill.
- Ceisio cyllidebu (rhagfynegi) pryd mae gwario'n debygol o gynyddu.
- Rhoi symiau bach, rheolaidd mewn cyfrif cynilo fel bod arian ar gael os bydd ei angen.

## **TRAFODAETH:** CADW GOLWG AR EICH CYLLIDEB **TUDALEN 43**

Gallai trafodaethau ganolbwyntio ar y canlynol:

- Archwilio'r gwahanol gategorïau y mae myfyrwyr yn eu nodi ar gyfer eu potiau gwario, yn ogystal â'r rhai a amlygwyd. Mae hyn yn dangos sut mae gwahanol fyfyrwyr yn blaenoriaethu eu gwariant, a bydd yn wahanol i aelodau gwahanol o'r grŵp.
- Y ffordd mae gwahanol fyfyrwyr yn rhannu'r £130 ar draws y potiau. Bydd hyn yn wahanol o un myfyriwr i'r llall. Gallwch archwilio rhai o'r dewisiadau hynny ac, efallai, gofyn i rai myfyrwyr esbonio'r rhesymeg dros eu dyrannu.

## **GWEITHGAREDD:** CADW GOLWG AR EICH CYLLIDEB **TUDALEN 44**

| DYDDIAD | MATH | DISGRIFIAD | INCWM | GWARIANT | BALANS |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 Gorffennaf | | Balans agoriadol | | | £26.50 |
| 2 Gorffennaf | CR | Arian pen-blwydd | £80 | | £106.50 |
| 5 Gorffennaf | DC | Dillad | | £35.67 | £70.83 |
| 6 Gorffennaf | DC | Tocyn trên | | £25.65 | £45.18 |
| 14 Gorffennaf | CR | Arian am arddio | £20 | | £65.18 |
| 20 Gorffennaf | DC | Bwyd a diod | | £12.32 | £52.86 |
| 21 Gorffennaf | DC | Bwyd a diod | | £13.45 | £39.41 |
| 22 Gorffennaf | DC | Bwyd a diod | | £15.56 | £23.85 |

## GWEITHGAREDD: GWERTH AM ARIAN TUDALEN 45

**1.**

| | NIFER A BRYNIR YR WYTHNOS | CYFANSWM COST BRAND MOETHUS | CYFANSWM COST BRAND YR ARCHFARCHNAD | CYFANSWM COST CYNHYRCHION RHAD |
|---|---|---|---|---|
| Can o ffa pob | 4 | £4.16 | £2.60 | £0.92 |
| Grawnfwyd | 1 | £3.65 | £2.21 | £1.68 |
| Creision | 6 | £7.20 | £5.94 | £2.70 |
| Batris | 2 | £7.90 | £5.78 | £1.98 |
| CYFANSWM | | £22.91 | £16.53 | £7.28 |

**2a)** £22.91 - £16.53 = £6.38

**2b)** £22.91 - £7.28 = £15.63

**3.**

| | COST BRAND MOETHUS Y FLWYDDYN | COST BRAND YR ARCHFARCHNAD Y FLWYDDYN | COST CYNHYRCHION RHAD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|
| Can o ffa pob | £216.32 | £135.20 | £47.84 |
| Grawnfwyd | £189.80 | £114.92 | £87.36 |
| Creision | £374.40 | £308.88 | £140.40 |
| Batris | £410.80 | £300.56 | £102.96 |
| CYFANSWM | £1,191.32 | £859.56 | £378.56 |

**4a)** £1,191.32 - £859.56 = £331.76

**4b)** £1,191.32 - £378.56 = £812.76

## GWEITHGAREDD: BETH YW'R FARGEN ORAU TUDALEN 47

| CYW IÂR | COST FESUL 100G |
|---|---|
| 200g am £4.50 | £2.25 |
| 500g am £6.00 | £1.20 |
| 1kg am £10.00 | **£1.00 – y fargen orau** |

| WYAU | COST FESUL ŴY |
|---|---|
| 12 am £3.80 | 0.32c |
| 9 am £2.70 | **0.30c – y fargen orau** |
| 6 am £2.20 | 0.37c |

## TRAFODAETH: BETH YW'R FARGEN ORAU TUDALEN 47

**Gallai trafodaethau ganolbwyntio ar y canlynol:**

- I gael cynnyrch neu wasanaeth o ansawdd gwell.
- Eisiau cael cynnyrch/gwasanaeth yn syth.
- Cael bargen well am archebu'n gynnar e.e. rhagarchebu gemau/cerddoriaeth.
- Cael mwy/pethau ychwanegol.

# ATEBION:
# DATBLYGU'CH GWYBODAETH

## GORWARIO CYLLIDEB **TUDALEN 50**

| INCWM | GWARIANT | |
|---|---|---|
| Cyflog fel hyfforddwr ffitrwydd **£1,200** | Rhent | **£520** |
| Ffïoedd fel hyfforddwr personol **£590** | Treth gyngor | **£117** |
| | Nwy/trydan | **£97** |
| | Dŵr | **£32** |
| | Ffôn/rhyngrwyd | **£26** |
| | Trwydded deledu | **£13** |
| | Yswiriant | **£33** |
| | Balans cerdyn credyd | **£217** |
| | Bwyd a deunyddiau glanhau | **£95** |
| | Teithio | **£62** |
| | Dillad | **£150** |
| | Golchi dillad a sychlanhau | **£66** |
| | Gweithgareddau chwaraeon (gan gynnwys tocyn tymor pêl-droed) | **£104** |
| | Pethau ymolchi a harddu personol | **£68** |
| | Ffôn symudol (gan gynnwys apiau) | **£71** |
| | Nosweithiau allan | **£275** |
| | Trîts eraill (e.e. coffi, gemau cyfrifiadur) | **£170** |
| | Anrhegion i bobl eraill | **£25** |
| | Manion bethau | **£35** |
| **Cyfanswm incwm: £1,790** | **Cyfanswm gwariant: £2,176** | |

## GWERTH AM ARIAN **TUDALEN 51**

1. ch (25p fesul peint)
2. ch (£2.10 fesul cilo)
3. c (£2.45 fesul cilo)
4. d (11c fesul ŵy)

Gan fod tair o'r pedair eitem yn ddarfodus iawn, maen nhw ond yn fargeinion da os ydynt yn mynd i gael eu defnyddio cyn iddynt droi.

## HAWLIAU DEFNYDDWYR **TUDALEN 52**

| | G | A | |
|---|---|---|---|
| Rydych wedi prynu tegell mewn sêl siop ac nid yw'n gwresogi'r dŵr. Mae'r siop yn dweud wrthych y dylech gysylltu â'r manwerthwr i gwyno. | | ✓ | Mae'r eitem yn amlwg yn ddiffygiol ac nid yw'n addas i'r diben. Gan fod eich contract gyda'r manwerthwr, y manwerthwr sy'n gyfrifol am ddelio ag unrhyw faterion. Mae'r ffaith ei fod mewn sêl yn amherthnasol; mae'n rhaid i nwyddau sêl fod yn addas i'r diben o hyd. |
| Wrth brynu crys T mewn siop, rydych wedi dewis y maint anghywir ar gam. Mae eich cymydog, sy'n gweithio yn y sector manwerthu, yn dweud wrthych nad oes rhaid i'r siop ei gyfnewid. | ✓ | | Y cwsmer sy'n gyfrifol am sicrhau mai'r nwyddau a brynodd oedd yr hyn yr oedd ei eisiau mewn gwirionedd. Gan nad oes unrhyw beth o'i le â gwneuthuriad y crys T, mae gan y siop yr hawl i wrthod ei gyfnewid. Fodd bynnag, mae gan lawer o fanwerthwyr bolisi ad-dalu neu gyfnewid o fewn mis o brynu, ar yr amod bod y nwyddau'n cael eu dychwelyd yn yr un cyflwr â'u gwerthwyd. |
| Rydych wedi defnyddio'ch cerdyn debyd i brynu pâr o esgidiau ymarfer, ond ar ôl dod adref rydych yn gweld bod gwadn un ohonyn nhw'n dod yn rhydd. Fodd bynnag, rydych wedi colli'r dderbynneb, felly mae hynny'n golygu na allwch eu dychwelyd nhw. | | ✓ | Nid yw'r nwyddau'n addas i'r diben ac nid yw'r ffaith nad oes derbynneb yn broblem yn yr achos hwn. Bydd gennych "brawf prynu" o hyd (sef y gofyniad cyfreithiol) oherwydd eich bod wedi defnyddio cerdyn debyd wrth wneud y trafodyn, felly bydd gan y banc gofnod o'r pryniant. |
| Rydych wedi archebu cadwyn ar-lein i'w gwisgo yn eich parti pen-blwydd 18 oed. Y dyddiad danfon y cytunwyd arno yw'r diwrnod mawr, ond mae'n cyrraedd y diwrnod wedyn. Mae gennych hawl i gael ad-daliad llawn. | ✓ | | Os oes dyddiad danfon cytunedig wedi'i nodi, sy'n cael ei fethu, mae gennych yr hawl i gael ad-daliad llawn. Os nad oes dyddiad wedi'i nodi, dylai'r eitem gael ei danfon o fewn 30 diwrnod. Os oes trefniant "clicio a chasglu", y cwsmer sy'n gyfrifol am gasglu'r eitem mewn da bryd. |
| Mae llyfr rydych wedi bod eisiau ei gael wedi ymddangos mewn arwerthiant ar-lein wedi'i hysbysebu gan werthwr preifat. Rydych yn prynu'r llyfr ond pan fydd yn cyrraedd rydych yn gweld eich bod eisoes wedi'i ddarllen. Ond rydych yn siŵr bod gennych yr un hawl i ddychwelyd â phetaech chi wedi'i brynu mewn siop lyfrau, felly gellir ei anfon yn ôl at y gwerthwr. | | ✓ | Mae prynu mewn arwerthiant yn cael ei ystyried yn werthu ail-law, felly ar yr amod nad yw'r gwerthwr wedi eich camarwain, dyna lle mae'ch hawliau'n gorffen. Os prynoch chi'r llyfr anghywir, chi sydd ar fai ac mae'n achos o caveat emptor (prynu'n ochelgar). |
| Mae'r cwmni gwyliau rydych yn delio ag ef yn mynd i'r wal ac rydych yn colli'r holl arian a daloch iddo y gweithioch yn galed i'w ennill. Mae ffrind yn dweud wrthych y dylech fod wedi defnyddio cerdyn credyd ar gyfer y pryniant hwn. | ✓ | | Mae gennych amddiffyniad ychwanegol o dan Adran 75 y Ddeddf Credyd Defnyddwyr. Mae hyn yn diogelu defnyddiwr sy'n talu rhwng £100 a £30,000 am bryniadau ar gerdyn credyd. Mae'n gwneud cwmni'r cerdyn yn atebol ar y cyd â'r manwerthwr, felly os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, fe ddylech gael eich arian yn ôl. |

# BENTHYCA

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn ystyried pam a sut gallai pobl ifanc ddymuno benthyca arian a beth i'w wneud os bydd yn anodd ad-dalu'r ddyled.

Archwilir y pynciau canlynol naill ai trwy ddarparu gwybodaeth ac astudiaethau achos, neu drwy weithgareddau ar gyfer myfyrwyr. Rhoddir cysylltiad posibl â'r cwricwlwm wrth ymyl pob pwnc:

| PWNC | CYSYLLTIAD Â'R CWRICWLWM | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | IECHYD A LLES | | | | |
| | CYNLLUNIO AR GYFER GWARIANT | DEALL DYLED | BOD YN DDEFNYDDIWR BEIRNIADOL | HAWLIAU DEFNYDDWYR A GWNEUD IAWN | MATHEMATEG A RHIFEDD |
| Rhesymau dros fenthyg | ■ | | | | |
| Dyled dda a dyled ddrwg | ■ | | ■ | | |
| Llog syml | ■ | | | | ■ |
| Adlog | ■ | | | | ■ |
| APR | ■ | | ■ | | ■ |
| Hanes credyd | ■ | ■ | ■ | | ■ |
| Dulliau o fenthyca | ■ | ■ | ■ | | ■ |
| Benthycwyr arian didrwydded | ■ | ■ | | ■ | |
| Dyled y gellir ei rheoli ac na ellir ei rheoli | ■ | ■ | | ■ | |

## PAM MAE'R PWNC HWN YN BWYSIG I BOBL IFANC?

Mae **UN O BOB PUMP** o bobl ifanc yn defnyddio cerdyn credyd bob dydd.

*Ffynhonnell: comparethemarket.com, 2019*

Y gyfradd llog gyfartalog ar fenthyca cerdyn credyd sy'n dwyn llog oedd **20.77%** ym mis Chwefror 2020.

*Ffynhonnell: Yr Elusen Arian, Mawrth 2020*

Mae Cyngor ar Bopeth yn delio â bron **1,800** o broblemau dyled y dydd yng Nghymru a Lloegr.

*Ffynhonnell: Yr Elusen Arian, Ionawr 2021*

Roedd **28%** o bobl ifanc (25-34 oed) yn pryderu am wneud ad-daliadau dyledion yn y dyfodol.

*Ffynhonnell: Ymchwil PricewaterhouseCoopers, 2017*

# LLUNIWR CYNLLUN GWERS

## Cam 1 – Dewiswch weithgaredd dechreuol

(10 – 15 munud)

### Pwy i fenthyca oddi wrtho? IECHYD A LLES

Wrth i chi ddechrau addysgu o'r bennod ar fenthyca, gofynnwch i'r myfyrwyr am enwau unrhyw gwmnïau maen nhw wedi clywed amdanynt ar y teledu sy'n hysbysebu eu bod yn gallu eich helpu i fenthyca arian. Ysgrifennwch ymatebion y myfyrwyr ar fwrdd gwyn/sgrin. Ar ôl derbyn ymatebion am ychydig funudau, ceisiwch gategoreiddio'r atebion yn fanciau, cwmnïau benthyciad diwrnod cyflog, darparwyr cerdyn credyd, ac ati. Esboniwch, wrth i chi archwilio'r bennod ar fenthyca, bydd y myfyrwyr yn dechrau deall manteision ac anfanteision y gwahanol fathau hyn o fenthycwyr, a byddant mewn sefyllfa well i farnu ynghylch yr amrywiol gwmnïau.

### Beth yw dyled? IECHYD A LLES

Cyn edrych ar lefel dyled yng Nghymru (gweler tudalen 54), gofynnwch i'r myfyrwyr gwblhau'r frawddeg, "Dyled yw pan …" Yna, rhowch senario syml iddynt, fel: Mae Zoe yn 15 oed. Mae hi a'i ffrindiau eisiau gweld eu hoff fand, ond nid oes ganddi ddigon o arian ar gyfer y tocyn. Mae Josh yn cynnig benthyca'r arian iddi ac mae Zoe yn dweud y gall dalu'r arian yn ôl i Josh ar ôl ei phen-blwydd ymhen pythefnos.

Gofynnwch i'r myfyrwyr – os oes gennych arian yn ddyledus i'ch ffrindiau, a yw hynny'n cyfrif fel dyled o hyd? Gallech ymestyn hyn hefyd i fod ag arian yn ddyledus i'ch teulu – ai dyled yw hyn? Pan fyddwch wedi cytuno ar beth yw dyled gyda'r myfyrwyr, fe allech fynd ymlaen i ystyried y ffeithiau am ddyled yng Nghymru (gweler tudalen 54) a thrafod p'un a yw'r ffigur hwn yn amcangyfrif dyled yn rhy uchel neu'n rhy isel.

### Dyled dda, dyled ddrwg IECHYD A LLES

Defnyddiwch y gweithgaredd ar ddyled dda a dyled ddrwg (gweler tudalen 55) – ysgrifennwch y chwe enghraifft ar fwrdd/sgrin yn nhu blaen y dosbarth a gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried pob enghraifft a phenderfynu a yw'r benthyca'n dda neu'n ddrwg. Pan fyddwch wedi cytuno ar yr atebion, gofynnwch i'r myfyrwyr awgrymu enghraifft arall o ddyled dda a dyled ddrwg.

### Hysbyseb cerdyn credyd IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Dewch o hyd i hysbyseb nodweddiadol gan gwmni cerdyn credyd – o'r rhyngrwyd, papur newydd neu un a anfonwyd atoch drwy'r post. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddod o hyd i'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r cerdyn hwnnw (efallai bydd rhai, fel ffïoedd talu'n hwyr, yn y print mân). Eitemeiddiwch y costau hyn yn nhu blaen y dosbarth a thrafodwch gyda'r myfyrwyr a ydynt yn credu bod pawb sy'n cael cerdyn credyd yn edrych ar y costau, fel maen nhw newydd ei wneud.

### Cyfraddau llog ac APR IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Cyn mynd i'r afael â rhai o'r gweithgareddau ar log syml ac adlog (gweler tudalen 58), casglwch rai enghreifftiau cyfredol o APR o fenthyciadau banc, cardiau credyd, cardiau siop a chwmnïau benthyciad diwrnod cyflog. Dangoswch y rhain i'r dosbarth a gofynnwch iddynt ba un sy'n cynnig yr APR orau. Pan fydd y myfyrwyr yn deall mai APR isel sydd orau, trafodwch gyda nhw pam nad yw pawb yn benthyca oddi wrth y cwmni sy'n cynnig yr APR isaf.

## **Cam 2** – Dewiswch weithgaredd/gweithgareddau craidd

(25 – 30 munud)

### Gwneud dewisiadau gwybodus IECHYD A LLES

Gallai'r astudiaeth achos ar Gareth (gweler tudalen 60) gael ei ateb mewn tabl, sy'n amlinellu manteision ac anfanteision ei opsiynau. Yn rhan o'r drafodaeth ddilynol, gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried a oes unrhyw opsiynau eraill (er enghraifft, peidio â phrynu'r car) a pha gostau eraill y bydd angen i Gareth eu hystyried cyn gwneud ei benderfyniad (er enghraifft, faint fydd ei yswiriant?).

### Dulliau o fenthyca IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Gan ddefnyddio'r rhestr o fathau o fenthyca (gweler tudalen 62), gofynnwch i'r myfyrwyr raddio'r rhain yn ôl faint o log y byddech yn ei dalu petaech chi'n defnyddio'r math hwnnw o fenthyca. Bydd angen i chi wneud rhywfaint o waith paratoi i ddod o hyd i rai cyfraddau llog cyffredin ar gyfer pob dull benthyca.

Cyn ceisio gwneud y gweithgaredd ymchwil (gweler tudalen 64), gellid rhoi rhai senarios syml i'r myfyrwyr lle mae'n rhaid iddynt benderfynu ar y math mwyaf priodol o fenthyca. Er enghraifft, mae angen i deulu gael gwelyau newydd ar gyfer eu dau blentyn sydd wedi mynd yn rhy fawr ar gyfer eu hen rai. A ddylen nhw a) brynu o gatalog archebu drwy'r post, b) gofyn i'w banc a allant ordynnu hyd nes y gallant ad-dalu cost y gwelyau, neu c) gael cerdyn siop ar gyfer siop adrannol fawr sy'n gwerthu gwelyau?

### Cardiau credyd IECHYD A LLES

Defnyddiwch y gwerslyfr i esbonio natur cardiau credyd i'r myfyrwyr (gweler tudalen 66). Yna, gallai parau neu grwpiau o fyfyrwyr ymgymryd â rôl adran farchnata banc, y gofynnwyd iddi greu taflen ynglŷn â cherdyn credyd newydd ar gyfer cwsmeriaid posibl. Mae gan y cwsmeriaid hyn hanes credyd gwael, canolig neu dda. Dywedwch wrth bob pâr/grŵp bwy yw ei gwsmer targed.

Gofynnwch i'r myfyrwyr roi enw a dyluniad deniadol i'r cerdyn, a rhoi o leiaf bum nodwedd iddo a fydd yn apelio at eu cwsmeriaid targed, yn eu barn nhw. Gallai'r nodweddion hyn gynnwys: cynigion/anrhegion cyflwyniadol, cyfradd llog isel, ffïoedd cosb isel am dalu'n hwyr, cynllun ffyddlondeb, ac ati.

Pan fyddant wedi gorffen, gall y parau gyflwyno eu cardiau i weddill y dosbarth ac yna gofynnwch i'r dosbarth bleidleisio ar ba un sydd orau, yn eu barn nhw. Gorffennwch drwy geisio ateb y cwestiwn trafod am anfanteision cael cerdyn credyd (gweler tudalen 67).

## Benthycwyr arian didrwydded IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Trwy chwilio ar YouTube, fe welwch nifer fawr o fideos sy'n adnoddau gwych i addysgu myfyrwyr am beryglon benthyca oddi wrth fenthycwyr arian didrwydded. Un enghraifft yw "Loan Sharks", sef ffilm a gynhyrchwyd gan yr Uned Ffilm BRANCAB ar gyfer y Tîm Benthyca Anghyfreithlon a Chyngor Dinas Birmingham. Byddai angen i chi ei gwylio yn gyntaf ac yna dangos clipiau perthnasol i'r myfyrwyr.

Pan fydd y myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o natur benthycwyr arian didrwydded, gallent ddefnyddio'r gwerslyfr (tudalen 70) i gymharu cwmnïau benthyciad diwrnod cyflog a benthycwyr arian didrwydded. Gofynnwch i'r myfyrwyr eu cymharu o ran: cyfreithlondeb, rheoleiddio, cyfraddau llog, cosbau am beidio â thalu, y gwaith papur sy'n angenrheidiol i gael y benthyciad, ac ati.

## **Cam 3** – Dewiswch weithgaredd ymestyn

(10 – 15 munud)

### Undebau credyd

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddod o hyd i'r undeb credyd agosaf iddynt a chael gwybod a oes ganddo unrhyw wybodaeth am fenthyca arian. Er enghraifft, faint y gallwch ei fenthyca oddi wrtho, pa mor hir a roddir i chi ad-dalu'r benthyciad, a oes unrhyw ffïoedd i'w talu wrth gael benthyciad, a beth yw'r gyfradd llog a godir ar y benthyciad? Os bydd y myfyrwyr yn mynd i **https://creditunionsofwales.co.uk/find-my-nearest-credit-union**, gallant ddod o hyd i'r undeb credyd agosaf iddynt drwy ddewis eu sir.

### Credyd

Gellid gofyn i'r myfyrwyr ddod o hyd i enghreifftiau o fargeinion credyd a gynigir gan amrywiaeth o fenthycwyr – undebau credyd, banciau, bargeinion credyd siop, cwmnïau benthyciad diwrnod cyflog – a chyfrifo gwir gost benthyca swm penodol, dyweder £500 dros flwyddyn.

Yna, gallant gyflwyno'r canfyddiadau hyn fel blog neu erthygl we lle maen nhw'n crynhoi manteision ac anfanteision pob bargen gredyd. Gallai hyn gael ei gyflwyno fel tabl i alluogi darllenwyr i gymharu pob bargen yn glir.



### Effaith newidiadau i gyfraddau llog

Trafodwch gyda'ch dosbarth effeithiau cynnydd/gostyngiad mewn cyfraddau llog ar a) unigolyn b) yr economi gyfan.

Gallwch ofyn i'r myfyrwyr ystyried yr effeithiau ar fenthyca, ad-daliadau, cynilion, prisiau, twf economaidd a swyddi.

## **Cam 4** – Dolenni i wybodaeth bellach a chyfleoedd allgyrsiol

### Cyfleoedd allgyrsiol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a amlygwyd yn y lluniwr cynllun gwers, mae llawer o gyfleoedd i bobl ifanc weithio ar y pwnc hwn y tu allan i'r cwricwlwm.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae'r myfyrwyr yn ymchwilio i ba sefydliadau sy'n cynnig cymorth i bobl sydd â phroblemau dyled.
- Ymchwilio i APRs ar gyfer benthyca gwahanol symiau, gan gymharu gwahanol gynhyrchion (e.e. morgeisi, benthyciadau, cardiau credyd).

### Dolenni

- www.meiccymru.org
- srs.wales
- www.tradingstandardswales.org.uk
- www.dewis.cymru
- www.abcul.org
- www.citizensadvice.org.uk
- www.nationaldebtline.org
- www.stepchange.org
- www.stoploansharks.co.uk

## ATEBION:

### **GWEITHGAREDD:** DYLED DDA, DYLED DDRWG **TUDALEN 55**

- Mynd ar wyliau egsotig – Drwg
- Prynu car i deithio i'r gwaith bob dydd – Da
- Prynu tŷ i fyw ynddo – Da
- Cael wardrob llawn dillad newydd – Drwg
- Ariannu addysg uwch – Da
- Cael tocynnau ar gyfer gŵyl – Drwg

### **GWEITHGAREDD:** AD-DALU'R DDYLED **TUDALEN 57**

**1.** £3,000 x 0.08 x 1 = £240 o log. Cyfanswm i'w ad-dalu = £3,240

**2.** £3,000 x 0.255 x 1 = £765 o log. Cyfanswm i'w ad-dalu = £3,765

**3.** £3,000 x 0.368 x 1 = £1,104 o log. Cyfanswm i'w ad-dalu = £4,104

**4.** £3,000 x 14.99 x 1 = £44,970. Cyfanswm i'w ad-dalu = £47,970

## GWEITHGAREDD: FFORMIWLA ADLOG TUDALEN 58

**1.** £3,000 x $1.2^{2}$ = £4,320

**2.** £3,000 x $1.2^{4}$ = £6,220.80

**3.** £3,000 x $1.2^{7}$ = £10,749.54

**4.** £3,000 x $1.2^{15}$ = £46,221.06

**5.** £3,000 x $1.2^{1/4}$ = £3,139.91

**6.** £3,000 x $1.2^{1/2}$ =£3,286.34

## GWEITHGAREDD: GALL CYFRADDAU LLOG NEWID TUDALEN 58

**1.**

- Mantais cyfradd sefydlog – rydych yn gwybod faint yn union y byddwch yn ei dalu bob mis, sy'n eich helpu i gyllidebu.
- Anfantais cyfradd sefydlog – ni fyddwch yn elwa os bydd y gyfradd llog yn gostwng.
- Mantais cyfradd amrywiol – mae'n fwy hyblyg, felly os bydd cyfraddau llog yn gostwng, felly hefyd yr ad-daliad.
- Anfantais cyfradd amrywiol – os bydd cyfraddau llog yn cynyddu, felly hefyd eich ad-daliadau.

**2.**

- Cynnydd mewn cyfraddau llog – talu mwy o log ar y benthyciad, fe allai gymryd mwy o amser i'w ad-dalu, llai o incwm gwario, llai o gymhelliad i gynilo, cynnydd mewn ad-daliadau morgais.
- Gostyngiad mewn cyfraddau llog – talu llai o log ar y benthyciad, mwy o incwm gwario, ad-daliadau morgais rhatach, adenillion is i gynilwyr.

**3.**

- Ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth oherwydd bod y gyfradd yn "sefydlog" ar gyfradd llog benodol, felly ni fydd unrhyw amrywiadau i'r gyfradd llog yn cael effaith ar fenthyca.

## ASTUDIAETH ACHOS: CYFRADD SEFYDLOG NEU GYFRADD AMRYWIOL TUDALEN 58

**1.** Opsiwn 1, y morgais cyfradd sefydlog, oherwydd byddwch yn cael dwy flynedd ar gyfradd gyflwyniadol is.

**2.**

| OPSIWN 1 – SEFYDLOG AM 2 FLYNEDD | OPSIWN 2 – CYFRADD AMRYWIOL |
|---|---|
| £550.38 x 24 mis = £13,209.12<br>+<br>£709.77 x 276 mis =<br>£195,896.52 | £696.28 x 300 mis = |
| CYFANSWM = £209,105.64 | CYFANSWM = £208,884 |

**3.** Dewiswch opsiwn 2 oherwydd ei fod £221.64 yn rhatach dros gyfnod y morgais.

**4.** Gallai'r gyfradd llog gynyddu, gan wneud yr ad-daliadau'n ddrutach.

**5.** Ydy, mae opsiwn 1 yn edrych yn rhatach oherwydd y gyfradd sefydlog is, ond mae'n ddrutach ar y cyfan, mewn gwirionedd.

## TRAFODAETH: APR TUDALEN 59

- Gallai trafodaethau ganolbwyntio ar y canlynol:
- Defnyddio APR gynrychioliadol fel offeryn marchnata i annog pobl i wneud cais am fenthyciad.
- Hyd yn oed os na fyddant yn cael yr APR gynrychioliadol, efallai bydd pobl yn dewis y cynnyrch benthyca sut bynnag.
- A yw hyn yn foesegol os nad yw llawer o bobl yn cael yr APR a hysbysebir?

## ASTUDIAETH ACHOS: GWNEUD DEWISIADAU GWYBODUS TUDALEN 60

| | MANTEISION | ANFANTEISION |
|---|---|---|
| Defnyddio ei gynilion presennol | • Fe all brynu'r car yn syth. | • Dim cynilion ar ôl ar gyfer blaendal ar fflat.<br>• Beth am yswiriant car a chostau eraill sy'n gysylltiedig â gyrru? |
| Cynilo | • Boddhad ei fod wedi cynilo.<br>• Ni fydd rhaid iddo fenthyca a mynd i ddyled. | • Bydd yn cymryd amser i gynilo, felly efallai bydd rhaid iddo ohirio prynu'r car a'r fflat. |
| Benthyca'r arian | • Fe all gael y car a'r fflat nawr. | • Bydd rhaid iddo ad-dalu gyda llog, a fydd yn costio mwy o arian iddo yn y pen draw. |

A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei wybod cyn gwneud y penderfyniad terfynol?

- Beth yw incwm a gwariant Gareth bob mis?
- A allai gwtogi ei wariant? Neu gynyddu ei incwm, o bosibl?
- A oes unrhyw ffyrdd eraill, rhatach, i Gareth fynd i'r gwaith?
- A allai gynilo mwy bob mis?
- A oes gan Gareth unrhyw ddyledion eraill?

## TRAFODAETH: SUT MAE BANCIAU'N GWNEUD PENDERFYNIADAU TUDALEN 60

Gallai trafodaethau gynnwys:

- Manylion incwm a chyflogaeth.
- Benthyciadau/dyledion eraill.
- Unrhyw ddiffygdalu – ad-daliadau a fethwyd yn flaenorol.
- Treuliau misol rheolaidd
- Fforddiadwyedd – a yw'n gallu fforddio ad-daliadau'r benthyciad?

## GWEITHGAREDD: UNDEBAU CREDYD O GYMHARU Â BENTHYCWYR DIWRNOD CYFLOG TUDALEN 64

| | MANTEISION | ANFANTEISION |
|---|---|---|
| Undebau credyd | • Sefydliadau nid er elw.<br>• Maen nhw'n darparu man diogel i storio arian.<br>• Yr aelodau sy'n berchen arnynt, felly gellir cadw'r costau'n isel, gan ganiatáu ar gyfer taliadau llog uwch ar gynilion a chyfraddau is ar fenthyciadau.<br>• Yn aml, maen nhw'n cynnig buddion ychwanegol i'r gymuned neu achos da. | • Nid oes swyddfa undeb credyd ffisegol mewn rhai rhannau o Gymru.<br>• Efallai na fyddant yn cynnig rhai o nodweddion banc masnachol (e.e. bancio ar-lein). |
| Benthycwyr diwrnod cyflog | • Gallent fod yn addas mewn argyfwng i ddatrys problem llif arian ar unwaith.<br>• Mynediad rhwydd. | • Mae'r cyfraddau llog yn uchel iawn.<br>• Gall y swm terfynol sy'n ddyledus fod yn uwch o lawer na'r swm cychwynnol a fenthycwyd.<br>• Gall y swm cronnol sy'n ddyledus fynd allan o reolaeth yn gyflym. |

## ASTUDIAETH ACHOS: BENTHYCIADAU PERSONOL TUDALEN 65

**1.** Er bod ganddyn nhw i gyd yr un APR, y benthyciad 1 flynedd yw'r rhataf, ond mae'n golygu bod y taliadau misol yn ddrutach. Er bod y benthyciad 3 blynedd yn edrych yn fwy deniadol gan fod yr ad-daliadau misol yn ymddangos yn eithaf rhad, byddai Nia'n talu llawer mwy o log dros gyfnod y benthyciad.

**2.**

- Oes angen i ti gael benthyciad, mewn gwirionedd?
- Wyt ti'n siŵr mai hwn yw'r beic rwyt ti ei eisiau?
- Oes angen i ti fenthyca £1,000?
- A alli di fforddio'r ad-daliadau?
- A all unrhyw un arall dy helpu i'w brynu?
- Beth os na alli di ei ad-dalu?
- Beth fyddai dy gynlluniau petaet ti'n colli dy swydd neu'n methu fforddio'r ad-daliadau?

**3.** Fe allai Nia gael cerdyn credyd, a allai fod yn rhatach na benthyciad oherwydd eu bod nhw weithiau'n cynnig cyfraddau llog 0% am gyfnod cyflwyniadol. Byddai'n rhaid iddi wneud ad-daliadau misol o hyd a byddai angen iddi wneud yn siŵr nad yw'n defnyddio'r cerdyn i brynu nwyddau/gwasanaethau eraill oherwydd bydd hyn yn cynyddu ei had-daliadau.

Fe allai hefyd fenthyca oddi wrth aelod o'i theulu.

**4.** Nac oes – gallai Nia gynilo ei chyflog a gohirio prynu'r beic yn syth. Efallai y gallai hefyd gynilo arian a gaiff fel rhodd (e.e. arian pen-blwydd). Fe allai hefyd weithio mwy o oriau i gynyddu ei hincwm.

Petai'n cyllidebu i gynilo £100 y mis, fe allai godi £1,000 mewn 10 mis, sy'n fyrrach nag ad-dalu'r benthyciad 1 flynedd gyda llog.

## TRAFODAETH: CARDIAU CREDYD TUDALEN 67

Gallai trafodaethau gynnwys:

- Mae llog yn cael ei godi ar falansau nad ydynt yn cael eu talu o fewn mis.
- Mae'n rhy gyfleus ac yn gallu annog cwsmeriaid i orwario a mynd i ddyled.
- Codir llog uwch ar godi arian parod.
- Gallai methu taliadau arwain at hanes credyd gwael, gan olygu efallai na fyddwch yn gallu benthyca yn y dyfodol.
- Os byddwch yn ad-dalu'r lleiafswm yn unig, bydd yn cymryd amser hir i dalu'r ddyled a bydd yn cronni llog sylweddol dros amser.

## **ASTUDIAETH ACHOS:** CARDIAU CREDYD **TUDALEN 67**

**1.** Mae pobl sydd â hanes credyd da yn fwy tebygol o gael cyfraddau llog mwy ffafriol. Y rheswm am hyn yw oherwydd eu bod nhw wedi profi'n flaenorol eu bod yn gallu ad-dalu'n brydlon.

Mae pobl nad ydynt erioed wedi gwneud cais am gredyd neu nad ydynt wedi gallu ad-dalu'r ddyled yn llai tebygol o gael cyfraddau ffafriol. Y rheswm am hyn yw oherwydd nad yw'r banc yn gwybod a fydd yr unigolyn yn gallu talu'r ad-daliadau (gan nad yw erioed wedi cael credyd o'r blaen) neu oherwydd y bu'n risg yn flaenorol.

- Ydy, mae'n deg – mae'r banc yn diogelu ei elw.
- Dylai pobl sy'n dda am ad-dalu gael cyfradd fwy ffafriol.
- Mae amgylchiadau pawb yn wahanol, felly dylai cyfraddau llog pawb adlewyrchu eu gallu i ad-dalu.
- Na, nid yw'n deg – dylai pawb gael yr un gyfradd.

**2.**

- Talu eu holl filiau'n brydlon, a pheidio â methu taliadau.
- Talu'r ddyled – peidio â'i symud i wahanol gardiau credyd yn barhaus.
- Talu unrhyw ddyled sy'n weddill cyn gwneud cais am gredyd newydd.
- Gwirio eu hadroddiad credyd i wneud yn siŵr bod eu manylion yn gywir; gall cyfeiriad anghywir hyd yn oed effeithio ar eu sgôr.
- Cael cymorth os ydynt yn cael trafferth talu'r ad-daliadau – peidio ag osgoi'r peth.

**3.**

- Ystyriwch y mathau rhataf o fenthyca cyn gwneud cais a, gwell fyth, cynilwch fel na fydd rhaid i chi gael credyd!
- Talwch eich biliau'n brydlon bob amser, oherwydd gallai hyn leihau eich APR.
- Peidiwch byth â defnyddio'r holl gredyd sydd ar gael.
- Ceisiwch dalu'ch cerdyn credyd yn llawn bob amser ar ddiwedd y mis. Os nad yw hyn yn bosibl, talwch gymaint ag y gallwch.
- Talwch eich bil cerdyn credyd yn brydlon bob amser trwy sefydlu debyd uniongyrchol, oherwydd bydd hyn yn golygu na fyddwch byth yn methu ad-daliad.
- Chwiliwch am y fargen orau cyn gwneud cais. Mae llawer o gwmnïau'n cynnig cyfraddau llog cyflwyniadol o 0% am hyd at 36 mis, ond cofiwch symud eich cerdyn credyd ar ddiwedd y cyfnod hwn oherwydd byddwch yn symud i gyfradd safonol wedi hynny.



## ASTUDIAETH ACHOS: BENTHYCWYR DIWRNOD CYFLOG TUDALEN 69

**1.** Na, nid oes gan Angharad ddigon o incwm i allu talu ei holl filiau a'r benthyciadau sy'n weddill mewn chwe mis.

**2.**

- Bydd y profiad yn effeithio ar ei gallu i gael credyd yn y dyfodol os na fydd yn gallu talu.
- Fe allai ei gwneud yn amharod i ddelio â sefydliadau ariannol yn y dyfodol.

Fe allai Angharad deimlo:

- Yn bryderus ac yn anhapus ynglŷn â sut mae hi wedi mynd i gymaint o ddyled.
- Cywilydd ac embaras ynglŷn â'i sefyllfa ariannol.
- Yn bryderus ynglŷn â sut bydd yn gwneud yr ad-daliadau.

**3.**


- Na, ni ddylai ganiatáu i Angharad gael mwy o gredyd nes ei bod hi'n gallu talu'r ddyled wreiddiol.
- Dylai'r benthyciwr diwrnod cyflog wneud mwy o archwiliadau i sicrhau bod yr unigolyn sy'n benthyca'r arian yn gallu ad-dalu'r benthyciad.
- Ni ddylai fod yn anfon negeseuon e-bost ati yn ei hannog i wario mwy gan ei fod yn gwybod ei bod hi'n cael trafferth gwneud yr ad-daliadau.

**4.**

- Cael arweiniad diduedd ar arian gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau neu Gyngor ar Bopeth Cymru.
- Siarad â'i banc i weld a all gynnig unrhyw gymorth.
- Ystyried symud yn ôl i mewn i dŷ ei rhieni nes ei bod hi'n gallu fforddio byw'n annibynnol.
- Peidio â chymryd unrhyw fenthyciadau eraill gyda'r cwmni.

**5.**

- Cyfuno'r ddyled trwy gael benthyciad y gellir ei dalu yn y tymor hwy ac a fydd â chyfradd llog is na'r benthyciad diwrnod cyflog, yn ôl pob tebyg.
- Gweld a all aelod o'i theulu ei helpu a benthyca'r arian iddi.



# ATEBION:
# DATBLYGU'CH GWYBODAETH


## BENTHYCA MORGAIS **TUDALEN 73**

**1.** Mae swm y llog a godir bob blwyddyn yn lleihau dros amser ac, mewn cyferbyniad, mae swm y prifswm sy'n cael ei ad-dalu bob blwyddyn yn cynyddu dros amser. Wrth i'r balans sy'n weddill o'r prifswm leihau, mae hyn yn ei dro yn lleihau'r llog a godir.


**2.** Y taliad llog misol cyfartalog ar y morgais yw £112.73 (mae 300 mis mewn 25 mlynedd).
**Cyfanswm y llog yw £33,818.89. £33,818.89/300 = £112.73**

**3. Enghraifft:**

**Dadansoddiad o'r Taliadau**




**Graff Amorteiddiad Morgais**




Mae'r cyfrifiadau hyn wedi'u seilio ar fenthyciad sydd â chyfradd llog flynyddol o 1.66%, sy'n adlogi'n fisol. Mae'r tabl yn tybio bod 300 o daliadau misol o'r un faint yn cael eu gwneud ar hyd tymor 25 mlynedd y benthyciad.

## CREDYD COST UCHEL **TUDALEN 73**

Gallai rhestr o 10 pwynt bwled sy'n manylu ar y prif bwyntiau a amlinellir yn yr araith gynnwys:

- Mathau o gredyd cost uchel.
- Meysydd ffocws e.e. cardiau credyd a benthycwyr diwrnod cyflog.
- Faint o oedolion sydd wedi defnyddio credyd cost uchel.
- Pwy sy'n fwyaf tebygol o'i ddefnyddio?
- Pam mae'n cael ei ddefnyddio?
- Faint o ddyled sy'n weddill.
- Beth yw'r dewisiadau eraill?

## GWNEUD DEWISIADAU BENTHYCA **TUDALEN 73**

Sylwch: Bydd yr union symiau a gewch yn dibynnu ar y ffordd rydych yn cyfrifo ac yn talgrynnu.

**Tesni**

| | AD-DALIAD MISOL | CYFANSWM LLOG | CYFANSWM COST Y BENTHYCIAD |
|---|---|---|---|
| a) | £41.26 | £45.07 | £495.07 |
| b) | £39.98 | £29.78 | £479.78 |
| c) | £42.55 | £60.62 | £510.62 |

Os bydd Tesni'n dewis opsiynau a) neu c), fe all brynu'r consol fwy neu lai yn syth, gan fod y ddau'n fathau o gredyd wedi'i awdurdodi o flaen llaw. Bydd yr hyn a allai edrych fel gwahaniaeth bach rhwng yr ad-daliadau misol ar gyfer yr opsiynau hyn yn dod yn fwy amlwg yn y colofnau cyfanswm. Gallai'r pwyntiau gwobrwyo ar gyfer opsiwn c) fod yn sylweddol, ond fe allent hefyd ei themtio i wario mwy.

Opsiwn b) yw'r rhataf, ond bydd angen iddi wneud cais ac aros am gadarnhad o'r benthyciad, a allai olygu colli'r fargen sêl. Os oes gan Tesni rywfaint o arian wedi'i roi o'r neilltu, a oes angen iddi fenthyca'r swm llawn? A allai aelod o'i theulu fenthyca'r arian iddi ar gyfradd ratach? A allai oedi ei boddhad… erbyn pryd y gallai model mwy newydd a drud fod wedi dal ei llygad?

**Alun**

| | AD-DALIAD MISOL | CYFANSWM LLOG | CYFANSWM COST Y BENTHYCIAD |
|---|---|---|---|
| a) | £31.93 | £266.36 | £766.36 |
| b) | £330.45 | £1,482.68 | £1,982.68 |
| c) | £500 | £8,500.03 | £9,000.03 |

Mae Alun mewn sefyllfa wael i fenthyca arian ond mae gwir angen y peiriant golchi/sychu arno; bydd yn costio mwy fyth iddo ddefnyddio golchdy. Mae benthyca oddi wrth fenthyciwr arian didrwydded nad yw'n cael ei reoleiddio (opsiwn c) yn risg enfawr, a bydd yn talu'n ôl 18 gwaith yn fwy na phris y peiriant yn y pen draw – hyd yn oed os bydd y tri mis cyntaf yn rhoi amser i anadlu. Ni fyddai'n gallu gwneud y taliadau misol ar gyfer opsiwn b) ychwaith, felly byddai'n debygol o gael taliadau llog ychwanegol yn ogystal â ffïoedd gweinyddol pan na fydd yn gallu gwneud taliad.

Gall Alun fforddio'r ad-daliadau misol ar gyfer opsiwn a), o drwch blewyn, er y bydd yn talu cryn dipyn yn fwy na phris gwirioneddol y peiriant yn y pen draw o hyd. Gallai'r opsiwn di-log gan y catalog ar y rhyngrwyd helpu, ond mae'n rhaid iddo fod yn siŵr y gall dalu'r swm llawn erbyn y dyddiad dyledus, neu cyn hynny, i osgoi cosbau a thaliadau ychwanegol.

Dylai Alun wirio ei fod yn hawlio'r holl fudd-daliadau sydd ar gael iddo. Efallai bydd Alun yn gymwys ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol (**llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf**).

Efallai bydd Cyngor ar Bopeth Cymru yn gallu rhoi mwy o gyngor iddo. Yn olaf, dylai wirio ei sgôr credyd cyn gwneud cais am unrhyw fathau eraill o fenthyciadau/credyd.



Faisal

| | AD-DALIAD MISOL | CYFANSWM LLOG | CYFANSWM COST Y BENTHYCIAD |
|---|---|---|---|
| a) | £123.92 | £960.95 | £4,460.95 |
| b) | £112.52 | £550.89 | £4,050.89 |
| c) | £122.88 | £923.57 | £4,423.57 |

Efallai mai benthyciad y cwmni yw'r un mwyaf cyfleus i'w drefnu, ond mae'n dal i fod ychydig yn fwy na'r swm y gall Faisal ei fforddio bob mis. Mae'n rhaid iddo hefyd gofio na fydd yn berchen ar y teledu'n gyfreithiol hyd nes bod y cytundeb wedi'i dalu'n llawn.

Y benthyciad banc yw'r opsiwn rhataf, ond bydd angen ei drefnu ar wahân cyn y gall brynu'r teledu, ac mae'r ad-daliad misol yn dal i fod ychydig yn fwy na'r swm a gyllidebwyd. Gyda cherdyn credyd, ar yr amod eich bod yn talu'r lleiafswm sy'n ofynnol, gallwch ddewis eich ad-daliadau misol. Felly, gallai Faisal ddewis talu £110 y mis, ond byddai'n cymryd mwy na'r tair blynedd i'w dalu'n llawn. Neu fe allai dalu £122.88 y mis oddi ar y cerdyn credyd a'i ad-dalu mewn tair blynedd.

At ei gilydd, opsiwn b) sy'n gweddu orau. Fel arall, efallai bydd angen iddo ystyried aros i'w incwm gynyddu. Mae angen i Faisal hefyd ystyried cost trwydded deledu, tanysgrifiadau i wasanaethau ffrydio, a'r posibilrwydd y bydd eisiau offer atodol newydd (e.e. seinyddion sain amgylchynol).



# SYMUD YMLAEN O'R YSGOL – BYD GWAITH

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn ystyried y penderfyniadau a'r materion ariannol sy'n wynebu pobl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o addysg amser llawn.

Archwilir y pynciau canlynol naill ai trwy ddarparu gwybodaeth ac astudiaethau achos, neu drwy weithgareddau ar gyfer myfyrwyr. Rhoddir cysylltiad posibl â'r cwricwlwm wrth ymyl pob pwnc:

| PWNC | CYSYLLTIAD Â'R CWRICWLWM | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | IECHYD A LLES | | | | MATHEMATEG A RHIFEDD |
| | PATRYMAU CYFLOGAETH SY'N NEWID | RHEOLI RISG | CYNLLUNIO AR GYFER GWARIANT | HAWLIAU DEFNYDDWYR A GWNEUD IAWN | |
| Camau nesaf posibl ar ôl yr ysgol | ■ | | ■ | | |
| Ffïoedd dysgu myfyrwyr a benthyciadau myfyrwyr | | | | ■ | |
| Bwrsariaethau myfyrwyr | | | | ■ | |
| Cyllidebu fel myfyriwr | | | ■ | | ■ |
| Terminoleg slipiau cyflog | | | | | ■ |
| Sut i gyfrifo taliadau Treth Incwm | | | | | ■ |
| Sut i gyfrifo taliadau Yswiriant Gwladol | | | | | ■ |
| Hunangyflogaeth | ■ | ■ | | | ■ |
| Hanes Treth Incwm | | | | | |
| Mathau o bensiynau | | ■ | | ■ | ■ |
| Y boblogaeth sy'n heneiddio yn y Deyrnas Unedig | | | | | ■ |
| Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Isafswm Byw Cenedlaethol | | | | ■ | |
| Y system les | | | | | |
| Dulliau talu | | | | | ■ |

## PAM MAE'R PWNC HWN YN BWYSIG I BOBL IFANC?

Amcangyfrifwyd mai canran yr holl bobl ifanc **16 i 24 oed yn y Deyrnas Unedig nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)** ym mis Ionawr i fis Mawrth 2020 oedd **11.2%** (tua 771,000 o bobl ifanc).

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mai 2020*

Mae **44%** o bobl **18-34 oed** yn dweud nad oes ganddynt unrhyw ddarpariaeth bensiwn o gwbl.

*Ffynhonnell: Bridging the Young Adults Pension Gap, YouGov 2017*

Ni allai **51%** o bobl ifanc **14-17 oed** adnabod cyfraniadau pensiwn yn gywir ar slip cyflog, ac ni allai **62%** adnabod faint oedd wedi cael ei dalu.

*Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau – Young Adults and Money Management: behaviours, attitudes and useful rules of thumb, Ionawr 2018*

Mae **MWY NA HANNER** o bobl ifanc yn mynd i'r brifysgol bellach.

*Ffynhonnell: www.independent.co.uk Dydd Sul 27 Medi 2019*

# LLUNIWR CYNLLUN GWERS

## Cam 1 – Dewiswch weithgaredd dechreuol

(10 – 15 munud)

### Terminoleg cyflogau a slipiau cyflog IECHYD A LLES

Cyn dechrau unrhyw waith ar slipiau cyflog, ac yn enwedig y slip cyflog ar gyfer Sam Green (gweler tudalen 82), defnyddiwch weithgaredd dechreuol i weld faint mae'r myfyrwyr eisoes yn ei wybod am y derminoleg sy'n gysylltiedig â slipiau cyflog. Mae enghreifftiau o'r derminoleg yn cynnwys: cyflog gros, cyflog net, Treth Incwm, Yswiriant Gwladol, BACS, didyniadau, cyflog clir, cod treth, pensiwn, cyflogwr a chyflogai. Un gweithgaredd dechreuol posibl yw rhoi rhai o'r uchod, neu bob un ohonynt, mewn chwilair gan ddefnyddio un o'r cynhyrchwyr chwileiriau niferus sydd ar gael ar-lein.

Fel arall, fe allech ddewis rhai o'r rhain, neu bob un ohonynt, a gwneud anagramau ohonynt er mwyn i'r myfyrwyr ddod o hyd i'r gair neu'r term cywir. Yn y ddwy enghraifft, fe allech osod targed, sef chwech, dyweder, a gorffen pan fydd un myfyriwr yn cyrraedd y targed. Yna, gweithiwch ar y slip cyflog ac ewch drwy'r atebion i'r rhai na lwyddon nhw i'w cael ar ddiwedd y wers pan fyddwch wedi esbonio beth yw ystyr pob term.

### Ffynonellau talu IECHYD A LLES

Gan ddefnyddio'r dulliau talu a'u diffiniadau (gweler tudalen 88), meddyliwch am rai swyddi a allai gael eu talu trwy'r gwahanol ddulliau. Rhowch y rhestr hon o swyddi yn nhu blaen y dosbarth a gofynnwch i'r myfyrwyr gyfateb y dulliau talu i'r swydd. Gallai enghreifftiau gynnwys: cynorthwy-ydd siop mewn siop adrannol (comisiwn); athro/athrawes (cyflog); glanhäwr gwesty (tâl); a chyfrifydd sy'n gwirio'r cyfrifon ar gyfer busnes bach (ffïoedd).

Fe allech roi enghreifftiau ar gyfer pob un o'r dulliau talu neu ddewis pump neu chwech yn unig, oherwydd gallai rhai swyddi gael eu talu trwy fwy nag un dull (e.e. cynrychiolydd gwerthu sy'n cael cyflog sylfaenol a bonws am gyrraedd ei darged).

### Cyflogau sêr — IECHYD A LLES — MATHEMATEG A RHIFEDD

Bydd gan y myfyrwyr ddiddordeb mewn gwybod faint mae sêr yn ei ennill. Gellir chwilio'r rhyngrwyd neu gyhoeddiadau fel The Sunday Times Rich List i nodi 10 o bobl enwog a faint maen nhw'n ei ennill. Cymysgwch yr enwau a'r cyflogau a gofynnwch i'r myfyrwyr a allant gyfateb y sêr i faint maen nhw'n ei ennill.

Gallai hyn fod yn weithgaredd dechreuol ar gyfer gwaith ar slipiau cyflog neu gellid ei gyfuno â'r gweithgaredd ymestyn ar gyflogau cyfartalog yng ngham 3.

### Fideos — IECHYD A LLES

Cyn unrhyw waith ar y boblogaeth sy'n heneiddio a phensiynau (gweler tudalen 92), byddai'n ddefnyddiol gweld beth yw agweddau'r myfyrwyr tuag at bensiynau. Dechreuwch yn syml drwy ofyn iddynt godi llaw i weld pa fyfyrwyr sydd: a) wedi clywed am bensiynau; b) yn deall beth ydynt ac c) yn credu eu bod yn berthnasol iddynt.

Fe all fod yn anodd iawn ceisio argyhoeddi pobl ifanc bod pensiynau'n berthnasol a bod angen iddynt ddechrau cynilo mewn cynllun pensiwn – mae'n rhwydd iawn ei ohirio ac nid oes gan bobl ddealltwriaeth gadarn o bensiynau bob amser. Mae rhai darparwyr pensiynau wedi cynhyrchu fideos byr a bachog i ddal sylw pobl ifanc. Fe allech ddefnyddio'r ddolen isod i ddangos sut mae un darparwr pensiynau'n ceisio cyfleu'r neges.

**www.youtube.com/watch?v=Msput0vb9Bc**
Ar ôl i chi wylio'r hysbyseb, trafodwch yn fyr p'un a fyddai'n newid agweddau'r myfyrwyr tuag at bensiynau.

### Pris hanfodion — IECHYD A LLES — MATHEMATEG A RHIFEDD

Bydd yr astudiaeth achos ar Syrah (gweler tudalen 80) yn cychwyn cryn drafodaeth ynglŷn â faint mae hi'n ei wario bob wythnos ar fwyd, diod a threuliau eraill. Cyn dechrau'r astudiaeth achos, gwiriwch i weld beth mae'r myfyrwyr yn ei ddeall am dreuliau dydd i ddydd. Un ffordd o wneud hyn yw trefnu prawf byr i weld a yw'r myfyrwyr yn gwybod beth yw pris 6-10 o eitemau hanfodol fel papur tŷ bach, llaeth, bara a choffi ac ati. Ymchwiliwch i'r prisiau eich hun yn gyntaf gan ddefnyddio gwefan archfarchnad neu wefan cymharu prisiau.

## Cam 2 – Dewiswch weithgaredd/gweithgareddau craidd

(25 – 30 munud)

### Slipiau cyflog — MATHEMATEG A RHIFEDD

Y peth gorau fyddai dangos y slip cyflog ar gyfer Sam Green (gweler tudalen 82) ar fwrdd gwyn a'i adael i fyny wrth i chi esbonio ei elfennau amrywiol i'r dosbarth. Bydd gan y myfyrwyr ddiddordeb mawr ynddo, felly gallwch ddisgwyl llawer o drafod.

Cwblhewch yr enghreifftiau wedi'u gweithio o Dreth Incwm (gweler tudalen 83) gyda'r dosbarth cyn gofyn i'r myfyrwyr gwblhau'r gweithgaredd ar gyfrifo treth (gweler tudalen 84).

## Astudiaethau achos dulliau talu MATHEMATEG A RHIFEDD

Gallai'r astudiaethau achos ar Manon a Geraint (gweler tudalen 88) a Tom a Lisa (gweler tudalen 89) gael eu gwneud yn unigol neu mewn parau. Ar gyfer yr astudiaeth achos ar Tom a Lisa, fe allech roi cardiau mawr i'r dosbarth gyda T ar un ochr ac L ar y llall. Pan fyddant wedi ysgrifennu/trafod eu hateb gyda'u partner, gofynnwch iddynt ddangos naill ai T(om) neu (L)isa, yn dibynnu ar bwy maen nhw'n credu sy'n cael y fargen orau o ran cyflog. Yna, casglwch y rhesymau a roddwyd ar fwrdd gwyn/cyfrifiadur. I roi elfen fathemategol ychwanegol i hyn, fe allech ofyn i'r myfyrwyr gyfrifo ar ba lefel gwerthiannau y bydd incwm Tom yn gostwng islaw incwm Lisa y flwyddyn nesaf (ateb £739,999).

Unwaith eto, gallai'r cwestiwn am yr astudiaeth achos ar Manon a Geraint gael ei wneud yn unigol neu mewn parau, gyda'r myfyrwyr yn penderfynu pa un o'r ddau sydd â'r swydd orau a graddio'r pum gwahaniaeth yn nhrefn pwysigrwydd (ar gyfer y swydd maen nhw wedi'i dewis fel yr un orau).

## Cyllid myfyrwyr IECHYD A LLES

Mae hwn yn gyfle da i archwilio effaith ariannol mynd i'r brifysgol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw cydbwysedd oherwydd gall rhai o'r costau frawychu'r myfyrwyr. Un ffordd o gynnal y cydbwysedd yw gofyn i'r myfyrwyr gwblhau tabl sy'n dangos costau a buddion mynd i'r brifysgol. Dechreuwch y tabl hwn cyn esbonio ffïoedd, benthyciadau a bwrsariaethau (gweler tudalennau 79 i 81) ac ychwanegwch ato wrth i awgrymiadau newydd gael eu cynnig.

Crëwch ddwy golofn – un ar gyfer costau ac un ar gyfer buddion – ac yna dwy res, un ar gyfer pethau ariannol a'r llall ar gyfer pethau nad ydynt yn ariannol. Gallai enghreifftiau gynnwys: **costau ariannol** – benthyciadau i'w had-dalu, defnyddio cynilion; **buddion ariannol** – gwell siawns am swydd ar ôl cymhwyso, ni fydd angen ad-dalu benthyciadau hyd nes y bydd enillion yn cyrraedd lefel benodol; **costau nad ydynt yn ariannol** – colli cysylltiad â ffrindiau o gartref, gadael cartref y teulu; **buddion nad ydynt yn ariannol** – gwell gweithgareddau cymdeithasol, byw'n annibynnol. Awgrymiadau yn unig yw'r rhain.

Pan fydd yr holl dermau ariannol wedi cael eu hesbonio a'r tabl wedi'i gwblhau, achubwch ar y cyfle i esbonio i'r myfyrwyr y bydd angen iddynt bwyso a mesur y costau a'r buddion – ariannol a heb fod yn ariannol – pan fyddant yn penderfynu p'un ai mynd i'r brifysgol ai peidio.

## Byw oddi cartref IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Mae'r astudiaeth achos sy'n rhoi manylion am arferion gwario Syrah fel myfyrwraig blwyddyn gyntaf yn gyflwyniad da i'r syniad o baratoi cyllidebau (gweler tudalen 80). Darllenwch yr astudiaeth achos ac atebwch y cwestiynau dilynol, sy'n gofyn am lunio cyllideb ar gyfer Syrah a rhoi cyngor ar feysydd gwario y dylai eu lleihau a ph'un a ddylai chwilio am incwm ychwanegol.

Mae hyn hefyd yn gyfle da i ystyried beth mae angen i Syrah wario arian arno a beth mae hi eisiau gwario arian arno. Gallai'r myfyrwyr hefyd lunio tabl sy'n cymharu byw oddi cartref â byw gartref. Mewn gwersi mathemateg, fe allech achub ar y cyfle i wneud gwaith ar rifau, graffiau a chymarebau wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn.

## Y boblogaeth sy'n heneiddio a phensiynau MATHEMATEG A RHIFEDD

Gallai'r gweithgaredd a'r cwestiynau am y boblogaeth sy'n heneiddio (gweler tudalen 92) gael eu cyfuno â rhywfaint o waith am esbonio'r gwahanol fathau o bensiynau. Fe allech chi ddarllen yr adran wybodaeth am bensiynau (gweler tudalen 91) i'r dosbarth, neu fe allai'r myfyrwyr ei darllen mewn parau/grwpiau, ac fe allech ddilyn hynny gyda chwestiynau fel y rhai a roddir yn y gwerslyfr (gweler tudalen 92). Mae cyfle i ddangos y tueddiadau ar ffurf graff ac fe allech drafod beth allai'r disgwyliad oes fod pan fydd y myfyrwyr yn cyrraedd oed ymddeol.

Mae'r astudiaeth achos ar bensiynwr cyffredin (gweler tudalen 93) yn rhoi cyfle i ystyried p'un a yw pensiwn y wladwriaeth ar ei ben ei hun yn ddigon i fyw arno ac i ddadansoddi gwariant pensiynwr nodweddiadol. Gellid gofyn i'r myfyrwyr ystyried sut gallai hyn fod yn wahanol i fyfyriwr yn y brifysgol a sut gallai newid dros amser.

## Cam 3 – Dewiswch weithgaredd ymestyn

(10 – 15 munud)

### Cyflogau cyfartalog

Gallai'r myfyrwyr wneud rhywfaint o waith ymchwil ar y rhyngrwyd i weld a allant ddod o hyd i'r cyflog cyfartalog ar gyfer o leiaf pump o'r swyddi canlynol: sarsiant yn y fyddin, meddyg, trydanwr, cyfreithiwr, Aelod Seneddol, cwnstabl yr heddlu, plymwr, derbynnydd, milfeddyg, a ficer. Gallant ychwanegu swyddi eraill, yn enwedig rhai sydd o ddiddordeb iddynt.

Gallai'r myfyrwyr ysgrifennu teitl y swydd ar un darn o bapur neu gerdyn ac ysgrifennu'r cyflog cyfartalog ar un arall. Yna, gallent gymysgu'r papurau/cardiau i weld a all eu cydfyfyrwyr/teulu/ffrindiau gyfateb y cyflog i'r swydd.


### Llwyddo ar ôl gadael yr ysgol

Mae'n anodd mynd yn syth o'r ysgol i gyflogaeth amser llawn, ond dyma'r llwybr i'w ddilyn i lawer nad ydynt eisiau ymrwymo i brentisiaeth benodol neu gwrs gradd yn y brifysgol. Gadawodd y canlynol i gyd yr ysgol i fynd yn syth i gyflogaeth: Simon Cowell, Richard Branson, Joss Stone, Jodie Kidd, Alan Sugar, Chris Evans a'r cyn Brif Weinidog, John Major.

Gallai'r myfyrwyr wneud gwaith ymchwil ar y rhyngrwyd i weld a allant ddod o hyd i unigolion llwyddiannus eraill a adawodd yr ysgol yn gynnar heb lawer o gymwysterau. Yna, ceisiwch adnabod pa briodoleddau/sgiliau sydd/a oedd ganddynt a'u helpodd i lwyddo yn eu swyddi heb fod wedi llwyddo yn yr ysgol.

### Mathau o brentisiaethau

Cyfeiriwch y myfyrwyr at **llyw.cymru/chwilio-am-brentisiaeth** a cheisiwch ddod o hyd i restr o'r gwahanol fathau o brentisiaethau yn y rhestr A i Y o brentisiaethau. Gallent nodi tair prentisiaeth a allai weddu i'w sgiliau a'u diddordebau, yn eu barn nhw, ac adrodd yn ôl i'w ffrindiau/cydfyfyrwyr.
Gweler hefyd **www.ucas.com/alternatives/apprenticeships/apprenticeships-wales/whatapprenticeships-are-available-wales**



## **Cam 4** – Dolenni i wybodaeth bellach a chyfleoedd allgyrsiol

### Dolenni i wybodaeth bellach a chyfleoedd allgyrsiol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a amlygwyd uchod, mae llawer o gyfleoedd i bobl ifanc weithio ar y pwnc hwn y tu allan i'r cwricwlwm.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Siarad ag aelodau eraill o'r teulu am eu dealltwriaeth nhw o dreth ac Yswiriant Gwladol.
- Ymweld â gwefan prifysgol neu goleg sy'n agos atynt i weld a allant ganfod pa gymorth ariannol ychwanegol mae'n ei ddarparu i fyfyrwyr.
- Dechrau ymchwilio i ba gymwysterau y mae eu hangen i wneud cyrsiau prifysgol sydd o ddiddordeb iddynt.
- Gofyn i aelodau hŷn o'r teulu ba gyngor y bydden nhw'n ei roi am bensiynau.

### Dolenni

- www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk
- www.gov.uk
- www.livingwage.org.uk
- www.ucas.com
- www.moneysavingexpert.com
- www.acas.org.uk
- www.yougov.co.uk



# ATEBION:

## GWEITHGAREDD: PRENTISIAETHAU TUDALEN 76

**1.** £161.25 yr wythnos

**2.** Treth Incwm, Yswiriant Gwladol, cyfraniadau pensiwn

## GWEITHGAREDD: ISAFSWM CYFLOG TUDALEN 78

**1.** £246 ar gyfer unigolyn 19 oed a £334.13 ar gyfer unigolyn 28 oed

**2.** £12,792 ar gyfer unigolyn 19 oed a £17,374.76 ar gyfer unigolyn 28 oed

## GWEITHGAREDD: MYND I'R BRIFYSGOL TUDALEN 78

**1.** £27,000 (3 x £9,000)

**2.** £230 yr wythnos x 40 = £9,200 y flwyddyn. 3 blynedd = £27,600

## TRAFODAETH: BENTHYCIADAU MYFYRWYR TUDALEN 80

Gallai trafodaethau ganolbwyntio ar y canlynol:

- Maen nhw'n dreth ar raddedigion oherwydd bod yr ad-daliadau'n gweithio'n debyg iawn i Dreth Incwm ac Yswiriant Gwladol. Rydych yn ad-dalu 9% o'ch incwm uwchlaw £27,295 y flwyddyn; e.e. os ydych yn cael incwm o £28,000, eich ad-daliadau benthyciad myfyriwr blynyddol fyddai £63.45 (incwm £28,000 – trothwy £27,295 = £705 a 9% o £705 = £63.45).
- Mae ganddynt delerau ac amodau penodol iawn sy'n wahanol i fenthyca traddodiadol:
    - Nid ydynt yn ffurfio rhan o'ch hanes neu'ch adroddiad credyd.
    - Mae'r ad-daliadau'n cael eu cymryd o'ch cyflog (fel Treth Incwm).
    - Mae'r ddyled yn cael ei chanslo ar ôl 30 mlynedd.
- Maen nhw'n fenthyciad oherwydd rydych yn benthyca'r arian i ariannu addysg brifysgol y mae angen ei dalu'n ôl.



## ASTUDIAETH ACHOS: CYLLIDEBU YN Y BRIFYSGOL TUDALEN 80

**1.** Ar ôl talu ei rhent (£1,440) a'r swm mae hi eisoes wedi'i wario (£507), mae gan Syrah £1,503 ar ôl i bara 9 wythnos arall, sef £167 yr wythnos.

Gallai ei chyllideb wythnosol edrych fel hyn:

| | |
|---|---|
| • Bwyd a diod | £50 |
| • Trafnidiaeth | £10 |
| • Ffôn symudol | £10 |
| • Llyfrau | £34 |
| • Yswiriant | £13 |
| • Cymdeithasu | £50 |
| **CYFANSWM** | **£167** |

Cyfanswm gwariant dros 3 wythnos = £507, felly'r gwariant cyfartalog ar gyfer 1 wythnos = £169. Os yw'r tymor yn para 12 wythnos a'i bod hi'n cynnal ei harferion gwario, cyfanswm ei gwariant fyddai £169 x 12 = £2,028.

Mae hi hefyd wedi talu ei rhent, sef £1,440, felly fe allai cyfanswm ei gwariant fod yn £3,468.

Gan ei bod hi'n cael grant a benthyciad cynhaliaeth o £3,450 yn unig, mae hyn yn golygu ei bod yn debygol o fynd i ddyled os nad yw'n lleihau ei gwariant.

**2.**
- Mae angen iddi roi'r gorau i brynu dillad a chanslo ei haelodaeth gampfa.
- Cerdded i'r brifysgol, os oes modd, i leihau ei chostau trafnidiaeth.
- Mynd â'i dillad adref i'w golchi yn hytrach na defnyddio golchdy (os oes modd).
- Lleihau ei biliau cymdeithasu a bwyd.
- Lledaenu ei chostau llyfrau dros y tymhorau.

## TRAFODAETH: SLIPIAU CYFLOG TUDALEN 82

- Treth Incwm
- Yswiriant Gwladol
- Mae'r flwyddyn ariannol yn dechrau ym mis Ebrill (sef mis 1), felly Mehefin yw mis 3
- Dyma swm y Lwfans Treth Personol a gewch bob blwyddyn. Mae C1257L yn golygu eich bod yn cael lwfans di-dreth o £12,570 cyn i chi ddechrau talu treth incwm.
- £1,345.14

## GWEITHGAREDD: TRETH INCWM TUDALEN 84

**1.** Dim (mae'r cyflog islaw'r trothwy).

**2.**

| | Incwm (£) | Cyfradd dreth (%) | Treth a dalwyd (£) |
|---|---|---|---|
| | 12,570 | 0 | 0 |
| | 37,700 | 20 | 7,540 |
| | 4,730 | 40 | 1,892 |
| Cyfanswm | 55,000 | | 9,432 |

Sylwch: Mae'r ffigurau hyn ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gan yr Alban fandiau treth gwahanol.

**3.**

| | Incwm (£) | Cyfradd dreth (%) | Treth a dalwyd (£) |
|---|---|---|---|
| | 12,570 | 0 | 0 |
| | 37,700 | 20 | 7,540 |
| | 32,730 | 40 | 13,092 |
| Cyfanswm | 83,000 | | 20,632 |

## GWEITHGAREDD: YSWIRIANT GWLADOL **TUDALEN 85**

**£10,000 y flwyddyn** – Yr Yswiriant Gwladol yw sero ar y £9,568 cyntaf o'i gyflog.
Mae'n talu 12% ar y £432 sy'n weddill o'i gyflog = £51.84 y flwyddyn (neu £4.32 y mis). Nid yw'n ennill digon i gyrraedd y trothwy uchaf.

**£30,000 y flwyddyn** – Yr Yswiriant Gwladol yw sero ar y £9,568 cyntaf o'i gyflog.
Mae'n talu 12% ar y £20,432 sy'n weddill o'i gyflog = £2,451.84 y flwyddyn (neu £204.32 y mis).
Nid yw'n ennill digon i gyrraedd y trothwy uchaf.

**£100,000 y flwyddyn** – Yr Yswiriant Gwladol yw sero ar y £9,568 cyntaf o'i gyflog.
Mae'n talu 12% ar y £40,702 nesaf o'i gyflog = £4,884.24 y flwyddyn.
Mae'n talu 2% ar y £49,730 olaf o'i gyflog = £994.60 y flwyddyn.
Felly, mae'r cyfreithiwr yn talu cyfanswm o £4,884.24 + £994.60 = £5,878.84 y flwyddyn (neu £489.90 y mis).

## GWEITHGAREDD: HUNANGYFLOGAETH **TUDALEN 87**

**1.**

| | Elw (£) | Cyfradd dreth (%) | Treth a dalwyd (£) |
|---|---|---|---|
| | 12,570 | 0 | 0 |
| | 15,430 | 20 | 3,086 |
| Cyfanswm | 28,000 | | 3,086 |

Sylwch: Dyma'r ffigurau ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae gan yr Alban fandiau treth gwahanol.

**2. £48,000 o elw y flwyddyn** – Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 – £3.05 x 52 (wythnos mewn blwyddyn) = £158.60
Yn ogystal, Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 – ar y £9,568 cyntaf o'i elw, yr Yswiriant Gwladol yw £0.
Yna, mae'n talu 9% ar y £38,432 nesaf o'i elw = £3,458.88.
Cyfanswm Yswiriant Gwladol =£3,617.48 y flwyddyn.

## ASTUDIAETH ACHOS: DULLIAU TALU **TUDALEN 88**

- Mae Manon yn hunangyflogedig ac mae Geraint yn gyflogai i gwmni.
- Gall Manon gymryd amser i ffwrdd pan fydd hi eisiau, ond byddai'n rhaid i wyliau Geraint gael eu cymeradwyo o flaen llaw.
- Mae gan Geraint incwm gwarantedig a bydd Manon ond yn cael ei thalu os bydd yn cwblhau gwaith.
- Mae cyfle i Manon ymestyn ei busnes ac ennill mwy o arian, ond nid yw'r opsiwn hwn ar gael i Geraint.
- Mae Geraint yn cael tâl gwyliau, ond nid yw Manon yn cael ei thalu os yw'n mynd ar wyliau.
- Mae Geraint yn cael tâl dwbl os yw'n gweithio mwy na'i oriau contract, ond nid felly Manon.

## **ASTUDIAETH ACHOS:** DULLIAU TALU **TUDALEN 89**

Byddai incwm Tom y llynedd wedi dod i gyfanswm o £40,000 (£15,000 cyflog, yn ogystal â £25,000 comisiwn). Byddai Lisa wedi derbyn yr incwm mwyaf y llynedd.

Y flwyddyn nesaf, byddai incwm Tom yn cynyddu i £55,000 (£15,000 cyflog, yn ogystal â £40,000 comisiwn). Yn yr achos hwn, byddai Tom yn derbyn yr incwm mwyaf, ar yr amod ei fod yn cyrraedd ei darged. Fodd bynnag, os bydd Tom yn methu ei darged, gallai hyn newid.

## **GWEITHGAREDD:** BETH SY'N DIGWYDD I'N TRETHI? **TUDALEN 90**

**1.** Mae'r gwahaniaethau'n cynnwys:

- Mae'r cyfanswm y mae Cymru'n ei wario yn llai.
- Nid yw'r penawdau ar gyfer y categorïau gwario yr un peth.
- Mae'r ffynonellau ar gyfer y ffigurau'n wahanol.
- Mae addysg fel canran o'r cyfanswm ddwywaith mor uchel yng Nghymru o gymharu â'r Deyrnas Unedig.
- Mae'r Deyrnas Unedig yn gwario arian ar log dyled ac amddiffyn, ond nid yw Cymru'n gwneud hynny.

**2.** Mae'r tebygrwydd yn cynnwys:

- Gofal iechyd yw un o'r ddau brif faes gwario yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.
- Mae'r gwariant ar yr economi a thrafnidiaeth yng Nghymru yn debyg i'r gwariant ar fuddsoddi yn y Deyrnas Unedig, o ran canran.
- Mae canran y gwariant ar gredydau treth, lles arall a phensiynau'r wladwriaeth gyda'i gilydd yn y Deyrnas Unedig yn debyg iawn i ganran y gwariant ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**3.** Gallai gwybodaeth arall gynnwys:

- Beth sydd wedi'i gynnwys yn y gwahanol benawdau yn y ddwy set o ffigurau.
- P'un a yw'r ddwy ffynhonnell yn ddibynadwy.
- Faint o wariant y Deyrnas Unedig sy'n cael ei wario ar Gymru.
- Faint sy'n cael ei wario y pen yn y Deyrnas Unedig o gymharu â faint sy'n cael ei wario y pen yng Nghymru.

**4.** Ydy, mae'n golygu bod y llywodraeth yn gwario mwy nag y mae'n ei ennill mewn refeniw; mewn geiriau eraill, mae'r wlad mewn dyled genedlaethol sy'n golygu y gallai trethi gynyddu i leihau'r diffyg.

Nac ydyw, efallai y bu'n rhaid iddi wario mwy nag a gododd mewn treth i sicrhau nad oedd cynnydd mewn diweithdra. Os caniateir i ddiweithdra gynyddu, fe allai fod cynnydd mewn gwariant lles ar fudd-daliadau a llai o refeniw treth oherwydd bod pobl yn ennill ac yn gwario llai.

**5.** Ydy, mae treth yn beth da:

- Mae'n creu refeniw i'r llywodraeth.
- Mae'n gwrthbwyso gorddefnydd.
- Mae'n rheoli llygredd.
- Cydraddoldeb incwm.
- Mae'n rheoli galw.

Na, nid yw treth yn beth da:

- Mae'n cyfrannu at chwyddiant (cynnydd mewn prisiau).
- Mae'r cymhelliad i weithio'n cael ei golli.
- Osgoi talu trethi.
- Dibyniaeth ar les.
- Fe allai arwain at ddiweithdra uwch.

## GWEITHGAREDD: POBLOGAETH SY'N HENEIDDIO TUDALEN 92

**1.** Mae dynion a menywod yn byw yn hirach, ac mae menywod yn byw yn hirach na dynion.

**2.** Mae pobl yn gweithio am gyfnod hirach.

**3.**

- Y llywodraeth – gan ein bod yn byw yn hirach, rydym yn debygol o dderbyn pensiwn am gyfnod hirach, sy'n golygu na fydd y llywodraeth yn gallu fforddio taliadau pensiwn y wladwriaeth ar eu lefel bresennol os na fydd yn gweithredu. Mae'r llywodraeth yn cynyddu oedran pensiwn y wladwriaeth i geisio dod â'r gost dan reolaeth.
- Pobl sy'n gweithio – mae'n rhaid i bobl weithio am gyfnod hirach tan iddynt dderbyn eu pensiwn y wladwriaeth.
- Pobl sydd wedi ymddeol – byw yn hirach ar lai o incwm.

## ASTUDIAETH ACHOS: PENSIYNAU TUDALEN 93

Pensiwn llawn y wladwriaeth ar hyn o bryd yw £175 yr wythnos, sef £9,100 y flwyddyn, ac mae'n fyr o'r lleiafswm costau byw yn y Deyrnas Unedig, sef £10,850 y flwyddyn.

Cyngor:
- Bod â chynilion/buddsoddiadau ychwanegol.
- Lleihau gwariant dewisol.
- Trefnu pensiwn gweithle (ar ddechrau eich gyrfa, os oes modd).

## GWEITHGAREDD: LLEIAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL TUDALEN 94

Y Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Ebrill 2021 – os ydych yn iau na 18 oed – £4.62 yr awr, 18-20 oed – £6.56 yr awr, a 21-22 oed – £8.36 yr awr.

Y Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2021 yw £8.91 yr awr.

Cyflog Byw Gwirfoddol y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yw £9.50 yr awr (£10.85 yr awr yn Llundain).

Nid yw'r llywodraeth wedi gwneud y Cyflog Byw Cenedlaethol yr un peth â'r Cyflog Byw Gwirfoddol oherwydd bydd yn rhy ddrud i fusnesau ei weithredu. Os bydd rhaid i fusnesau dalu mwy o gyflogau, gallai hyn arwain at gynnydd mewn prisiau (h.y. chwyddiant).

# ATEBION:
# DATBLYGU'CH GWYBODAETH

## BANDIAU TRETH **TUDALEN 96**

**1.** Incwm presennol Rhian yw:

£25,350 + (3 x £3,250 = £9,750) + £8,875 = **£43,975**

| INCWM (£) | CYFRADD DRETH (%) | TRETH A DALWYD (£) |
|---|---|---|
| 12,570 | 0 | 0 |
| 31,405 | 20 | 6,281 |
| **43,975** | | **6,281** |

Bydd Rhian yn talu **£6,281** o Dreth Incwm.

**2.** £43,975 – £6,281 = £37,694 y flwyddyn

£37,694 / 12 = **£3,141 y mis.**

**3.** £6,281 / £43,975 x 100 = **14.3%** – Mae hyn yn golygu bod 14.3% o gyflog Rhian yn cael ei dalu i'r HMRC mewn Treth Incwm.

**4.**

| INCWM (£) | CYFRADD DRETH (%) | TRETH A DALWYD (£) |
|---|---|---|
| 12,570 | 0 | 0 |
| 36,405 | 20 | 7,281 |
| **48,975** | | **7,281** |

Bydd Rhian bellach yn talu **£7,281** o Dreth Incwm.

**5.** £7,281 / £48,975 x 100 = **14.9%** – Mae hyn yn golygu bod 14.9% o gyflog Rhian yn cael ei dalu i'r HMRC mewn Treth Incwm.

**6.** Treth Incwm £48,975 = £7,281

Treth Incwm £43,975 = £6,281 = **£1,000**

**7.**

- Mae cyfran uwch o'i henillion yn cael ei thalu mewn Treth Incwm bellach.
- Bydd y taliad bonws yn gwthio Rhian yn agosach i'r band treth uwch 40%.
- Bydd y band treth 40% yn berthnasol i unrhyw enillion ychwanegol sy'n gwthio ei hincwm dros £50,270 y flwyddyn.
- Efallai nad yw enillion ychwanegol mor broffidiol ag y gallent ymddangos, o bosibl.



## CYFRANIADAU PENSIWN **TUDALEN 96**

### Cwestiwn 1

**a)**

| CYFLOGWR YN TALU | CYFLOGAI YN TALU |
|---|---|
| 3% – £720 y flwyddyn (£60 y mis) | 5% – £1,200 y flwyddyn (£100 y mis) |

**b)**

| CYFLOGWR YN TALU | CYFLOGAI YN TALU |
|---|---|
| 6% – £1,440 y flwyddyn (£120 y mis) | 8% – £1,920 y flwyddyn (£160 y mis) |

**c)** Er y byddech yn gobeithio hynny, nid yw'n sicr o ddigwydd. Mae cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai at bensiwn yn cael eu rheoli gan ddarparwr pensiwn sy'n eu buddsoddi mewn portffolio o fuddsoddiadau. Mae twf cronfa bensiwn unigolyn yn dibynnu ar berfformiad y buddsoddiadau hyn.



### Cwestiwn 2

**a)**

**1.** £16,120
**2.** £32,500
**3.** £68,750

| CYFLOG | CYFRANIAD Y CYFLOGAI | CYFRANIAD Y CYFLOGWR |
|---|---|---|
| £16,120 | £1,773.20 y flwyddyn (£147.77 y mis) | £4,642.56 y flwyddyn (£386.88 y mis) |
| £32,500 | £4,192.50 y flwyddyn (£349.38 y mis) | £9,360 y flwyddyn (£780 y mis) |
| £68,750 | £9,281.25 y flwyddyn (£773.44 y mis) | £19,800 y flwyddyn (£1,650 y mis) |

**b)** Gallai'r atebion a awgrymir gynnwys:

- Ydynt – dylai pobl sy'n ennill mwy dalu mwy.
- Nac ydynt – dylai fod mwy o gynyddrannau ar ysbeidiau mwy rheolaidd. Beth os oeddech chi eisiau talu mwy, neu lai, fel cyflogai?

## HUNANGYFLOGAETH **TUDALEN 98**

**a)**

| MIS | ORIAU A WEITHIWYD | INCWM (£30 FESUL AWR) | TREULIAU (£) | ELW/COLLED |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill | 168 | 5,040 | 927 | 4,113 |
| Mai | 195 | 5,850 | 1,621 | 4,229 |
| Mehefin | 110 | 3,300 | 782 | 2,518 |
| Gorffennaf | 72 | 2,160 | 437 | 1,723 |
| Awst | 46 | 1,380 | 210 | 1,170 |
| Medi | 197 | 5,910 | 2,932 | 2,978 |
| **CYFANSWM** | **788** | **23,640** | **6,909** | **16,731** |

**b)**

| ELW (£) | CYFRADD DRETH (%) | TRETH A DALWYD (£) |
|---|---|---|
| 12,570 | 0 | 0 |
| 4,161 | 20 | 832.20 |
| **16,731** | | **832.20** |



# RISG A GWOBR

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn ystyried pryd a pham y gallai pobl ifanc ddymuno cymryd risg ariannol a beth yw'r canlyniadau posibl os daw'n amlwg bod y risg yn benderfyniad da, neu'n benderfyniad gwael.

Archwilir y pynciau canlynol naill ai trwy ddarparu gwybodaeth ac astudiaethau achos, neu drwy weithgareddau ar gyfer myfyrwyr. Rhoddir cysylltiad posibl â'r cwricwlwm wrth ymyl pob pwnc:

| PWNC | CYSYLLTIAD Â'R CWRICWLWM | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | IECHYD A LLES | | | | |
| | RHEOLI RISG | CYNLLUNIO AR GYFER GWARIANT | BOD YN DDEFNYDDIWR BEIRNIADOL | HAWLIAU DEFNYDDWYR A GWNEUD IAWN | MATHEMATEG A RHIFEDD |
| Mathau o risg ariannol personol | ■ | | ■ | | |
| Pwyso a mesur risg | ■ | | ■ | | ■ |
| Agweddau at risg | ■ | | | | ■ |
| Mathau o fuddsoddi | ■ | ■ | ■ | | ■ |
| Gamblo | ■ | | | | |
| Mathau o wobr | ■ | ■ | ■ | | |
| Canlyniadau negyddol cymryd risgiau | ■ | | | | ■ |
| Sut i ddiogelu'ch hun yn erbyn risg ariannol | ■ | | | ■ | |
| Mathau o yswiriant | ■ | | | | |

## PAM MAE'R PWNC HWN YN BWYSIG I BOBL IFANC?

Mae tua **40%** o bobl ifanc yn mynd dramor **heb yswiriant teithio**, sy'n golygu bod risg y gallent wynebu miloedd o bunnoedd o ffïoedd meddygol os byddant yn mynd yn sâl.




*Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydain (ABTA) 2017*

Mae pobl ifanc **18-24** oed **yn fwyaf tebygol o gael eu hysgogi i gamblo** gan hysbysebion a phostiadau ar gyfryngau cymdeithasol.



*Ffynhonnell: Adroddiad blynyddol y comisiwn gamblo, Chwefror 2018*

# LLUNIWR CYNLLUN GWERS



## **Cam 1** – Dewiswch weithgaredd dechreuol

(10 – 15 munud)

### Asedau IECHYD A LLES

Fel gweithgaredd dechreuol i weithio ar fathau o risgiau ariannol personol (gweler tudalen 100), gofynnwch i'r myfyrwyr restru eu tri ased mwyaf gwerthfawr. Cymharwch yr atebion gan y dosbarth ac yna dilynwch hyn â'r cwestiwn am y tri ased mwyaf gwerthfawr y gallai rhywun berchen arnynt yn ystod ei oes (gweler tudalen 101).

### Chwaraeon sy'n cynnwys risg IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Cyn iddynt ddechrau'r gweithgareddau ar bwyso a mesur risg (gweler tudalen 102), gofynnwch i wirfoddolwr ddod i flaen y dosbarth. Dangoswch enw camp iddo sy'n cynnwys risg uchel, ond peidiwch â gadael i weddill y dosbarth wybod beth ydyw. Yna, mae'n rhaid i'r dosbarth geisio dyfalu beth yw'r gamp drwy ofyn cwestiynau "ie" neu "na" i'r myfyriwr.

Cyfyngwch y dosbarth i nifer benodol o gwestiynau (e.e. pump neu chwech) cyn iddynt orfod dyfalu'r ateb – efallai un cwestiwn fesul grŵp. Gallai enghreifftiau gynnwys: paffio, mynydda, rygbi, marchogaeth a hoci iâ. Os oes digon o amser, gofynnwch i'r dosbarth raddio'r campau yn eu trefn drwy bwyso a mesur y risg sy'n gysylltiedig â phob un.

### Cyfraddau cyfnewid IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Bydd gweithgaredd dechreuol ar gyfraddau cyfnewid yn helpu'r myfyrwyr i weld y bydd gwahanol grwpiau'n ennill neu'n colli trwy gynnydd neu ostyngiad yn y gyfradd gyfnewid. Gellir defnyddio hyn wrth wneud gwaith ar fuddsoddiadau (gweler tudalen 104). Gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid gyfredol yr ewro a rhywfaint o ddata hanesyddol, crëwch rai ymarferion syml i ddangos sut mae newid mewn cyfraddau cyfnewid yn effeithio ar wahanol grwpiau. Er enghraifft: "Heddiw, y gyfradd gyfnewid yw... Yr adeg hon y llynedd, roedd yn... Petaech chi'n mynd ar wyliau i Sbaen ac wedi cynilo £500 o arian gwario, a fyddech chi wedi bod â mwy i'w wario y llynedd neu nawr?" Yna, gan ddefnyddio'r un cyfraddau cyfnewid: "Mae gwneuthurwr siocledi Prydeinig yn gwerthu ei fariau siocled (£1 am far yn y Deyrnas Unedig) i siopau yn Sbaen. Ydych chi'n credu y byddai'n gwerthu mwy ar gyfradd gyfnewid y llynedd neu gyfradd gyfnewid eleni?"

### Gamblo – taflu ceiniog IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Gofynnwch i'r holl fyfyrwyr sefyll a naill ai rhoi eu dwylo ar eu pen neu y tu ôl i'w cefn. Taflwch ddarn arian i fyny. Os yw'n glanio wyneb i fyny, dylai pawb sydd â'u dwylo ar eu pen aros ar eu traed a dylai pawb arall eistedd, a'r gwrthwyneb os yw'n glanio tu chwith i fyny. Ailadroddwch yr ymarfer nes bod un unigolyn ar ôl ar ei draed.

Defnyddiwch hyn fel cyflwyniad i unrhyw waith ar gamblo (gweler tudalen 106). Fe allech ddymuno rhoi gwobr i'r enillydd, ond defnyddiwch yr ymarfer i bwysleisio faint o fyfyrwyr a gollodd. Gallai'r myfyrwyr edrych ar y tebygolrwydd o ennill a'i gymharu ag ods ennill y loteri (gweler tudalen 106).

### Gwasgaru'r risgiau IECHYD A LLES

Ysgrifennwch y 10 ymadrodd ariannol (gweler tudalen 111) ar ddarnau ar wahân o gerdyn a'u dosbarthu ymhlith parau o fyfyrwyr. Ar hap, gofynnwch i barau geisio esbonio'r ymadrodd a roddwyd iddynt. Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydynt yn gwybod am unrhyw rai eraill nad ydynt ar y cardiau.

## **Cam 2** – Dewiswch weithgaredd/gweithgareddau craidd

(25 – 30 munud)

### Pwyso a mesur risg IECHYD A LLES

Dilynwch y gweithgaredd dechreuol ar gyfer yr adran hon o waith drwy gwblhau'r gweithgaredd ar gymharu agweddau at risg (gweler tudalen 102). Yna, symudwch ymlaen o agweddau cyffredinol at risg drwy ofyn i'r myfyrwyr feddwl am risg mewn sefyllfa ariannol.

Gwnewch hyn drwy roi rhai sefyllfaoedd ariannol i'r myfyrwyr a gofyn iddynt benderfynu a yw'n weithgaredd risg isel, ganolig neu uchel a beth fyddai manteision ac anfanteision pob un.

Dyma rai enghreifftiau o'r sefyllfaoedd hyn:

- Cadw'ch arian mewn cyfrif cynilo banc neu gymdeithas adeiladu.
- Benthyca arian gan y banc i brynu car ail-law gan ffrind i ffrind.
- Trefnu gwyliau drud gyda chwmni teithio nad yw'n adnabyddus neu nad yw wedi'i gofrestru.
- Rydych yn brysur yn y gwaith, felly rydych yn rhoi eich cerdyn debyd a'ch PIN (Rhif Adnabod Personol) i gydweithiwr i godi arian o'r peiriant arian ar eich rhan.
- Cael cerdyn credyd.

Gellid gofyn i'r myfyrwyr ystyried un o'r sefyllfaoedd yn unig – rhowch sefyllfa wahanol i barau/grwpiau bach gwahanol o fyfyrwyr, yna casglwch yr atebion yn nhu blaen y dosbarth. Dilynwch hyn â'r gweithgaredd ar dynnu llinell amser (gweler tudalen 103).

### Mathau o fuddsoddi IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Esboniwch y gwahanol fathau o fuddsoddi i'r myfyrwyr (gweler tudalen 104). Defnyddiwch y cwestiynau a'r gweithgareddau dilynol ar fuddsoddi i gyfnerthu'r dysgu. Gallai'r astudiaeth achos ar Sandeep a Noor (gweler tudalen 108) gael ei gwneud yn unigol neu mewn parau, ond rhowch ddigon o amser i drafod prisiau cyfranddaliadau ac arian cyfred crypto.

## Gamblo IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Bydd gan y myfyrwyr ddiddordeb mewn archwilio'r maes hwn. Ar ôl y gweithgaredd dechreuol ac esbonio'r gwahanol fathau o gamblo (gweler tudalen 106), gofynnwch i'r myfyrwyr greu map meddwl o eiriau/ymadroddion sy'n ymwneud â gamblo. Casglwch rai ymatebion o'r dosbarth.

I archwilio agweddau'r myfyrwyr at gamblo, fe allent greu arolwg sy'n cynnwys cyfres o ddatganiadau cryf am gamblo a gofyn i'r rhai sy'n cwblhau'r arolwg roi rhif o 1 i 5 lle mae 1 = cytuno'n gryf; 2 = cytuno; 3 = ddim yn siŵr; 4 = anghytuno; 5 = anghytuno'n gryf. Yna, gellir dadansoddi canlyniadau'r arolwg a'u cynrychioli mewn amrywiaeth o ffyrdd e.e. defnyddio taenlenni i greu graffiau a siartiau.

## Yswiriant IECHYD A LLES

Bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr wedi clywed y term yswiriant, ond ni fydd nifer sylweddol ohonynt yn gwybod sut mae'n gweithio. Dylech esbonio'r enghraifft wedi'i gweithio o wyliau i Sbaen (gweler tudalen 111) i'r dosbarth. Cyfeiriwch at yr ystadegyn am bobl ifanc ac yswiriant gwyliau ar ddechrau'r bennod hon yn y canllaw i athrawon. Drwy chwilio'r rhyngrwyd, fe welwch nifer o astudiaethau achos o bobl ifanc nad oedd ganddynt yswiriant ac a aeth yn sâl tra oeddent dramor.

Mae'r tabl o fathau o yswiriant a'r hyn sy'n cael ei yswirio (gweler tudalen 112) yn addas i'w addasu fel gweithgaredd didoli cardiau. Dilynwch bob math o yswiriant gydag enghraifft. Gall y gweithgaredd diagram corryn/pry cop (gweler tudalen 114) a'r astudiaeth achos ar Emil ac Aliyah (gweler tudalen 114) gael eu gwneud mewn parau neu'n unigol.

## Gwobrau IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Crëwch gêm gyfranddaliadau i'w defnyddio wrth esbonio'r gwahanol fathau o wobrau (gweler tudalen 108). Dewiswch hyd at 10 o gwmnïau adnabyddus o amrywiaeth o sectorau y bydd y myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt a dewch o hyd i'w pris cyfranddaliadau ar hyn o bryd a beth ydoedd flwyddyn yn ôl. Dywedwch wrth y myfyrwyr beth oedd y pris cyfranddaliadau flwyddyn yn ôl ac esboniwch eu bod wedi etifeddu £1,000 (neu swm o'ch dewis). Fe allech ychwanegu disgrifiad byr o bob cwmni a sut mae wedi perfformio yn y gorffennol. Nawr, mae'n rhaid iddynt benderfynu beth i'w wneud â'r £1,000. Gallant fuddsoddi rhywfaint o'u harian, y cyfan ohono neu ddim byd. Atgoffwch y myfyrwyr o'r gwaith a wnaed yn flaenorol ar wasgaru'r risg (gweler tudalen 110). Bydd unrhyw arian nad yw'n cael ei fuddsoddi yn ennill 1% o log ar hyd y flwyddyn. Y ffordd orau o wneud yr ymarfer fydd mewn parau neu grwpiau bach.

Dull arall fyddai gofyn i'r myfyrwyr wneud yr holl waith ymchwil mewn grwpiau a herio grŵp arall i fuddsoddi yn y cwmnïau maen nhw wedi casglu data arnynt. Bydd angen i chi sicrhau bod gan grwpiau gwahanol gwmnïau gwahanol, ac fe allech ddymuno eu cyfyngu i bum cwmni yn unig fesul grŵp.

Pan fyddant wedi penderfynu, datgelwch y pris cyfranddaliadau cyfredol – un cwmni ar y tro. Gofynnwch a fuddsoddodd unrhyw un yn y cwmni hwnnw, rhowch bris newydd y cyfranddaliadau a gofynnwch iddynt gyfrifo eu helw/colled. Bydd rhai parau/grwpiau'n gwneud yn well nag eraill. Defnyddiwch y sesiwn lawn i gyfeirio at y mathau eraill o fuddsoddiadau, fel ymddiriedolaethau unedau ac eiddo (gweler tudalen 104).

## **Cam 3** – Dewiswch weithgaredd ymestyn

(10 – 15 munud)

### Agweddau at risg

Gofynnwch i'r myfyrwyr lunio arolwg i asesu agwedd myfyrwyr eraill at risg. Fe allai ddilyn fformat tebyg i hwnnw a awgrymwyd ar gyfer yr arolwg gamblo. Bydd ymchwil ar-lein yn darparu rhai enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn, ond gallai'r myfyrwyr ddymuno ychwanegu eu rhai eu hunain hefyd. Er enghraifft, ar ysmygu, cyffuriau, chwaraeon, gwaith cartref a pherthnasoedd – gan sicrhau nad yw'r cwestiynau'n sarhaus nac yn ymwthiol.



### Gêm gyfranddaliadau

Gallai'r gêm gyfranddaliadau uchod gael ei hymestyn yn rhwydd dros gyfnod hwy. Lluniwch eich rheolau eich hun ynglŷn â pha mor aml y gallant newid cwmni, yn yr un modd â chystadlaethau "ffantasi" eraill. Er enghraifft, diwrnod trosglwyddo ar ddydd Gwener pan ganiateir i'r myfyrwyr wneud tri newid.

### Gamblo

Mae llawer o adnoddau ac ystadegau ar gael yn rhwydd ynglŷn â gamblo, er enghraifft yn **www.begambleaware.org**. Mae'r safle hwn yn cynnig deunyddiau ar gyfer athrawon a gweithwyr ieuenctid, gan gynnwys cynlluniau gwers, sleidiau PowerPoint ac adnoddau ategol eraill.

## **Cam 4** – Dolenni i wybodaeth bellach a chyfleoedd allgyrsiol

### Cyfleoedd allgyrsiol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a amlygwyd yn y lluniwr cynllun gwers, mae llawer o gyfleoedd i bobl ifanc weithio ar y pwnc hwn y tu allan i'r cwricwlwm.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Dewis ambell gwmni a dilyn pris ei gyfranddaliadau dros amser.
- Trafod y gwahanol fathau o yswiriant gyda'u rhieni/gofalwyr a chanfod beth maen nhw wedi'i yswirio neu wedi penderfynu peidio â'i yswirio.
- Ymchwilio i arian cyfred crypto i gael gwybod sawl gwahanol fath sy'n bodoli a pha gyngor y gallant ddod o hyd iddo ynglŷn â'i brynu, neu beidio.

### Dolenni

- www.cais.co.uk/services/beat-the-odds
- www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/gam
- www.londonstockexchange.com
- www.begambleaware.org
- www.moneysavingexpert.com
- www.gamcare.org.uk

# ATEBION:

## ASTUDIAETH ACHOS: MATHAU O RISG ARIANNOL BERSONOL TUDALEN 101

| RISG | RISG ISEL, GANOLIG NEU UCHEL? | GOBLYGIADAU | SUT I LEIAFU'R RISG |
|---|---|---|---|
| Rhoi eich cerdyn debyd i ffrind | Canolig i uchel | • Mae'n defnyddio'ch cerdyn heb yn wybod i chi i godi arian neu wneud taliadau. | • Peidiwch byth â rhoi eich cerdyn na'ch manylion i unrhyw un.<br>• Codwch arian o beiriannau arian eich hun bob amser. |
| Rhoi PIN ffrind yn nodiadau eich ffôn | Uchel | • Fe allai ei ddefnyddio heb yn wybod i chi.<br>• Os yw'r un PIN yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sawl cerdyn neu gyfrif, fe allai fod yn agored i gamddefnydd. | • Peidiwch byth â rhoi eich manylion PIN i unrhyw un.<br>• Peidiwch byth â chadw cofnodion na nodiadau ysgrifenedig am eich PIN. |
| Defnyddio cwmni gwyliau nad oes neb wedi clywed amdano | Uchel | • Fe allai fod yn sgam.<br>• Efallai na fydd y cwmni wedi'i ddiogelu, felly byddech yn colli'ch arian petai'r cwmni gwyliau'n mynd i'r wal. | • Defnyddiwch safle adolygiadau ar-lein i wirio manylion y busnes.<br>• Gwiriwch i weld a yw wedi'i ddiogelu gan ATOL.<br>• Edrychwch i weld beth mae cwsmeriaid eraill yn meddwl am ei wasanaeth. |
| Cael cerdyn credyd | Isel | • Mae temtasiwn i'w ddefnyddio a chronni dyledion.<br>• Fe allai effeithio ar eich sgôr credyd os byddwch yn methu taliadau. | • Cadwch y terfyn credyd yn isel.<br>• Defnyddiwch ef ar gyfer pryniadau mawr yn unig.<br>• Talwch y balans bob mis. |

## GWEITHGAREDD: ASESU RISG TUDALEN 102

Bydd y ffordd mae'r myfyrwyr yn graddio'r gweithgareddau a restrir yn dibynnu ar eu hagweddau personol, felly nid oes ateb cywir neu anghywir. Wrth ystyried pa risgiau sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd, fe allech drafod:

| GWEITHGAREDD | RISG |
|---|---|
| Croesi ffordd ddeuol brysur iawn | Cael eich taro, achosi i yrrwr gael ei frifo |
| Aros dros nos mewn tŷ ffrind | Alergeddau bwyd, bod yn flinedig drannoeth |
| Cael lifft mewn car ffrind | Gyrru'n rhy gyflym neu'n beryglus |
| Ysmygu sigaréts | Risgiau cysylltiedig ag iechyd, tân |
| Mynd i wylio gêm bêl-droed ryngwladol | Ymddygiad difrïol, tocynnau ffug |
| Chwarae gemau ar gyfrifiadur | Risgiau iechyd a chymdeithasol |
| Gwylio'r teledu | Dylanwadau amhriodol, golygfeydd sy'n peri gofid |
| Reidio beic heb helmed | Risg anaf, risg i eraill a allai ddilyn yr esiampl |
| Plymio o'r awyr | Methiant cyfarpar, anaf difrifol neu farwolaeth |
| Cerdded i lawr rhes o risiau | Risg anaf, gollyngiad |

## **GWEITHGAREDD:** ASESU RISG PENDERFYNIADAU ARIANNOL **TUDALEN 103**

Gallai atebion posibl gynnwys:

- 14-18 oed – dewis cyfrif cynilo
- 17-21 oed – talu am wyliau gyda ffrindiau a thalu rhent am lety
- 20-30 oed – benthyca arian, perchen ar gar, perchen ar anifail anwes
- 20au-30au hwyr – cael morgais
- 30au ymlaen – cynllunio ar gyfer ymddeol

## **GWEITHGAREDD:** BUDDSODDIADAU **TUDALEN 105**

| UNIGOLYN | BUDDSODDIAD |
|---|---|
| **1.** | Byddai cynilo'n well na buddsoddi, gan fod risg yn gysylltiedig â buddsoddiadau. Nid yw Unigolyn 1 mewn sefyllfa i gymryd risgiau oherwydd y swm bach o incwm gwario sydd ar gael iddo. |
| **2.** | Bydd angen iddynt allu cael at unrhyw fuddsoddiadau'n rhwydd oherwydd efallai bydd arnynt angen yr arian ar gyfer eu plant, felly fe allent ystyried cynllun buddsoddi tymor canolig. O ganlyniad, gallai prynu cyfranddaliadau fod yn bosibilrwydd. |
| **3.** | Dylent ddefnyddio rhywfaint o'r arian i deithio a rhywfaint i'w fuddsoddi mewn cyfranddaliadau, eiddo neu fuddsoddiadau cyfunol. Gan dybio nad oes ganddynt unrhyw ddyledion eraill, dylent ystyried buddsoddiadau tymor hir, efallai eiddo. |
| **4.** | Dylai sicrhau ei bod wedi defnyddio ei lwfans ISA arian parod yn gyntaf, i fwyafu ei manteision treth, ond oherwydd bod ganddi gynilion a dim morgais, fe allai hefyd ystyried ISA stociau a chyfranddaliadau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o gyfranddaliadau, bondiau a chronfeydd. Heblaw am ISA, fe allai fuddsoddi mewn buddsoddiadau cyfunol i wasgaru'r risg neu, os yw'n fodlon cymryd mwy o risgiau, mewn cyfranddaliadau unigol neu hyd yn oed eitemau casgladwy fel hen bethau. |

## **ASTUDIAETH ACHOS:** GAMBLO **TUDALEN 107**

**1.** Y diffiniad o gamblo yw chwarae gêm siawns am arian gyda chanlyniad ansicr. Nid oes sicrwydd y bydd Morgan yn cael y chwaraewyr y mae eu heisiau os bydd yn prynu'r bwndeli cudd, felly mae'n cymryd risg ac nid oes sicrwydd y bydd yn cael y canlyniad y mae ei eisiau. Felly, mae hyn yn fath o gamblo.

**2.**

- Fe allai pobl ifanc fynd yn gaeth i wefr peidio â gwybod y canlyniad, ac fe allai hyn eu hannog i wario mwy nes iddynt gael y canlyniad maen nhw ei eisiau.
- Fe allai pobl ifanc gael eu temtio i wario mwy o arian nag sydd ganddynt a chael eu temtio i ddefnyddio cardiau banc eu rhieni/gofalwyr i dalu am gemau neu ychwanegion ac ati.
- Fe allai annog pobl ifanc i ystyried mathau eraill o gamblo.

**3.** Llai tebygol – ni chafodd yr hyn yr oedd ei eisiau, felly efallai na fydd eisiau mentro yn y dyfodol.

**4.** Mwy tebygol – petai wedi cael yr holl chwaraewyr yr oedd eu heisiau, byddai eisiau rhoi cynnig ar hyn eto yn y dyfodol.

**5.** Oes, mae'r bwndeli cudd yn debyg i gardiau crafu, y loteri genedlaethol, betio ar geffylau, gemau cardiau a gemau casino. Mae pob un yn gofyn am wneud taliad cychwynnol, ond mae iddynt ganlyniad ar hap na ellir ei ragordeinio.

## **ASTUDIAETH ACHOS:** ARIAN CYFRED CRYPTO **TUDALEN 108**

| | MANTEISION | ANFANTEISION |
|---|---|---|
| **Opsiwn A – Prynu cyfranddaliadau**<br>Cynnydd 10% ar gyfartaledd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf | • Adenillion da, os bydd cyflwr blaenorol y farchnad yn parhau. | • Dim sicrwydd y byddwch yn gwneud elw.<br>• Fe allech golli llawer o arian os bydd y cyfranddaliadau'n gwneud yn wael. |
| **Opsiwn B – Cynilion cyfradd sefydlog**<br>2% wedi'i warantu mewn 2 flynedd | • Adenillion gwarantedig ar y buddsoddiad.<br>• Gwell na'r adenillion 0.5% presennol. | • Cyfradd adenillion isel (2%).<br>• Fe allai fod yn is na'r gyfradd chwyddiant, felly byddai gwir werth eich cynilion yn lleihau mewn gwirionedd.<br>• Ni ellir codi arian o fewn cyfnod sefydlog o 2 flynedd, heb gosbau. |
| **Opsiwn C – Prynu arian cyfred crypto**<br>Cynnydd 480% mewn gwerth mewn blwyddyn | • Yr adenillion gorau ar fuddsoddiad os bydd cyflwr blaenorol y farchnad yn parhau ac rydych yn fodlon cymryd y risg. | • Risg uchel iawn. Mae'r farchnad yn anwadal iawn ac fe allai amrywio'n sylweddol o ddydd i ddydd.<br>• Fe allai fod yn anodd cael mynediad ato.<br>• Mae'r gwerthwyr yn dod o ffynonellau anrheoleiddiedig, felly ni fydd modd cael cymorth os bydd unrhyw beth yn mynd o'i le. |

Ar sail y manteision/anfanteision uchod, fe allai Sandeep a Noor ddewis rhwng opsiwn 1 (cyfranddaliadau) ac opsiwn 2 (cynilion cyfradd sefydlog 2 flynedd). Dylent wneud eu penderfyniad ar sail y cwestiynau ychwanegol isod:

- Faint o risg ydych chi'n fodlon ei chymryd?
- A fydd angen i chi gael at y cynilion ar fyr rybudd?
- Am ba mor hir ydych chi eisiau buddsoddi?

Gallai datrysiadau eraill gynnwys:

- ISAs.
- Bondiau.
- Nwyddau.
- Celf, hen bethau neu win.
- Gwasgaru'r risg rhwng nifer o fuddsoddiadau.



## GWEITHGAREDD: YMADRODDION ARIANNOL TUDALEN 111

- **Mae llwyddo a methu'n ddwy ochr o'r un geiniog** – mae'r tebygolrwydd o lwyddo a methu yr un peth.
- **Nid aur yw popeth melyn** – nid yw'r ffaith bod rhywbeth yn edrych yn werthfawr yn golygu bod hynny'n wir.
- **Paid taflu arian da ar ôl drwg** – peidiwch â gwastraffu arian trwy wario mwy o arian ar rywbeth gwael rydych eisoes wedi gwario arian arno (h.y. ceisio trwsio car sy'n ddi-werth).
- **Nid yw arian yn gallu prynu hapusrwydd** – nid yw'r ffaith bod gennych arian yn golygu y byddwch yn hapus.
- **Cadw'r blaidd o'r drws** – bod â digon o arian, o'r braidd, i dalu am hanfodion fel bwyd a llety.
- **Paid rhoi dy wyau i gyd mewn un fasged** – peidiwch â buddsoddi mewn un peth – gwasgarwch y risg fel na fyddwch yn colli popeth.
- **Nid oes y fath beth â chinio am ddim** – mae pris am bopeth.
- **Mae talu dyled yn cadw ffrind** – mae talu dyledion yn cadw pawb yn hapus.
- **Cael deupen llinyn ynghyd** – bod â digon o arian, o'r braidd, i ymdopi.
- **O geiniog i geiniog fe â swllt yn bunt** – bydd wastad gennych arian os byddwch yn gofalu amdano, yn enwedig y symiau bach.

## GWEITHGAREDD: HUNAN-YSWIRIO TUDALEN 113

**1.** Os bydd Aneurin yn hunan-yswirio, efallai na fydd wedi cynilo digon o arian i dalu am driniaeth os bydd ei hangen, ac felly efallai bydd angen iddo gael rhyw fath o fenthyciad i dalu'r bil.

**2.** Petai Aneurin wedi trefnu yswiriant, byddai wedi costio £35 x 12 = £420 am y flwyddyn.Trwy arbed £15 y mis, mae Aneurin wedi arbed cyfanswm o £15 x 12 = £180, gan felly arbed £240 y flwyddyn i ddechrau eisoes.

Nid oedd angen i Aneurin ddefnyddio'r holl arian yr oedd wedi'i gynilo oherwydd bod y pigiadau wedi dod i £80 yn unig, felly mae hefyd wedi arbed £100 ychwanegol (£180 wedi'i gynilo - £80 pigiadau).

**3.** Byddai wedi cymryd 6 mis i Aneurin gynilo ar gyfer y pigiadau.

**4.** Oedd, yn yr achos hwn. Roedd Aneurin yn iawn i hunan-yswirio, ond dim ond oherwydd nad oedd angen i Gelert gael unrhyw driniaeth arall. Petai Gelert wedi bod angen mwy o driniaeth, neu wedi bod angen y pigiadau cyn i Aneurin gynilo £80, efallai y byddai wedi gorfod benthyca arian.

**5.**
- A oes gen i ddigon o arian wedi'i gynilo i dalu bil drud?
- A alla' i gael at yr arian yn gyflym os bydd arna' i ei angen?
- Beth fyddai'n digwydd 'taswn i'n colli fy swydd?

## TRAFODAETH: A YW'N TALU I FOD YN FFYDDLON? TUDALEN 114

Mae Ceri'n debygol iawn o gael yr yswiriant rhatach oherwydd ei fod yn gwsmer newydd ac mae'r cwmni yswiriant eisiau ei annog i ymuno â nhw yn y lle cyntaf. Felly, gallai cynnig bargen wych iddo yn y flwyddyn gyntaf ei berswadio i aros gyda nhw.

Nid oes unrhyw wobrau am fod yn ffyddlon, boed hynny oherwydd teimlad o ddyletswydd neu'n syml oherwydd diogi. Dylech bob amser siopa o gwmpas a chael dyfynbrisiau ar gyfer eich holl bolisïau yswiriant. Gall y rhan fwyaf o bobl ddod o hyd i ddyfynbrisiau rhatach, a gallwch hefyd ddefnyddio'r dyfynbrisiau hyn i fynd yn ôl at eich yswiriwr presennol i weld a all gynnig yr un pris neu bris rhatach. Peidiwch byth â derbyn eich dyfynbris adnewyddu cyntaf.

## GWEITHGAREDD: YSWIRIANT DIDDOROL TUDALEN 114

Gallai atebion posibl gynnwys:

- Mae actorion, cantorion a modelau'n yswirio'r rhannau pwysig o'u cyrff.
- Mae sêr chwaraeon yn yswirio eu cyrff rhag ofn iddynt gael anafiadau.
- Gall cyflwynwyr YouTube, blogwyr a blogwyr fideo yswirio eu cyfarpar, eu heiddo a'u lleisiau. Fe allant hefyd gael eu hyswirio os byddant yn gwneud datganiadau nad ydynt yn wir!

## GWEITHGAREDD: YSWIRIANT TUDALEN 114

| EITEM | RISGIAU POSIBL |
|---|---|
| Tŷ | • Difrod tân/llifogydd<br>• Torri i mewn<br>• Ffenestri wedi torri<br>• Gollwng paent ar garped |
| Car | • Torri i lawr<br>• Cael ei ddwyn<br>• Bod mewn damwain |
| Gwyliau | • Taith hedfan yn cael ei chanslo neu ei hoedi<br>• Arian/ffôn yn cael ei ddwyn<br>• Damwain neu anaf personol |

- At ei gilydd, mae'r risgiau'n aml y tu hwnt i'n rheolaeth, felly mae'r tebygolrwydd y bydd y pethau hyn yn digwydd yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Fodd bynnag, mae taith hedfan yn fwy tebygol o gael ei hoedi na'ch tŷ'n cael ei ddifrodi gan lifogydd.
- Gallai'r holl risgiau hyn fod yn drychinebus, yn annifyr ac yn ddrud i'r unigolion dan sylw/sy'n gysylltiedig.
- Byddwn – ar gyfer pob un. Mae yswiriant modur trydydd parti yn ofyniad cyfreithiol os ydych yn berchen ar gar a'i yrru, ond dylai mathau eraill o yswiriant (trydydd parti, tân a lladrad neu gynhwysfawr) gael eu hystyried. Mae yswiriant yn cynnig amddiffyniad yn erbyn risgiau, y gallai llawer ohonynt fod y tu hwnt i'ch rheolaeth.
- Anifeiliaid anwes, ffonau, iechyd, bywyd, diogelu benthyciad/incwm.

## **ASTUDIAETH ACHOS:** MATHAU O YSWIRIANT **TUDALEN 114**

| EMIL | ALIYAH |
|---|---|
| • Yswiriant cartref a chynnwys (ar gyfer ei feic a dyfeisiau cyffredin, ond bydd angen nodi'r rhain yn benodol ar y polisi)<br>• Yswiriant dyfeisiau (gadgets) (ydy, mae'n bodoli!)<br>• Yswiriant ffôn | • Yswiriant teithio arbenigol (sy'n cynnwys chwaraeon)<br>• Yswiriant cartref a chynnwys<br>• Yswiriant anifail anwes<br>• Yswiriant modur ar gyfer y fan wersylla |



# ATEBION:
# DATBLYGU'CH GWYBODAETH

## GWERTHU CYFRANDDALIADAU **TUDALEN 118**

| BUDDSODDWR | MATH O DRETH | FAINT O DRETH |
|---|---|---|
| 1. Delyth | Treth Wrth Gefn y Dreth Stamp | £11,800 x 0.5% = £59<br>Wedi'i dalgrynnu i fyny = £60 |
| | Treth Enillion Cyfalaf | Yr elw yw £23,650 - £11,800 = £11,850<br>Elw – y lwfans yw £12,300<br>Ni fydd Delyth yn talu unrhyw dreth enillion cyfalaf |
| 2. Elin | Treth Wrth Gefn y Dreth Stamp | £4,250 x 0.5% = £21.25<br>Wedi'i dalgrynnu i fyny = £25 |
| 3. Juan | Treth Wrth Gefn y Dreth Stamp | Os na chawsant eu prynu ar-lein, bydd hyn yn sero |
| | Treth Enillion Cyfalaf | Ni fydd yn talu unrhyw dreth gan fod ei elw islaw'r lwfans |
| 4. Osian | Treth Wrth Gefn y Dreth Stamp | £6,100 x 0.5% = £30.50<br>Wedi'i dalgrynnu i fyny = £35 |

## YSWIRIANT **TUDALEN 119**

**1.** Petai Ioan wedi penderfynu prynu'r yswiriant, faint byddai'r ffôn a'r yswiriant wedi'i gostio iddo am y contract 2 flynedd?

Pris y ffôn = £60 x 24 mis = £1,440
Yswiriant = £100 y flwyddyn x 2 = £200
**CYFANSWM = £1,640**

**2.** Mae Ioan yn penderfynu cael yr un model yn lle ei hen ffôn ac, ar ôl dysgu o'i gamgymeriad, mae'n penderfynu cael yswiriant ffôn symudol hefyd i atal unrhyw ddifrod neu ladrad posibl yn y dyfodol. Faint mae'r profiad cyfan hwn wedi'i gostio iddo?

Talu am y contract gwreiddiol + prynu ffôn newydd + yswiriant = **£2,640**

**3.** Ydy, yn yr achos hwn byddai wedi arbed £1,000 i Ioan yn ogystal â'r drafferth o orfod delio â'i ffôn a oedd wedi torri. Fodd bynnag, petai wedi bod yn fwy gofalus, ni fyddai wedi bod angen iddo gael ffôn newydd, ond yn amlwg dyma'r risg y penderfynodd ei chymryd.

Pe na byddai wedi difrodi ei ffôn, fe allai fod wedi arbed £200 ar hyd cyfnod y contract, ond oherwydd bod y ffôn mor ddrud, mae hyn yn rhywbeth y dylai fod wedi rhoi mwy o ystyriaeth iddo. Petai wedi prynu ffôn rhatach, efallai ni fuasai wedi bod angen iddo ystyried yr yswiriant.

**4.** Pam ydych chi'n credu bod y ffigur hwn mor isel?

- Nid yw'n orfodol.
- Mae pobl yn fodlon mentro.
- Byddai'n well gan rai pobl ddefnyddio unrhyw gynilion a allai fod ganddynt i amnewid/trwsio eu ffôn petai'n cael ei ddifrodi neu ei ddwyn.

## BUDDSODDI MEWN CYFRANDDALIADAU **TUDALEN 120**

**1.**

| ENW'R CWMNI | NIFER Y CYFRANDDALIADAU MAE SANDEEP A NOOR YN BERCHEN ARNYNT | PRIS PRYNU FESUL CYFRANDDALIAD (MEWN CEINIOGAU) | GWERTH Y BUDDSODDIAD (£) | PRIS HEDDIW (MEWN CEINIOGAU) | GWERTH Y BUDDSODDIAD HEDDIW (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cwmni Glas | 2500 | 6c | £150 | 7p | £175 |
| SgwârMelyn | 48 | 725c | £348 | 722c | £346.56 |
| Gwyrdd i Gyd CCC | 150 | 140c | £210 | 139c | £208.50 |
| Coch Campus | 500 | 5c | £290 | 56c | £280 |
| CYFANSWM | | | **£998** | | **£1,010.06** |

**2.** Cyfranddaliadau'r Cwmni Glas yw'r unig rai sy'n dwyn elw. Gwnaeth Sandeep a Noor elw o £25. Gwnaethant brynu'r cyfranddaliadau am £150 a heddiw maen nhw'n werth £175.

**3.** Faint yw cyfanswm yr elw neu'r golled mae Sandeep a Noor wedi'i wneud o'r adeg pan brynon nhw'r cyfranddaliadau?

Gwnaethant brynu eu holl gyfranddaliadau am £998 a heddiw maen nhw'n werth £1,010.06. Felly, maen nhw wedi gwneud elw o £12.06.

**4.** Pris cyfranddaliadau SgwârMelyn heddiw yw 722c. Os bydd y pris yn gostwng 10%, y pris newydd fyddai 649.8c (722c-72.2c). Wedi'i dalgrynnu i 650c.

Pris cyfranddaliadau Gwyrdd i Gyd CCC heddiw yw 139c. Os bydd y pris yn cynyddu 15%, y pris newydd fyddai 159.85c (139c+20.85c). Wedi'i dalgrynnu i 160c.

Gwerth eu portffolio nawr yw:

| ENW'R CWMNI | NIFER Y CYFRANDDALIADAU MAE SANDEEP A NOOR YN BERCHEN ARNYNT | PRIS NEWYDD (MEWN CEINIOGAU) | GWERTH NEWYDD Y BUDDSODDIAD (£) |
|---|---|---|---|
| Y Cwmni Glas | 2500 | 7c | £175 |
| SgwârMelyn | 48 | 650c | £312 |
| Gwyrdd i Gyd CCC | 150 | 160c | £240 |
| Coch Campus | 500 | 56c | £280 |
| CYFANSWM | | | **£1,007** |

Mae'r newidiadau mewn prisiau wedi achosi i werth eu portffolio ostwng **£3.06**

**5.**

- Nid oes sicrwydd o wneud elw, felly fe allech golli arian.
- Fe allech benderfynu gwerthu ar yr adeg anghywir.
- Mae angen buddsoddi yn y tymor hir i weld enillion go iawn, a allai olygu cadw'ch arian yn y buddsoddiad am gyfnod hirach nag yr ydych eisiau.
- Gall ffactorau allanol, annisgwyl effeithio ar bris cyfranddaliadau, sy'n golygu bod y gwerth y tu hwnt i'ch rheolaeth.



# DIOGELWCH A THWYLL

## Beth sydd dan sylw yn y bennod hon?

Mae'r bennod hon yn ystyried yr hyn a olygir gan ddwyn hunaniaeth a thwyll, sut mae twyll yn gallu cael ei gyflawni a'r hyn y gall pobl ifanc ei wneud i'w diogelu eu hunain rhagddo.

Archwilir y pynciau canlynol naill ai trwy ddarparu gwybodaeth ac astudiaethau achos, neu drwy weithgareddau ar gyfer myfyrwyr. Rhoddir cysylltiad posibl â'r cwricwlwm wrth ymyl pob pwnc:

| PWNC | CYSYLLTIAD Â'R CWRICWLWM | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | IECHYD A LLES | | | | MATHEMATEG A RHIFEDD |
| | RHEOLI RISG | BOD YN DDEFNYDDIWR BEIRNIADOL | EFFAITH EHANGACH DEWISIADAU PRYNU | HAWLIAU DEFNYDDWYR A GWNEUD IAWN | |
| Yr hyn a olygwn gan ddwyn hunaniaeth a'i hanes | ■ | | | | ■ |
| Beth yw twyll? | ■ | | | | |
| Y gwahanol ddulliau a ddefnyddir i ddwyn hunaniaeth | | | | | |
| Y derminoleg a ddefnyddir wrth gyflawni twyll | | | | | |
| Tactegau i atal twyll rhag digwydd | ■ | | | | |
| Negeseuon e-bost ffug a sut i'w hadnabod | ■ | | | | |
| Gwefannau ffug | ■ | | | | |
| Sut i ddiogelu'ch hun rhag twyll siopa ar-lein | | ■ | | | |
| Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn dwyn eich hunaniaeth | | | ■ | ■ | |
| Sut i ddiogelu'ch hun rhag dwyn hunaniaeth | ■ | ■ | | | |
| Cyfrineiriau a chwestiynau diogelwch | ■ | | | | ■ |
| Dilysu biometrig | ■ | | | | |
| Ffynonellau cymorth i ddioddefwyr dwyn hunaniaeth | | | | ■ | |

# PAM MAE'R PWNC HWN YN BWYSIG I BOBL IFANC?

Yn **2018**, roedd dioddefwyr twyll hunaniaeth **21** oed neu iau wedi cynyddu **24%**

*Ffynhonnell: www.cifas.org.uk*

Yn **2018**, cyflawnwyd **87%** o'r achosion o dwyll hunaniaeth ar-lein, sy'n rhoi **pobl ifanc sy'n deall technoleg mewn mwy o berygl.**

*Ffynhonnell: www.cifas.org.uk*

Mae **29%** o'r grŵp **18-24 oed** yn fodlon rhannu enw eu mam cyn priodi (cwestiwn diogelwch cyffredin) ar-lein gyda'u ffrindiau.

*Ffynhonnell: www.rbs.com*

Mae nifer y bobl ifanc **18-24 oed** sy'n cael eu twyllo i ddefnyddio eu cyfrif banc i drosglwyddo enillion troseddau wedi cynyddu **75%**

*Ffynhonnell: www.cifas.org.uk*

# LLUNIWR CYNLLUN GWERS

## Cam 1 – Dewiswch weithgaredd dechreuol

(10 – 15 munud)

### Terminoleg twyll IECHYD A LLES

Gweithgaredd dechreuol syml yw adnabod rhai geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio twyll. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys: hoced (*con*), twyll ymddiried (*confidence trick*), ystryw/tric (*dodge*), ffidl (*fiddle*), cast (*hoax*), raced (*racket*), lladrata, sgam, ffugio (*sham*), a thwyll/twyllo (*cheat, fix, rip off, sting, swindle*). Gellid rhoi'r rhain mewn chwilair gan ddefnyddio un o'r cynhyrchwyr chwileiriau niferus sydd ar gael ar-lein, neu fe allech ddewis rhai o'r rhain, neu bob un ohonynt, a gwneud anagramau ohonynt er mwyn i'r myfyrwyr ddod o hyd i'r gair neu'r ymadrodd cywir.

Fe allech osod targed o chwech, dyweder, i ddechrau a helpu'r dosbarth gyda'r gweddill i sicrhau nad yw'r gweithgaredd dechreuol yn cymryd gormod o amser i'w gwblhau.

### Sut mae twyllwyr yn cael gwybodaeth bersonol o'ch cyfrifiadur

IECHYD A LLES

Mae'r ymarfer ar ba mor dda maen nhw'n deall terminoleg gyfrifiadurol yn ymarfer dechreuol gwych i'r dosbarth (gweler tudalen 125). Ar ôl i'r diffiniadau gael eu paru â'r termau, dilynwch hyn drwy ofyn i'r myfyrwyr sut gall y rhain gyrraedd eu cyfrifiadur.

### Cyfrineiriau gwael **IECHYD A LLES** **MATHEMATEG A RHIFEDD**

Mae'r gweithgaredd ar y 10 cyfrinair gwaethaf (gweler tudalen 132) yn ddechrau da. Fe allech ofyn i'r dosbarth cyfan godi llaw i weld pa rai yw'r pump gwaethaf, yn eu barn nhw, cyn rhoi'r drefn go iawn iddynt.

Mae cyfle i edrych ar y tebygolrwydd o ddyfalu PIN 4 digid ac ymestyn hyn drwy ystyried y rhifau PIN mwyaf cyffredin (mae llawer o erthyglau ynglŷn â hyn ar gael ar y rhyngrwyd) a sut mae pobl sy'n defnyddio rhifau PIN cyffredin yn gwneud bywyd yn haws o lawer i dwyllwr.

### Diogelu'ch hun rhag dwyn hunaniaeth a thwyll **IECHYD A LLES**

Gellir defnyddio'r rhestr o 10 ffordd o ddiogelu'ch hun rhag twyll (gweler tudalen 131) fel gweithgaredd dechreuol i gael gwybod pa rai mae'r myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt a pha rai maen nhw'n eu gwneud eu hunain.

Gofynnwch a ydynt yn gwybod am unrhyw awgrymiadau eraill y gallant eu rhannu â gweddill y dosbarth.

### Fideos YouTube **IECHYD A LLES** **MATHEMATEG A RHIFEDD**

Mae'r wybodaeth am beth i'w wneud os bydd eich hunaniaeth yn cael ei dwyn (gweler tudalen 133) a'r gweithgaredd a'r trafodaethau dilynol ar y cymorth sydd ar gael (gweler tudalen 134) yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr archwilio'r wefan ActionFraud, a'r amrywiaeth o fideos byr sydd ar gael am ddim ar YouTube.

Dylech archwilio'r rhain yn gynnar wrth addysgu dwyn hunaniaeth a thwyll oherwydd byddai nifer ohonynt yn gyflwyniadau gwych i lawer o'r pynciau yr ymdrinnir â nhw yn y gwerslyfr. Er enghraifft, byddai'r fideo "Data to go" a gynhyrchwyd gan Cifas yn weithgaredd dechreuol gwych ar gyfer unrhyw waith ar dwyll cyfryngau cymdeithasol.

## Cam 2 – Dewiswch weithgaredd/gweithgareddau craidd

(25 – 30 munud)

### Beth a olygir gan ddwyn hunaniaeth a thwyll

**IECHYD A LLES** **MATHEMATEG A RHIFEDD**

Mae diogelwch a thwyll yn faes pwnc sy'n newid yn barhaus, felly mae terminoleg newydd yn cael ei chreu drwy'r amser. Man cychwyn da ar gyfer y pwnc hwn yw egluro'r hyn a olygir gan ddwyn hunaniaeth a thwyll. Fe allech chi ddarllen yr adrannau gwybodaeth ynglŷn â'r rhain i'r dosbarth neu fe allai'r myfyrwyr eu darllen mewn parau/grwpiau ac yna fe allech chi ofyn cwestiynau fel y tri a ddarperir yn y gwerslyfr (tudalen 122).

Gan ddefnyddio'r dolenni i wybodaeth bellach, casglwch ddata ar dueddiadau dwyn hunaniaeth dros y blynyddoedd a'i ddefnyddio i weithio ar broblemau rhif a datrys problemau mewn cyd-destun ariannol.

## Sgamiau e-bost IECHYD A LLES

Dylai'r myfyrwyr ddarllen y tair neges e-bost sgam enghreifftiol yn unigol neu dylai un aelod o'r grŵp eu darllen i weddill aelodau'r grŵp (gweler tudalen 126). Mewn trafodaethau dilynol, gellid gofyn i'r myfyrwyr ba rai sy'n sgamiau yn eu barn nhw (mae pob un yn sgam) a'u graddio yn nhrefn yr un maen nhw'n tybio y mae pobl yn fwyaf tebygol o'i chredu.

Fe allent hefyd ystyried pwy sy'n fwyaf tebygol o wneud yr hyn y mae'r neges e-bost yn ei ofyn, er enghraifft, rhywun o oedran penodol, efallai? Neu rywedd penodol? Neu bobl â nodweddion personol penodol?

## Astudiaethau achos twyll IECHYD A LLES

Mae'r tair astudiaeth achos yn cynnwys cwestiynau y gellir eu defnyddio mewn trafodaeth ddosbarth neu grŵp (gweler tudalennau 128, 130, 135). Yn lle trafod yr ateb i'r cwestiynau, fe allech ofyn i fyfyrwyr/parau/grwpiau nodi tri pheth y gellid bod wedi'u gwneud ym mhob sefyllfa. Yna, gallwch gasglu'r syniadau hyn at ei gilydd a chynhyrchu strategaethau cytunedig gyda'r dosbarth.

## Beth sy'n digwydd pan fydd eich hunaniaeth yn cael ei dwyn IECHYD A LLES

Bydd angen i'r wybodaeth am beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn dwyn eich hunaniaeth gael ei hesbonio i'r myfyrwyr, yn enwedig y termau amrywiol fel hanes credyd a sgôr credyd (mae diffiniadau o'r termau hyn ar gael yn y bennod Benthyca), a allai fod yn newydd i'r myfyrwyr (gweler tudalen 61). Un ffordd o esbonio'r termau hyn fyddai defnyddio astudiaeth achos person ifanc a ddioddefodd dwyn hunaniaeth. Gellid gofyn i'r myfyrwyr gynrychioli'r termau credyd amrywiol trwy ddiagram corryn/pry cop sy'n cynnwys lluniau a symbolau.

Gallai'r gweithgaredd hwn gael ei gysylltu â'r wybodaeth am "10 awgrym da i ddiogelu'ch hun rhag dwyn hunaniaeth" a'r cwestiynau dilynol (gweler tudalen 131). Gallai'r cwestiynau hyn gael eu hateb yn unigol, neu mewn parau, fel y gall y myfyrwyr gymharu eu hatebion â rhai eu ffrindiau a'u cydfyfyrwyr.

## Dewis cyfrinair IECHYD A LLES MATHEMATEG A RHIFEDD

Bydd gan y myfyrwyr nifer o gyfrineiriau eisoes, felly cyn trafod yr awgrymiadau da ar gyfer cyfrineiriau (gweler tudalen 132), byddai'n werth chweil gofyn i'r myfyrwyr feddwl am eu hawgrymiadau eu hunain ar gyfer ysgrifennu a defnyddio cyfrineiriau. Yna, cymharwch eu hawgrymiadau nhw â'r rhai yn y gwerslyfr. Gan ddilyn y cyngor ar nodweddion cwestiwn diogelwch da (gweler tudalen 132), gellid gofyn i'r myfyrwyr lunio eu cwestiwn eu hunain.

## Cam 3 – Dewiswch weithgaredd ymestyn

(10 – 15 munud)

### Ffug froceru

Maes twyll sy'n tyfu yw ffug froceru, lle mae twyllwyr yn esgus cynnig yswiriant car rhad iawn, ond yn lle hynny'n gadael niferoedd mawr o unigolion a sefydliadau heb yswiriant. Gellid gofyn i'r myfyrwyr ymchwilio i hyn er mwyn canfod:

- Sut mae'r twyll yn cael ei gyflawni
- Beth yw'r canlyniadau posibl i ddioddefwyr
- Sut i osgoi ffug froceru

Mae gwefan y Biwro Twyll Yswiriant **insurancefraudbureau.org** yn ffynhonnell wych o wybodaeth am dwyll o'r math hwn.

### Twyll cyfryngau cymdeithasol

Mae twyllwyr yn targedu'r cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth bersonol. Yn anffodus, mae llawer o bobl yn naïf iawn o hyd ynglŷn â'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi ar gyfryngau cymdeithasol. Gallai'r myfyrwyr ddefnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio i bethau mae pobl yn eu gwneud ar gyfryngau cymdeithasol ac adrodd eu canfyddiadau yn ôl i'r dosbarth. Mae hysbyseb deledu fer am ddiogelwch digidol a gynhyrchwyd gan Barclays ar gael ar-lein sy'n dangos y wybodaeth bersonol y gall twyllwr ei chael o gyfryngau cymdeithasol.

### Sgamiau ffôn

Mae sgamiau ffôn a sgamiau neges destun yn targedu pobl ifanc yn aml – gallai'r myfyrwyr edrych ar y wefan "Take Five to Stop Fraud" i gael cyngor ar sut i osgoi twyll o'r math hwn. Mae hefyd yn darparu prawf ar-lein y gallai'r myfyrwyr ei wneud i weld a allen nhw gael eu twyllo gan sgam.

## Cam 4 – Dolenni i wybodaeth bellach a chyfleoedd allgyrsiol

### Cyfleoedd allgyrsiol

Yn ogystal â'r gweithgareddau a amlygwyd yn y lluniwr cynllun gwers, mae llawer o gyfleoedd i bobl ifanc weithio ar y pwnc hwn y tu allan i'r cwricwlwm.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Adolygu eu gosodiadau preifatrwydd eu hunain ar gyfryngau cymdeithasol.
- Defnyddio gwiriad diogelwch cyfryngau cymdeithasol.
- Newid eu cyfrineiriau, yn enwedig y rhai maen nhw'n eu defnyddio mwy nag unwaith neu'r rhai maen nhw'n credu y gallai twyllwr eu dyfalu.
- Siarad ag aelodau eraill o'r teulu am eu profiadau nhw o dwyll hunaniaeth.
- Defnyddio eu hymwybyddiaeth well o'r tactegau i atal twyll gydag aelodau eraill o'r teulu a allai fod yn llai hyderus na nhw wrth ddefnyddio TG.

### Dolenni

- www.cifas.org.uk
- www.takefive-stopfraud.org.uk
- www.actionfraud.police.uk
- www.moneymules.co.uk

# ATEBION:

## GWEITHGAREDD: MATHAU O DDWYN HUNANIAETH TUDALEN 124

| DULL TWYLLO | TACTEGAU I ATAL Y TWYLL |
|---|---|
| Sgimio cerdyn banc | Peidiwch â gadael i unrhyw un fynd â'ch cerdyn ymaith pan fyddwch yn prynu rhywbeth.<br>Cuddiwch eich llaw bob amser wrth roi eich PIN mewn ATM i godi arian. |
| Sganio cerdyn banc | Cadwch gardiau gyda'i gilydd mewn waled neu fag (nid yw sganwyr yn gallu darllen mwy nag un cerdyn).<br>Cadwch gardiau mewn pocedi blaen (nid pocedi ôl). Mae'n well gan ladron sganio'ch cerdyn o'r tu ôl i chi oherwydd byddwch yn annhebygol o'u gweld. |
| Lladrad | Cadwch fagiau wedi'u cau.<br>Defnyddiwch fagiau sy'n mynd dros yr ysgwydd.<br>Peidiwch â rhoi waledi yn eich poced cefn. |
| Twrio trwy finiau/ newid eich cyfeiriad | Rhwygwch bob dogfen sy'n cynnwys eich manylion personol.<br>Dewiswch gael eich holl gyfriflenni a biliau ar-lein. |
| Hacio | Cadwch gyfrifon yn ddiogel trwy ddefnyddio cyfrineiriau sy'n anodd eu dyfalu.<br>Newidiwch eich cyfrineiriau yn aml. |
| Maleiswedd | Gosodwch wal dân.<br>Gosodwch feddalwedd wrthfeirysau. |
| Gwe-rwydo | Peidiwch byth â chlicio ar ddolenni nad ydych yn eu hadnabod na ffenestri naid.<br>Peidiwch ag ymateb i negeseuon e-bost nad ydynt yn ymddangos yn ddilys. |
| Llais-rwydo | Peidiwch byth â rhoi manylion personol i unrhyw un dros y ffôn.<br>Gwiriwch rifau ffôn ar-lein i weld a ydynt yn ddilys. |
| SMS-rwydo | Peidiwch â chlicio ar unrhyw ddolenni nac ymateb i rifau nad ydych yn eu hadnabod.<br>Peidiwch byth ag anfon manylion personol ymlaen mewn neges e-bost neu neges destun. |

## GWEITHGAREDD: TERMINOLEG TUDALEN 125

**1** = Feirws **2** = Feirws Ceffyl Pren Troea **3** = Botiau **4** = Mwydyn **5** = Ysbïwedd **6** = Meddalwedd hysbysebu **7** = Meddalwedd wystlo

## GWEITHGAREDD: ADNABOD NEGESEUON E-BOST FFUG TUDALEN 126

| DULL TWYLLO | TACTEGAU I ATAL Y TWYLL |
|---|---|
| Neges e-bost 1 | • Os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n siŵr ei fod.<br>• Dylech fod yn amheus o unrhyw gais am fanylion banc.<br>• Darparwyd cyfeiriad e-bost answyddogol.<br>• Ni roddwyd unrhyw fanylion eraill am Alejandro a Pedro. |
| Neges e-bost 2 | • Sillafu a gramadeg gwael.<br>• Cyfeiriad e-bost generig.<br>• Heb ei chyfeirio atoch chi wrth eich enw, dim ond "Annwyl gyfaill".<br>• Dim manylion wedi'u rhoi am yr unigolyn/busnes. |
| Neges e-bost 3 | • Heb ei chyfeirio atoch chi wrth eich enw, dim ond "Annwyl ddefnyddiwr".<br>• Gramadeg gwael a diffyg atalnodi.<br>• Os oedd yn ddilys, nid **mail.check@netscape.com** fyddai'r cyfeiriad e-bost. |

## ASTUDIAETH ACHOS: SEIBERDROSEDDU TUDALEN 128

Gallai Ffion a'i mam fod wedi osgoi'r twyll hwn trwy:

**1.** Dalu am eitemau dim ond pan welwch chi wasanaeth talu diogel – chwiliwch am URL sy'n dechrau â "https" a symbol clo clap caeëdig.

**2.** Defnyddio darparwyr talu wedi'u dilysu yn unig, fel PayPal, sy'n helpu i'ch diogelu. Peidiwch byth â gwneud trosglwyddiad banc gyda phobl nad ydych yn eu hadnabod.

**3.** Gwiriwch gyfeiriad y wefan i wneud yn siŵr ei bod yn ddilys.

**4.** Pan fyddwch yn defnyddio gwefannau manwerthu, dewch o hyd i bwy yn union rydych yn delio ag ef.

**5.** Ymwelwch â hafan y wefan neu'r tudalennau "Amdanom ni" a darllenwch y testun yno. Cadwch lygad am Saesneg wael, fel gwallau sillafu a gramadegol, neu ymadroddion sy'n swnio'n chwithig.

**6.** Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr adborth am y gwerthwr ar y wefan.

**7.** Gwiriwch y disgrifiad o'r eitem yn ofalus – gofynnwch gwestiynau i'r gwerthwr os ydych yn ansicr o rywbeth.

**8.** Byddwch yn ofalus iawn wrth brynu pethau gan bobl heb lawer o hanes gwerthu, neu ddim o gwbl.

## **GWEITHGAREDD:** DIOGELU'CH HUN RHAG TWYLL SIOPA AR-LEIN **TUDALEN 129**

**1.** Clo clap, PayPal **2.** Ychydig **3.** Yn y Deyrnas Unedig **4.** Saesneg, Rhif ffôn **5.** Adborth **6.** Disgrifiad **7.** Hanes

## **ASTUDIAETH ACHOS:** BETH SY'N DIGWYDD OS BYDD RHYWUN YN DWYN EICH HUNANIAETH **TUDALEN 130**

- Dewis derbyn eu holl gyfriflenni a biliau ar-lein.
- Gwirio eu cyfriflenni'n rheolaidd a defnyddio apiau diogel i olrhain eu gwariant.
- Gwirio eu hadroddiad credyd.
- Os oes modd, symud eu blychau post i fan mwy diogel y tu mewn i'r adeilad.
- Casglu eu post yn rheolaidd neu, os ydynt yn mynd ar wyliau, gofyn i ffrind neu gymydog maen nhw'n ei adnabod yn dda ei gasglu.

## **GWEITHGAREDD:** CYFRINEIRIAU **TUDALEN 132**

**Cyfrineiriau –** dyma'r pum cyfrinair gwaethaf yn ôl eu trefn:

**1)** 123456
**2)** 123456789
**3)** qwerty
**4)** password
**5)** 1234567

Rheolau awgrymedig:

- Peidiwch â defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer mwy nag un cyfrif.
- Peidiwch byth ag ysgrifennu'ch cyfrineiriau na rhoi nodiadau yn eich ffôn.
- Peidiwch byth â defnyddio cyfrineiriau sy'n hawdd eu dyfalu.

## **TRAFODAETH:** MATHAU ERAILL O DWYLL **TUDALEN 134**

**Twyll rhoddion elusen:** Fe allai effeithio arnoch os byddwch yn cyfrannu rhodd at achos yn bersonol neu ar-lein nad yw'n achos go iawn.

**Twyll ffôn symudol:** Fe allai effeithio arnoch os byddwch yn cael neges destun neu e-bost sy'n edrych fel petai'n dod o frand ag enw da sy'n gofyn i chi roi eich manylion banc neu wneud taliad, ac rydych yn gwneud hynny.

**Twyll rhamant:** Gall detio ar-lein a chyfryngau cymdeithasol roi cyfle i bobl fod yn gelwyddog am bwy ydynt mewn gwirionedd. Dylech fod yn ofalus wrth siarad ag unrhyw un nad ydych yn ei adnabod yn uniongyrchol, a dylech fod yn amheus iawn o unrhyw sgwrs ynglŷn ag anfon arian.



## ASTUDIAETH ACHOS: GWEFANNAU FFUG TUDALEN 135

- Prynwch docynnau o swyddfa docynnau'r lleoliad, yr hyrwyddwr, asiant swyddogol neu safle cyfnewid tocynnau adnabyddus a dibynadwy yn unig.
- Os dewiswch brynu tocynnau gan unigolyn (er enghraifft trwy safle arwerthu ar-lein neu gyfryngau cymdeithasol), dylech dalu gan ddefnyddio gwasanaeth talu diogel. Peidiwch â gwneud taliadau trwy drosglwyddiad banc neu wasanaethau trosglwyddo arian, oherwydd efallai na fydd modd cael y taliad yn ôl.
- Bydd talu am eich tocynnau gyda cherdyn credyd yn rhoi mwy o amddiffyniad na dulliau talu eraill, fel cerdyn debyd, arian parod, neu wasanaethau trosglwyddo arian.
- Gwiriwch fanylion cyswllt y safle lle rydych yn prynu'r tocynnau. Fe ddylai fod rhif ffôn tirlinell a chyfeiriad post llawn.
- Gwiriwch gyfeiriad y wefan i wneud yn siŵr eich bod ar y wefan iawn. Dylai unrhyw dudalennau gwe rydych yn rhoi eich manylion personol neu ariannol arnynt ddechrau gyda "https" a dangos eicon clo clap caeëdig yn y bar cyfeiriad.

## GWEITHGAREDD: MULOD ARIAN TUDALEN 136

**1.** Mae'r hysbyseb swydd yn annhebygol o fod yn un go iawn am nifer o resymau:

- Dim enw/logo busnes.
- Dim teitl swydd.
- Dim cyfeiriad nac enw wedi'i roi.
- Dim rhif ffôn tirlinell wedi'i roi, dim ond rhif ffôn symudol i anfon neges destun ato.
- Dim proses ymgeisio (e.e. CV, llythyr) – sut byddan nhw'n cael gwybod amdanoch chi a'ch profiad blaenorol, cymwysterau ac ati?
- Os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n siŵr ei fod.

**2.** Mae nifer o bobl y gallech roi gwybod iddynt amdano:

- Rhoi gwybod i linell gymorth "Action Fraud".
- Rhoi gwybod i'r heddlu.

**3.** Gallai'r daflen ffeithiau gynnwys:

- Byddwch yn amheus o bobl sy'n cysylltu â chi trwy gyfryngau cymdeithasol nad ydynt yn eich adnabod.
- Peidiwch byth â rhoi manylion eich cyfrif banc i unrhyw un nad ydych yn ymddiried ynddo neu'n ei adnabod.
- Byddwch yn amheus o gynigion ar gyfer arian, yn enwedig os nad oes teitl swydd na gwybodaeth am y busnes neu'r swydd.
- Byddwch yn amheus o gynigion am swyddi nad ydych wedi gwneud cais amdanynt.
- Os byddwch yn cael cynnig swydd, gwiriwch bob amser i wneud yn siŵr bod y busnes yn un go iawn.
- Ymchwiliwch i unrhyw gynigion am swydd a gewch, yn enwedig os yw'r busnes yn gweithredu dramor neu ar-lein yn unig.
- Dylech osgoi unrhyw hysbyseb swydd os yw'r defnydd o Gymraeg/Saesneg yn wael.



# ATEBION: DATBLYGU'CH GWYBODAETH

## DATA PERSONOL **TUDALEN 138**

**1.** 40% + 32% = 72%

**2. a)** 16-24 (88%), 25-34 (80%), 35-44 (77%)

**b)**
- Mae pobl iau yn tueddu i fod yn fwy hyderus ynglŷn â defnyddio technoleg.
- Maen nhw'n fwy tebygol o ddeall pwysigrwydd diogelu'ch hun ar-lein.
- Mae grwpiau oedran iau yn fwy tebygol o fod wedi cael rhywfaint o addysg ar ddiogelu'ch hun ar-lein.

**3. a)** 65-74 (18%)

**b)** Ie, oherwydd:
- Mae pobl 65-74 oed yn fwy tebygol o fod yn llai hyderus ynglŷn â rheoli eu data ar-lein.
- Mae'r grŵp oedran hwn yn llai tebygol o ddeall pwysigrwydd diogelu eu manylion personol ar-lein/efallai'n fwy agored i niwed.
- Maen nhw'n llai tebygol o ddeall goblygiadau diogelu eu manylion ar-lein.
- Maen nhw'n llai tebygol o fod wedi cael unrhyw hyfforddiant neu addysg ar ddiogelu'ch hun ar-lein.

**4.**

| | CYFANSWM | HYDERUS IAWN | EITHAF HYDERUS | DDIM Y NAILL NA'R LLALL/DDIM YN GWYBOD | DDIM YN HYDERUS IAWN | DDIM YN HYDERUS O GWBL |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrywod | 900 | 392 – 44% | 288 – 32% | 80 – 9% | 80 – 9% | 60 – 6% |
| Menywod | 900 | 333 – 37% | 288 – 32% | 99 – 11% | 99 – 11% | 81 – 9% |

**5.** Mae gwrywod yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus (76%) ynglŷn â rheoli eu data personol ar-lein o gymharu â 69% o fenywod. Roedd 20% o'r menywod a holwyd yn teimlo nad oeddent yn hyderus ynglŷn â rheoli eu data personol ar-lein o gymharu ag 16% o wrywod.

## GWIRIADAU A WNAED **TUDALEN 139**

**1.** Mae defnyddwyr y rhyngrwyd hefyd yn cael eu holi am y mathau o wiriadau maen nhw'n eu gwneud wrth brynu ar-lein, cyn rhoi manylion eu cerdyn debyd neu gredyd. Mae dau o bob tri o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n dweud eu bod yn prynu pethau ar-lein (67%) yn dweud eu bod yn gwirio i weld a yw'r safle'n edrych yn ddiogel, tra bod mwy na hanner yn gwirio a ydynt yn gyfarwydd â'r cwmni neu'r brand (56%) neu'n gwirio a oes dolen i wasanaeth dibynadwy arall (53%).

Mae un o bob tri yn gwirio i weld a oes sicrwydd na fydd eu manylion yn cael eu rhannu ag unrhyw un (33%) ac mae un o bob pedwar yn dibynnu ar argymhellion gan eu ffrindiau neu deulu (24%).

Mae 15% o'r rhai sy'n prynu ar-lein yn dweud eu bod yn edrych i weld a yw'r safle maen nhw'n prynu oddi wrtho wedi'i restru ar chwilotwr ac mae un o bob naw (11%) yn dweud eu bod yn bwrw ymlaen sut bynnag os dyna yw'r unig ffordd o gael yr hyn maen nhw ei eisiau. Mae 5% yn dweud eu bod yn rhoi manylion eu cerdyn credyd neu ddebyd ar-lein pryd bynnag y gofynnir amdanynt; mae hyn yn fwy tebygol ar gyfer pobl 25-34 oed. Mae chwarter defnyddwyr y rhyngrwyd (24%) sy'n prynu ar-lein yn dweud eu bod yn gwneud o leiaf un o'r tri pheth hyn.

## PROFWCH EICH GWYBODAETH AM Y GDPR **TUDALEN 140**

**1. Ateb b)**
Yr uchod yn ogystal â chofnodion meddygol, data rhwydwaith cymdeithasol a manylion banc.

**2. Ateb a)**
Mae'n rhaid iddo roi gwybod i chi sut gallwch fynnu ei fod yn dileu'r holl ddata personol mae'n ei ddal amdanoch.

**3. Ateb c)**
Unrhyw beth a fydd yn helpu i achub eich bywyd.

**4. Ateb c)**
Rhoi gwybod i'r awdurdodau o fewn 72 awr o'r digwyddiad.

**5. Ateb c)**
Gall ei defnyddio yn y ffordd a esboniwyd i chi cyn i chi roi eich caniatâd iddo i'w defnyddio yn unig.

# RHAGOR O GYMORTH **A CHEFNOGAETH**

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi manylion rhai o'r sefydliadau sy'n gallu rhoi mwy o gymorth a chefnogaeth wrth ddatblygu a darparu addysg ariannol o ansawdd uchel yn eich ysgol.



# Y GWASANAETH ARIAN A PHENSIYNAU

## Amdanom Ni

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) wedi ymrwymo i ddarparu mynediad at y wybodaeth a'r arweiniad y mae ar bobl ledled y Deyrnas Unedig eu hangen i wneud penderfyniadau ariannol effeithiol drwy gydol eu hoes. Un o gyrff hyd braich Llywodraeth y Deyrnas Unedig ydyw, ac mae'n dwyn ynghyd y gwasanaethau rhad ac am ddim a ddarparwyd yn flaenorol gan y Gwasanaeth Cyngor ar Arian, y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau a Pension Wise.

Mae MaPS yn arwain y broses o gyflawni Strategaeth Lles Ariannol y Deyrnas Unedig, gan weithio tuag at weledigaeth lle mae pawb yn gwneud y mwyaf o'u harian a'u pensiynau. Un o nodau'r strategaeth yw sicrhau, **erbyn 2030, bod dwy filiwn yn fwy o blant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig yn cael addysg ariannol ystyrlon**. Mae hynny'n cyfateb i 90,000 yn fwy o bobl ifanc yng Nghymru.

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Mae MaPS yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws amrywiaeth o sectorau i helpu i wella'r ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion, gartref ac yn y gymuned.

Ochr yn ochr â rhieni a gofalwyr, mae ysgolion ac athrawon mewn sefyllfa unigryw i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau ariannol y mae arnynt eu hangen. Dyna pam mae MaPS yn cefnogi datblygiad offer a rhaglenni sy'n galluogi athrawon i ddarparu addysg ariannol o ansawdd da yn yr ystafell ddosbarth.

I helpu ysgolion ac eraill, rydym yn:

- Cefnogi datblygiad offer a gwasanaethau addysg ariannol, a mynediad atynt, gan gynnwys ariannu'r Marc Ansawdd Addysg Ariannol i helpu athrawon i ddod o hyd i adnoddau effeithiol.
- Ariannu darpariaeth rhaglenni addysg ariannol, i brofi dulliau newydd a sicrhau bod ymyriadau sy'n gweithio ar gael yn ehangach.
- Cynnal a hyrwyddo ymchwil i wella ein dealltwriaeth o anghenion addysg ariannol plant a phobl ifanc a'u lles ariannol.
- Cynnal a chyfrannu at rwydweithiau sy'n cefnogi datblygiad offer addysg ariannol a rhannu arfer gorau.



## Sut i gysylltu â ni

Dysgwch fwy am ein gwaith i wella darpariaeth addysg ariannol yn **www.maps.org.uk/schools**, neu drwy anfon neges e-bost atom ar **cyp@maps.org.uk**.

# SEFYDLIAD BANCIO A CHYLLID LLUNDAIN

The London Institute of Banking & Finance

## Amdanom Ni

Rydym yn bodoli am reswm syml iawn – i ddatblygu bancio a chyllid trwy ddarparu addysg a syniadau rhagorol. Rydym yn canolbwyntio ar ddysgu gydol oes, gan ddechrau mewn ysgolion gyda sgiliau bywyd ac ymestyn ar hyd gyrfa gweithiwr proffesiynol yn y diwydiant.

Ac oherwydd inni fod wrth wraidd y sector ers 1879, rydym yn creu cysylltiadau a ffurfio partneriaethau sy'n gwneud bancio a chyllid yn fwy hygyrch a dealladwy.

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Mae ein cymwysterau gallu ariannol yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder y mae eu hangen ar fyfyrwyr i wneud penderfyniadau ariannol da, yn ogystal ag ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr cyllid a bancio proffesiynol.

Rydym yn darparu cymwysterau cynhwysfawr i fyfyrwyr sy'n datblygu pobl ifanc wydn sy'n gallu symud ymlaen i addysg uwch, addysg bellach neu gyflogaeth. Mae myfyrwyr nid yn unig yn dysgu sut i reoli eu harian yn effeithiol, maen nhw hefyd yn dysgu am incwm a gwariant, credyd a dyled, yswiriant, cynilion a phensiynau, cynhyrchion ariannol, a sut mae arian cyhoeddus yn cael ei gynhyrchu a'i wario, gan eu helpu i baratoi ar gyfer annibyniaeth ariannol.

Mae pob ysgol yn cael Rheolwr Perthynas â Chwsmeriaid penodol i'ch helpu i fapio'ch darpariaeth a'ch cynorthwyo bob cam o'r ffordd. Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio'n benodol gydag athrawon prysur mewn golwg – gan eich helpu i gynnwys y pwnc hollbwysig hwn yn eich amserlen.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phobl agored i niwed ac elusennau ledled y Deyrnas Unedig i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at sgiliau ariannol hanfodol.



### Sut i gysylltu â ni

I gael gwybod mwy neu drefnu ymweliad â'ch ysgol, anfonwch neges e-bost at **fccrm@libf.ac.uk** neu ffoniwch ni ar **01227 828234**.

# YR ELUSEN ARIAN

## Amdanom Ni

Yr Elusen Arian yw elusen gallu ariannol y Deyrnas Unedig. Ein gweledigaeth yw bod pawb yn gallu rheoli eu harian yn effeithiol yn rhan o fywyd pob dydd. Rydym yn grymuso oedolion a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth, yr agweddau a'r ymddygiadau i wneud y mwyaf o'u harian drwy gydol eu hoes.

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Gallwn helpu athrawon i ddarparu addysg ariannol mewn tair prif ffordd:

**Gweithdai Arian**

Mae ein Gweithdai Arian rhyngweithiol yn cael eu cyflwyno mewn ysgolion a cholegau gan arbenigwyr ar addysg ariannol. Mae'r gweithdai'n rhoi'r sgiliau y mae eu hangen ar fyfyrwyr i wneud y penderfyniadau ariannol sy'n iawn iddyn nhw, yn awr ac yn y dyfodol. Maen nhw'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac yn ymdrin â chyllidebu, dyled, cynilo, yswiriant, pensiynau, slipiau cyflog, morgeisi a llawer mwy!

**Y Llawlyfr Arian i Fyfyrwyr**

Mae ein Llawlyfr Arian i Fyfyrwyr yn helpu i roi'r holl wybodaeth allweddol y mae ei hangen ar fyfyrwyr i reoli eu harian yn y brifysgol, gan gynnwys manylion am y pecyn cyllid myfyrwyr, ad-dalu benthyciadau a byw ar gyllideb myfyriwr. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes yn astudio yn y brifysgol yn ogystal â myfyrwyr sy'n ystyried gwneud hynny.

**Pecynnau Adnoddau Athrawon**

Mae ein Pecynnau Adnoddau Athrawon wedi'u cynllunio i roi gweithgareddau ac adnoddau i athrawon fel y gallant gyflwyno gwersi addysg ariannol eu hunain, gyda chyn lleied o waith paratoi â phosibl. Mae pob pecyn yn cynnwys 1 awr o gynnwys wedi'i rannu'n 3 gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Mae pecynnau ar gael sy'n ymdrin â chyllidebu, cynllunio, cynilo, credyd, cael eich talu, bancio, a mwy!



## Sut i gysylltu â ni

Mae llawer o'r hyn a wnawn am ddim i ysgolion! Cysylltwch â ni  i gael gwybod beth allwn ei wneud i helpu'ch ysgol i ddarparu addysg ariannol effeithiol.

**youngpeople@themoneycharity.org.uk**
**0207 062 8933**
**www.themoneycharity.org.uk**

# MYBNK

## Amdanom Ni

Elusen yn y Deyrnas Unedig yw MyBnk sy'n darparu amrywiaeth o raglenni addysg ariannol i bobl ifanc 7-25 oed mewn ysgolion a sefydliadau ieuenctid.

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Gyda phobl ifanc, mae MyBnk wedi creu gweithdai arloesol, effeithiol a llawn egni sy'n dod ag arian yn fyw.

Gall arbenigwyr MyBnk ddod i'ch ysgol gyda'r adnoddau a'r technegau diweddaraf i helpu myfyrwyr i ddysgu sut i reoli arian, llywio'r system ariannol a deall treth, dyled, dewisiadau gyrfaol a chyllid myfyrwyr.

Rhaglenni:

**Money Twist**

Fformat: 3 gweithdy 100 munud. Gellir eu cyflwyno ar ddiwrnodau y tu allan i'r amserlen. Maint grŵp: 12-30.

Mae Money Twist, sy'n cael ei rannu ar gyfer pobl ifanc 11-14 a 14-18 oed mewn ysgolion uwchradd, yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion ariannol pob dydd ymarferol a pherthnasol, gan gynnwys cyllidebu, angen o gymharu ag eisiau, gyrfaoedd, treth, bancio, llog, cynilion, pensiynau a buddsoddiadau.

Mae MyBnk hefyd yn cynnig fersiwn o'r rhaglen hon wedi'i seilio ar chwaraeon sy'n ddelfrydol ar gyfer ardal chwarae awyr agored neu neuadd chwaraeon.

**Uni Dosh**

Fformat: gweithdy 2 awr. Maint grŵp: 12-30.

Mae Uni Dosh, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed sy'n ystyried mynd i'r brifysgol, yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o gyllid myfyrwyr, bancio, cyflogaeth, treth, a phwysigrwydd cyllidebu pan fyddwch yn byw'n annibynnol.

Mae'r holl sesiynau'n defnyddio astudiaethau achos o fywyd go iawn, adnoddau lliwgar, gemau, fideos a chysylltiadau â diwylliant poblogaidd.

Fe'u cyflwynir gan staff sydd wedi cael archwiliadau DBS, hyfforddiant llawn a phrofion, ac maen nhw wedi'u cysylltu'n agos â'r cwricwlwm ac yn cael eu profi a'u gwerthuso gan Wasanaeth Arian a Phensiynau'r llywodraeth.

Mae'r gweithdai ar gael fel gwersi dwbl neu sesiynau hanner diwrnod a gellir eu cyflwyno i grŵp blwyddyn cyfan neu ddosbarth unigol.



### Sut i gysylltu â ni

Cysylltwch ag **info@mybnk.org**
neu ymwelwch â **www.mybnk.org/our-work**

# YOUNG MONEY

## Amdanom ni

Mae Young Money (sy'n rhan o Young Enterprise) yn cynorthwyo pob addysgwr i ddatblygu gallu ariannol y bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw. Rydym yn ddarparwr dibynadwy a werthfawrogir o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant i unrhyw un sy'n addysgu plant a phobl ifanc sut i reoli arian.

## Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Rydym yn cynnig adnoddau a chymorth rhad ac am ddim i ysgolion i wneud addysgu addysg ariannol yn rhwydd. Rydym yn gwybod bod pob ysgol a choleg yn unigryw a bod angen iddynt ddod o hyd i'w datrysiad eu hunain i fodloni anghenion eu dysgwyr.

Credwn fod athrawon hyfforddedig yn darparu'r llwybr mwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer addysg ariannol mewn ysgolion gan eu bod nhw'n adnabod eu disgyblion orau ac yn deall sut i integreiddio addysg ariannol mewn gwersi a bodloni gofynion cwricwlwm eu hysgol.

Mae ein **Gwasanaeth Cynghori ar Addysg Ariannol** yn rhoi cyngor ac arweiniad rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n addysgu pobl ifanc am arian.

Rydym hefyd yn cynnal **Hyfforddiant Addysg Ariannol i Athrawon** ledled Cymru a Lloegr, sy'n galluogi athrawon i ddatblygu a chyflwyno addysg ariannol berthnasol, o ansawdd uchel, sy'n bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a mwy.

Wythnos genedlaethol o weithgareddau yw **Fy Wythnos Arian** sy'n rhoi cyfle gwych i ysgolion ganolbwyntio ar ddysgu cysylltiedig ag arian. Bob blwyddyn, rydym yn darparu ystod o adnoddau a gweithgareddau addysg ariannol diddorol i roi bywyd i arian a chyllid.

Mae ein **Cynlluniau Gwers Young Money** yn cael gwared â straen cynllunio gwers trwy gynnig 50 o gynlluniau gwers cynradd ac uwchradd sy'n barod i'w defnyddio, ynghyd â thaflenni gweithgareddau a sleidiau PowerPoint.

Rydym hefyd yn achredu adnoddau addysg ariannol trwy ein **Marc Ansawdd Addysg Ariannol** fel bod addysgwyr yn gallu adnabod deunyddiau addysg ariannol cywir, diddorol, perthnasol, o ansawdd uchel yn rhwydd.



## Sut i gysylltu â ni

Anfonwch neges e-bost atom ar **advisoryservice@y-e.org.uk**, ffoniwch ni ar **020 4526 6389** neu ewch i **www.young-money.org.uk** i gael syniadau, ysbrydoliaeth a chyngor, ac i gael at ein hystod lawn o adnoddau a gwasanaethau.

Rhan o Fenter yr Ifanc

MARC ANSAWDD ADDYSG ARIANNOL

ADNODD ADDYSG ARIANNOL ARGYMELLEDIG

Cefnogir gan Gwasanaeth Arian a Phensiynau

Aseswyd gan arbenigwyr annibynnol

Rhif Cyhoeddi. 0159 | Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2021

# PAM MAE ADDYSG ARIANNOL YN BWYSIG I BOBL IFANC?

Mae **UN O BOB PUMP**
o bobl ifanc yn defnyddio cerdyn credyd bob dydd.

Mae **44%**
o bobl 18-34 oed yn dweud nad oes ganddynt unrhyw ddarpariaeth bensiwn o gwbl.

Mae **55%**
o bobl ifanc 20-29 oed yn poeni am allu cynilo.

Dim ond **39%**
o bobl ifanc 14-17 oed sy'n aml neu bob amser yn cynllunio sut maen nhw'n mynd i brynu'r pethau y mae arnyn nhw eu hangen.

Crëwyd Mae'ch Arian o Bwys gan Young Money (rhan o Young Enterprise) i helpu i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau y mae eu hangen ar bobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am reoli eu harian.

Trwy archwilio pynciau sy'n berthnasol i'r grŵp oedran hwn, fel cynilo, benthyca a byd gwaith, bydd Mae'ch Arian o Bwys yn ffurfio cenhedlaeth newydd o oedolion ifanc ariannol alluog sy'n gallu rheoli eu harian yn llwyddiannus i gyflawni eu nodau ar gyfer y dyfodol.

www.young-money.org.uk